# Diffygion mewn Trefniadau Llywodraethu, Rheolaeth Ariannol a Rheolaeth Fewnol – Cyngor Cymuned Sant Harmon

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2568A2021-22

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau sylweddol mewn prosesau penderfynu a diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Sant Harmon.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o ddiffygion yn nhrefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol y Cyngor ac yn gwneud dau argymhelliad i fynd i'r afael â'r methiannau hynny.

Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wneir, yn unol ag adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Cyngor Cymuned Sant Harmon 4

Fy ngwaith archwilio 5

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 6

Camau gweithredu y mae'r Cyngor eisoes wedi'u cymryd 7

Camau nesaf 7

Adroddiad manwl

Ni sefydlodd y Cyngor drefniadau priodol i baratoi a chymeradwyo ei gyfrifon blynyddol a'i ddatganiad o reolaeth fewnol a'u cyflwyno i gael eu harchwilio fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth 8

Roedd system rheolaeth fewnol y Cyngor yn annigonol ac yn aneffeithiol 15

Ni chydymffurfiodd y Cyngor ag amryw ofynion deddfwriaethol 27

Roedd y broses a arweiniodd at benodi Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor yn wallus ac yn fy marn i fe allai fod wedi bod yn anghyfreithlon ac ni chafodd telerau ei phenodiad eu cymeradwyo na'u rhoi ar waith yn briodol 37

Torrodd y Cyngor ei reolau caffael ei hun, fe ymrwymodd i drefniant TAW afreolaidd ac fe ddarparodd wybodaeth anwir ar gyfer archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol am ei drefniadau contractio 40

Roedd trefniadau rheoli a phrosesau penderfynu'r Cyngor mewn perthynas â chynllun grantiau cymunedol yn sylfaenol wallus ac fe allai fod wedi bod yn anghyfreithlon 51

Roedd y broses a arweiniodd at gyfethol dau aelod newydd i'r Cyngor ym mis Chwefror 2019 yn sylfaenol wallus ac fe gyfranogodd y Cadeirydd a chynghorydd arall yn y broses er gwaethaf gwrthdaro buddiannau am bod ganddynt fuddiannau personol a buddiannau a oedd yn rhagfarnu yn y canlyniad 52

Atodiadau

Atodiad 1 – Canfyddiadau a nodwyd gan yr Archwilydd Mewnol ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19 o'i gymharu â chanfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar yr un materion 63

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned Sant Harmon (y Cyngor) ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19.

2 Yn ystod fy archwiliad, cafodd materion a oedd yn gysylltiedig â threfniadau'r Cyngor ar gyfer rheolaeth ariannol a llywodraethu eu dwyn i'm sylw. Wrth ystyried y materion hyn, canfûm fethiannau arwyddocaol mewn prosesau penderfynu, diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol a methiant cydberthnasoedd o fewn y Cyngor. Fe berodd y methiannau hyn i mi ddod i'r casgliad nad oedd gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

3 Mae'r adroddiad hwn yn adroddiad ar unwaith a gyhoeddir er budd y cyhoedd dan Adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau'r Cyngor o ran prosesau penderfynu a diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol. O ystyried natur y materion a ganfuwyd gennyf, rwy'n credu ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn ac iawn o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

4 Rwyf hefyd yn ystyried ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau o'r fath yn digwydd eto'n cael ei lleihau i'r eithaf.

5 Rwy'n nodi bod gwersi i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor hwn, ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

## Cyngor Cymuned Sant Harmon

6 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu pentrefi Sant Harmon a Phan-y-Dŵr ym Mhowys. Yn 2018-19, gwariodd y Cyngor £22,669 ar wasanaethau lleol a gwneud grantiau i grwpiau cymunedol. Ariannodd y gwariant hwn yn bennaf trwy braesept o £9,995 gan Gyngor Sir Powys a grant o £4,390 i gael ei ddefnyddio er budd y gymuned gan gwmni fferm wynt lleol. O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Cyngor £2,023 mewn cronfeydd wrth gefn.

7 Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw cyllid y Cyngor o bwrs y wlad a chaiff ei aelodau naill ai eu hethol gan etholwyr lleol neu eu cyfethol trwy broses gyfethol a hysbysebir yn agored. Felly, mae'r Cyngor yn atebol i'r etholaeth leol.

8 Mae llawer o gynghorau cymuned fel Cyngor Cymuned Sant Harmon yn sefydliadau bach iawn ac yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc yng nghymhwyster Swyddog Cyllid Cyfrifol hefyd, sydd â gorchwyl dan ddeddfwriaeth i weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol. Mae hyn yn cynnwys gweinyddu

trefniadau'r Cyngor ar gyfer cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol. Clerc Cyngor Cymuned Sant Harmon yw'r sawl sydd wedi'i benodi'n Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor hefyd.

9 Ar gyfer y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef, Katrina West (y Clerc blaenorol) oedd Clerc y Cyngor. Roedd y Clerc blaenorol yn cael ei chynorthwyo gan Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Donald Jenkins (y Cadeirydd). Roedd y Cadeirydd wedi gweithredu fel clerc dros dro cyn penodiad Ms West.

10 Er gwaethaf y rôl statudol y mae Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor yn ei chyflawni, mae'r gyfraith, sef Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn amodi bod y cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod gan y Cyngor reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gydag aelodau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys pethau fel sefydlu system rheolaeth fewnol briodol, sicrhau bod y Cyngor yn cael archwiliad mewnol digonol ac effeithiol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i gael eu harchwilio.

# Fy ngwaith archwilio

11 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau cymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

12 Yn ystod archwiliad 2018-19 fe godwyd pryderon archwilio gyda fy archwilwyr gan sawl aelod o'r cyhoedd. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. Fe benderfynais ei bod yn angenrheidiol ymdrin â'r pryderon hyn trwy ofyn i'm harchwilwyr gynnal archwiliad mwy manwl nag a fyddai'n cael ei gynnal fel rhan o'r drefn arferol. Mae'r gwaith archwilio hwn wedi cael ei gwblhau bellach.

13 Caiff fy nghanfyddiadau, sy'n datgelu elfennau o lywodraethu gwael a rheolaeth ariannol wael, eu crynhoi isod, ac fe'u nodir mewn manylder yng ngweddill y ddogfen hon.

# Canfyddiadau allweddol

14 Canfu fy archwiliad fod safonau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor ar y cyfan yn wael:

- nid oedd y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol ar gyfer paratoi a chymeradwyo'i gyfrifon blynyddol a datganiad o reolaeth fewnol a'u cyflwyno i gael eu harchwilio;
- roedd system rheolaeth fewnol y Cyngor yn annigonol ac yn aneffeithiol;
- methodd y Cyngor â chydymffurfio â llawer o ofynion deddfwriaethol;

- roedd y broses i benodi Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor yn wallus ac yn fy marn i fe allai fod wedi bod yn anghyfreithlon ac ni chafodd telerau ei phenodiad eu cymeradwyo na'u rhoi ar waith yn briodol;
- fe dorrodd y Cyngor ei reolau caffael ei hun, fe ymrwymodd i drefniant TAW afreolaidd ac fe ddarparodd wybodaeth gamarweiniol ar gyfer fy archwilwyr am ei drefniadau contractio;
- roedd trefniadau rheoli a phrosesau penderfynu'r Cyngor mewn perthynas â chynllun grantiau cymunedol yn sylfaenol wallus ac fe allai fod wedi bod yn anghyfreithlon; ac
- roedd y broses a arweiniodd at gyfethol dau aelod newydd i'r Cyngor ym mis Chwefror 2019 yn sylfaenol wallus ac fe gyfranogodd y Cadeirydd a chynghorydd arall yn y broses er gwaethaf gwrthdaro buddiannau am bod ganddynt fuddiannau personol a buddiannau a oedd yn rhagfarnu yn y canlyniad.

15 Canfu fy archwilwyr hefyd fod ymddygiad Cadeirydd y Cyngor a Chlerc blaenorol y Cyngor mewn perthynas â'r materion a amlygir yn yr adroddiad hwn wedi methu â chyrraedd y safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl gan swyddogion cyhoeddus.

## Argymhellion

16 Rwy'n gwneud 2 argymhelliad i fynd i'r afael â'r materion yr wyf wedi'u hamlygu yn y ddogfen hon.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Rwy'n argymell bod y Cyngor yn paratoi ac yn cytuno ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau a diffygion niferus yn ei drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol a nodir yn y ddogfen hon. |
| A2 | Rwy'n argymell bod y Cyngor yn ystyried a oes materion yn cael eu codi yn yr adroddiad hwn y dylid eu hatgyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel achosion posibl o dorri Cod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor. |

## Camau gweithredu y mae'r Cyngor eisoes wedi'u cymryd

17 Mae'n bwysig bod y Cyngor yn dysgu o'r canfyddiadau hyn ac yn mynd i'r afael â'r diffygion yr wyf wedi'u canfod. Ym mis Rhagfyr 2020, fe benododd y Cyngor glerc newydd. Mae'r Clerc wedi fy hysbysu ei bod wedi cynnal adolygiad o brosesau, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ers ei phenodiad. Canfu'r adolygiad hwn nifer o'r diffygion a nodir yn yr adroddiad yma. Mae'r Clerc wedi paratoi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r diffygion hyn, ac mae'r Clerc wedi fy hysbysu bod llawer o'r camau gwella hyn wedi cael eu cwblhau, a bod eraill yn y broses o gael sylw. Bydd fy archwilwyr yn monitro cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'i gynllun gweithredu mewn archwiliadau yn y dyfodol.

## Camau nesaf

18 Mae Adrannau 25 i 27 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r camau y mae angen i'r Cyngor eu cymryd yn awr mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

19 I grynhoi, rhaid i'r Cyngor fynd ati yn awr i ystyried yr adroddiad a'i argymhellion yn un o gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor o fewn un mis i'r dyddiad y byddaf yn cyhoeddi'r adroddiad.

20 Cyn y cyfarfod, rhaid i'r Cyngor osod hysbysiad yn hysbysebu'r cyfarfod mewn papur newydd a gaiff ei gylchredeg yn yr ardal. Rhaid i'r hysbysiad hwn nodi dyddiad ac amser y cyfarfod a sut y gall aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol.

21 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a
- pha gamau gweithredu (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

22 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd lleol.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

Archwilio Cymru

Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Adroddiad manwl

## Ni sefydlodd y Cyngor drefniadau priodol i baratoi a chymeradwyo ei gyfrifon blynyddol a'i ddatganiad o reolaeth fewnol a'u cyflwyno i gael eu harchwilio fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth

### Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i gynghorau cymuned baratoi a chymeradwyo cyfrifon blynyddol a datganiad o reolaeth fewnol a rhaid iddo'u cyflwyno i'r Archwilydd Cyffredinol fel rhan o Ffurflen Flynyddol

23 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i'r Cyngor ymlynu wrthynt wrth baratoi a chymeradwyo'i gyfrifon a'u cyflwyno i gael eu harchwilio. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys:

- rhaid i Swyddog Cyllid Cyfrifol corff perthnasol, ar ôl paratoi cofnod o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor am y flwyddyn gyfrifyddu, lofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad arno, ac ardystio'i fod yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r corff hwnnw yn briodol am y flwyddyn y mae'r cofnod yn ymwneud â hi.
- erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn gyfrifyddu, rhaid i aelodau'r Cyngor, mewn cyfarfod llawn, ystyried a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer eu cyflwyno i'r archwilydd.
- rhaid i'r cyngor, fan bellaf erbyn 30 Medi yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, gyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu ynghyd ag unrhyw dystysgrif, barn, neu adroddiad a gyhoeddwyd, a roddwyd neu a wnaed gan yr archwilydd, neu os yw'n eu cyhoeddi cyn i'r archwiliad ddod i ben a bod dim barn o'r fath wedi cael ei rhoi, rhaid i'r Cyngor wneud hynny ynghyd â datganiad ac esboniad bod yr archwilydd, ar y dyddiad cyhoeddi, heb roi barn.

24 Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi ei ddatganiadau cyfrifyddu fel rhan o Ffurflen Flynyddol. Mae pedair adran i'r Ffurflen Flynyddol:

Adran 1: Y datganiadau cyfrifyddu sy'n nodi'r derbyniadau a thaliadau a datganiad o falansau ar gyfer y flwyddyn gyfrifyddu. Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ardystio bod 'y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 20[XX]'

Adran 2: Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn yr adran hon mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi cyflawni ei gyfrifoldeb am sicrhau ei fod wedi sefydlu system rheolaeth fewnol gadarn. Mae paratoi a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn galluogi'r Cyngor i ateb y gofyniad yn y Rheoliadau bod y Cyngor llawn neu un o bwyllgorau'r Cyngor yn 'cymeradwyo datganiad ar reolaeth fewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol'. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cofnodi ymatebion y Cyngor i 12 o gwestiynau sy'n

cadarnhau bod trefniadau rheolaethau mewnol wedi cael eu rhoi ar waith a'u bod yn gweithredu yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu (**gweler paragraffau 57 i 59**). Mae'n ofynnol i Gadeirydd y Cyngor ardystio bod y 'datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor o dan gyfeirnod cofnod [XX]'.

Adran 3: Yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol. Mae'r adran hon yn nodi casgliadau asesiad archwilydd mewnol cyngor pa un a gydymffurfiodd y Cyngor â gweithdrefnau a rheolaethau perthnasol yr oedd disgwyl iddynt fod yn weithredol yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu. Mae'r adroddiad yn cofnodi ymatebion yr archwilydd mewnol i 11 o gwestiynau ar reolaethau allweddol disgwyliedig megis trefniadau'r Cyngor ar gyfer cyllidebu, cyfrifyddu, cydymffurfio â rheoliadau ariannol a.y.b. (**gweler paragraffau 106 i 111**).

Adran 4: Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff yr adran hon ei chwblhau gan archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol pan fo'r archwiliad wedi'i gwblhau. Mae'n nodi a yw Ffurflen Flynyddol y Cyngor, yn ein barn ni, yn unol ag arferion priodol ac a oes materion wedi dod i'n sylw sy'n achosi pryder na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol.

## Cafodd cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor eu paratoi'n amhriodol gan yr Archwilydd Mewnol ar y pryd, gan beryglu ei allu i ddarparu sicrwydd annibynnol ar gyfer y Cyngor

25 Mae archwilio mewnol yn elfen bwysig o system rheolaeth fewnol y Cyngor, ac mae gwaith yr archwilydd mewnol yn darparu sicrwydd ar gyfer aelodau bod rheolaethau ariannol yn gweithredu'n effeithiol, a bod cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw trwy gydol y flwyddyn. Felly mae gwaith archwilio mewnol yn hollbwysig i oleuo penderfyniadau aelodau ynghylch cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol a'r datganiad llywodraethu blynyddol. Felly rhaid i'r archwilydd mewnol beidio â bod ag unrhyw rôl yn y broses o baratoi'r cyfrifon na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan bod cyflawni'r rolau hyn yn peryglu ei allu i ddarparu sicrwydd annibynnol. Wrth gwblhau'r adran Archwilio Mewnol o'r Ffurflen Flynyddol, mae'r archwilydd mewnol yn ardystio fel a ganlyn: 'Nid wyf fi wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon)'.

26 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 8 Mai 2019 yn datgan bod y Cyngor wedi pleidleisio ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19 ac wedi eu cymeradwyo ac '[roedd] paratoadau yn cael eu gwneud ar gyfer yr archwiliad mewnol'. Mae'r cofnodion hefyd yn cofnodi bod dau aelod o'r Cyngor wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cofnodion.

27 Dywedodd y Cadeirydd wrth fy archwilwyr mai taenlen ariannol a oedd yn cael ei chynnal gan Glerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor oedd yr wybodaeth a gyflwynwyd i gyfarfod y Cyngor ar 8 Mai 2019 i gael ei chymeradwyo. Felly ni chafodd cyfarfod y Cyngor gyfrifon y Cyngor ar y ffurf sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau, h.y. nid oedd y Cyngor wedi cwblhau'r Ffurflen Flynyddol erbyn y dyddiad hwnnw. Ni chwblhawyd y Ffurflen Flynyddol tan 25 Mai 2019, sy'n golygu na chafodd y cyfrifon a oedd yn ofynnol yn ôl y Rheoliadau eu cymeradwyo yn y cyfarfod ar 8 Mai 2019.

28 Dywedodd y Cadeirydd wrth fy archwilwyr, yn dilyn y cyfarfod ar 8 Mai 2019, fod cofnodion cyfrifyddu'r Cyngor wedi cael eu cyflwyno gan y Clerc blaenorol i Archwilydd Mewnol y Cyngor ar y pryd, Mr Phillip Woosnam. Roedd y Cadeirydd yn bresennol yn y cyfarfod.

29 Pan wnaeth y Clerc blaenorol gyflwyno'r cofnodion cyfrifyddu i Mr Woosnam, fe wnaeth hefyd ddarparu Ffurflen Flynyddol y Cyngor ar gyfer 2018-19 heb ei chwblhau ar ei gyfer gyda'r disgwyliad y byddai'n cwblhau'r adrannau cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol o'r ffurflen, yn ogystal â'r adran archwilio mewnol. Fe gwblhaodd Mr Woosnam bob un o'r adrannau hyn. Ysgrifennodd y Cadeirydd at fy archwilwyr ar 21 Awst 2019 yn datgan ei fod ef a'r Clerc 'trwy gamgymeriad fel y gwyddom bellach....wedi gadael i [Mr Woosnam] lenwi'r ffurflen'. Fe gwblhaodd Mr Woosnam yr adrannau cyfrifon, Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac archwilio mewnol o'r Ffurflen Flynyddol ac fe ardystiodd yn yr adran archwilio mewnol nad oedd 'wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon)' er mai ef yn bersonol a gynhyrchodd y cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

30 Rwy'n ystyried na ddylai Cadeirydd na Chlerc y Cyngor fod wedi gofyn na chaniatáu i Mr Woosnam gwblhau adrannau cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar y Ffurflen Flynyddol. Er fy mod yn deall nad oedd Clerc blaenorol y Cyngor yn dymuno paratoi'r dogfennau hyn ei hun am nad oedd wedi bod yn y swydd am y cyfnod yr oedd y cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ymwneud ag ef, yn ei chapasiti fel Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor dylai fod wedi hysbysu'r Cyngor nad oedd yn dderbyniol i Archwilydd Mewnol y Cyngor ar y pryd baratoi'r cyfrifon na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

31 Ar 14 Rhagfyr 2020 ac eto ar 8 Ebrill 2021, fe ysgrifennodd y Cadeirydd at fy archwilwyr gan ddatgan na fu'n rhan o gyflwyno cofnodion cyfrifyddu'r Cyngor a'r Ffurflen Flynyddol wag i Archwilydd Mewnol y Cyngor, ac mai'r Clerc yn unig oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r Ffurflen Flynyddol heb ei chwblhau i'r Archwilydd Mewnol. Ni waeth pa un a wnaeth y Cadeirydd yn bersonol roi'r Ffurflen Flynyddol heb ei chwblhau i'r Archwilydd Mewnol, mae wedi cydnabod yn ei ohebiaeth a anfonwyd ar 8 Ebrill 2021 ei fod yn bresennol yn y cyfarfod gyda'r Archwilydd Mewnol a'i fod yn ymwybodol bod y Clerc wedi rhoi'r Ffurflen Flynyddol i'r Archwilydd Mewnol i'w chwblhau. Rwyf felly'n ystyried bod y Cadeirydd a'r Clerc ill dau ar fai yn y mater hwn.

32 Rwy'n ystyried bod rôl Mr Woosnam yn y broses o gynhyrchu cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor wedi creu perygl sylfaenol i'w allu i ddarparu sicrwydd ar gyfer y Cyngor. Fel a nodir ym **mharagraffau 60 i 65** roedd y cyfrifon a gynhyrchwyd gan Mr Woosnam wedi'u cam-ddatgan. Ar ben hynny, canfu fy archwiliad fod llawer o'r rheolaethau mewnol y dywedodd Mr Woosnam yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol eu bod yn eu lle ac yn gweithredu'n effeithiol naill ai ddim yn eu lle neu ddim yn gweithredu'n effeithiol fel a nodir ym **mharagraffau 57 i 59**.

## Ni chafodd cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19 eu cymeradwyo'n gyfreithlon erbyn 30 Mehefin 2019 fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth

33 Mae'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth bod Cynghorau Cymuned yn cymeradwyo'u cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn gyfrifyddu a ddaeth i ben ar 31 Mawrth erbyn 30 Mehefin yr un flwyddyn. Yng nghofnodion cyfarfod y Cyngor ar 28 Mai 2019 nodir fel a ganlyn: 'mae'r cyfrifon wedi cael eu dychwelyd gan yr archwilydd mewnol a chafodd ei adroddiad ei basio o gwmpas yr holl gynghorwyr. Fe wnaeth yr holl gynghorwyr gymeradwyo'r adroddiad heb unrhyw sylwadau. Wedyn dosbarthwyd y Datganiad Llywodraethu i'r cynghorwyr (os [oes angen] copi ar Gynghorwyr anfonwch neges e-bost [at y Clerc]. Gofynnodd un cynghorydd fod copi'n cael ei anfon ati. Fe wnaeth yr holl gynghorwyr gymeradwyo'r cyfrifon a byddant yn cael eu hanfon at yr Archwilwyr Allanol'.

34 Mae'r cofnodion yn nodi bod yr holl aelodau wedi cymeradwyo'r cyfrifon ac yn nodi bod tair dogfen ar wahân wedi cael eu darparu ar gyfer aelodau:

- cyfrifon
- datganiad llywodraethu
- adroddiad archwilio mewnol

35 Mae pob un o'r uchod yn rhan o'r Ffurflen Flynyddol. Felly byddwn wedi disgwyl i'r aelodau fod wedi cael un ddogfen, h.y. y Ffurflen Flynyddol, nid tair dogfen ar wahân. Felly ni allaf fod yn sicr bod y cyfrifon a gafodd eu 'cymeradwyo gan yr holl aelodau' yn y cyfarfod ar 28 Mai 2019 ar y ffurf sy'n ofynnol yn ôl arferion priodol.

36 Ar wahân i'r ansicrwydd hwn, ni allai'r aelodau fod wedi cymeradwyo cyfrifon blynyddol y Cyngor yn gyfreithlon yn y cyfarfod ar 28 Mai 2019 am y rhesymau canlynol:

- dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) mae'n ofynnol bod gŵys yn cael ei hanfon at aelodau o leiaf 3 diwrnod clir cyn cyfarfod a honno'n manylu ar y busnes a fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod. Nid oedd yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 28 Mai 2019 yn nodi y byddai gofyn i'r aelodau ystyried a phleidleisio ar gymeradwyo cyfrifon blynyddol 2018-19. Felly nid oedd y Cyngor yn gallu cymeradwyo'r cyfrifon yn gyfreithlon yn y cyfarfod ar 28 Mai 2019. Mae rheolau'r Cyngor ei hun, ei Reolau Sefydlog, yn nodi, heblaw am benderfyniadau gweithdrefnol a nodir yn y Rheolau Sefydlog (nad yw'n berthnasol yn yr achos hwn),'ni ellir cyflwyno unrhyw gynnig gerbron mewn cyfarfod oni bai ei fod wedi'i gynnwys yn yr agenda'.
- mae Deddf 1972 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelodau gael yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â busnes a fydd yn cael ei drafod o leiaf 3 diwrnod clir cyn cyfarfod. Ni allai aelodau'r Cyngor fod wedi cael copi o gyfrifon y Cyngor ar y ffurf a ragnodir gan arferion priodol cyn 28 Mai 2019. Mae'r cofnodion yn nodi bod y cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cylchredeg yn y cyfarfod ei hun.

37 Rwyf felly'n ystyried bod y Cyngor wedi methu â chymeradwyo'i gyfrifon blynyddol ar gyfer 2018-19 yn gyfreithlon erbyn 30 Mehefin 2019.

## Methodd y Cyngor â chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol i adolygu ac ystyried effeithiolrwydd ei system o reolaeth fewnol a chymeradwyo datganiad o reolaeth fewnol/Datganiad Llywodraethu Blynyddol

38 Mae'r Rheoliadau'n nodi bod rhaid i gyngor cymuned sicrhau bod ganddo system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso proses effeithiol i gyflawni ei swyddogaethau gan gynnwys trefniadau ar gyfer:

- rheoli risg; a
- rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

39 Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn o effeithiolrwydd ei system o reolaeth fewnol ac i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu hystyried gan aelodau'r Cyngor mewn cyfarfod llawn.

40 Ar ôl cynnal yr adolygiad, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad ar reolaeth fewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol. Mae arferion priodol yn nodi y dylai'r datganiad gofynnol ar reolaeth fewnol fod ar ffurf Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys templed ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gwblhau a'i gymeradwyo.

41 Methodd y Cyngor â chydymffurfio â'r gofynion uchod. Ni chynhaliodd y Cyngor ei adolygiad ei hun o effeithiolrwydd ei system o reolaeth fewnol. Yn fy marn i, dylai'r adolygiad hwn fod wedi cael ei gynnal gan Glerc blaenorol y Cyngor. Cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor a gyflwynwyd i'm harchwilwyr i ei gwblhau gan Archwilydd Mewnol y Cyngor, Mr Woosnam (**paragraffau 19 i 25**). Ni chafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a baratowyd gan Mr Woosnam ei gymeradwyo gan y Cyngor mewn cyfarfod fel a nodir ym **mharagraffau 37 i 47**).

## Er gwaethaf y ffaith nad oedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, fe ardystiodd y Cadeirydd fod y Cyngor wedi cymeradwyo ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2018-19

42 Ar 28 Mai 2019 fe ardystiodd y Cadeirydd y Ffurflen Flynyddol gan ddatgan 'Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor o dan gyfeirnod cofnod:'. Ni chafodd y cyfeirnod cofnod perthnasol ei gofnodi ar y Ffurflen Flynyddol.

43 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Mai 2019 yn nodi 'Wedyn dosbarthwyd y Datganiad Llywodraethu i'r cynghorwyr (os [oes angen] copi ar Gynghorwyr anfonwch neges e-bost [at y Clerc]. Gofynnodd un cynghorydd fod copi'n cael ei anfon ati.'.

44 Mae'r Cadeirydd a'r Clerc blaenorol yn haeru bod aelodau'r Cyngor wedi cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn y cyfarfod ar 28 Mai 2019 er nad yw hyn wedi'i gofnodi yn y cofnodion. Mae fy nhîm archwilio wedi siarad gyda dau gynghorydd arall a oedd yn

bresennol yn y cyfarfod ar 28 Mai 2019 a ddywedodd na chawsant gyfle i gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

45 Nid wyf yn derbyn haeriadau'r Cadeirydd a'r Clerc blaenorol bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei gymeradwyo ond bod y penderfyniad heb gael ei gofnodi. Mae'r eglurhad hwn yn anghyson â gohebiaeth ynghylch y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a ddigwyddodd yn fuan ar ôl y cyfarfod ar 28 Mai 2019.

46 Ar 29 Mai 2019, gofynnodd un cynghorydd trwy'r e-bost i'r Clerc blaenorol ddarparu copi ar ei gyfer o'r 'Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2018-19 (yr wyf yn gwerthfawrogi nad yw ond wedi'i chwblhau'n rhannol hyd yma)'. Mae'n amlwg o'r cais hwn bod y cynghorydd yn credu nad oedd y Ffurflen Flynyddol wedi cael ei chwblhau'n llawn eto, ac felly nad oedd wedi cael ei chymeradwyo.

47 Fe wnaeth y Clerc wrthod y cais gan ddatgan, 'bydd y Ffurflen Flynyddol yn cael ei rhoi i'r holl Gynghorwyr unwaith y bydd wedi dychwelyd oddi wrth yr archwilwyr allanol ar ôl cwblhau'r archwiliad <u>a chyn bod y cyngor yn cwrdd i'w chymeradwyo</u> [fy mhwyslais i]'. Ymddengys fod y Clerc dan gamargraff fod angen i Ffurflen Flynyddol y Cyngor a oedd yn cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor gael ei chymeradwyo gan y Cyngor ar ôl cwblhau'r broses archwilio. Roedd hyn yn anghywir gan ei bod yn ofynnol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chyfrifon y Cyngor gael eu cymeradwyo gan y Cyngor cyn eu cyflwyno i gael eu harchwilio.

48 Rwyf hefyd yn bryderus bod y Clerc blaenorol wedi gwrthod cais y cynghorydd am gopi o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Fel aelod o'r Cyngor, roedd gan y cynghorydd hawl ddilys i gael mynediad at yr wybodaeth y gofynnwyd amdani, ac nid oedd gan y Clerc sail ddilys i wrthod y cais.

49 Ar 9 Mehefin 2019, yn dilyn cais gan gynghorydd am 'gopi o'r datganiad llywodraethu heb ei lofnodi a basiwyd o basiwyd o gwmpas yn y cyfarfod [ar 28 Mai 2019]', fe wnaeth y Cadeirydd wrthod y cais ar y sail y 'bydd y datganiad ariannol a llywodraethu a archwilir yn allanol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl Gynghorwyr pan gaiff ei ddychwelyd gan yr archwilydd allanol ar ôl i'r archwiliad gael ei gwblhau a **chyn bod y cyngor yn cwrdd i'w gymeradwyo** [fy mhwyslais i]'. Ymddengys fod y Cadeirydd yntau dan gamargraff bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i fod i gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar ôl i'm harchwiliad i gael ei gwblhau.

50 Mae'r datganiad a wnaed gan y Cadeirydd yn dynodi ei fod yn ymwybodol nad oedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Mai 2019. Rwyf hefyd yn bryderus bod y Cadeirydd wedi gwrthod cais y cynghorydd am gopi o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Nid oedd gan y Cadeirydd unrhyw sail ddilys i wrthod y cais.

51 Ar wahân i'r uchod, am yr un rhesymau ag a nodir ym **mharagraff 30**, ni allai'r Cyngor fod wedi ystyried a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyfreithlon yn ei gyfarfod ar 28 Mai 2019.

52 Rwyf wedi fy argyhoeddi na chafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei gymeradwyo gan y Cyngor mewn cyfarfod ar 28 Mai 2019, ac na allai fod wedi cael ei gymeradwyo'n gyfreithlon ychwaith. Rwyf felly'n ystyried bod y Cadeirydd wedi ardystio'n anghywir bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Rwy'n ystyried bod ymddygiad y Cadeirydd yn y mater hwn wedi methu â chyrraedd y safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl.

## Cafodd cyfrifon y Cyngor eu diwygio wedi iddynt gael eu hystyried gan aelodau, ac fe ardystiodd Cadeirydd y Cyngor yn anghywir fod y cyfrifon diwygiedig wedi cael eu cymeradwyo

53 Ar 24 Mehefin 2019, cafodd fy archwilwyr gopi o Ffurflen Flynyddol y Cyngor a oedd wedi'i hardystio gan y Cadeirydd a'r Clerc blaenorol. Nododd fy archwilwyr fod y datganiadau cyfrifyddu wedi cael eu diwygio gan ddefnyddio hylif cywiro. Roedd y llythrennau DJ ar bwys rhai o'r newidiadau a'r llythrennau DWJ ar bwys rhai eraill sy'n awgrymu bod y newidiadau wedi cael eu cymeradwyo gan y Cynghorydd Donald Jenkins.

54 Cododd fy archwilwyr y mater hwn gyda'r Cadeirydd am bod rhaid i'r cyfrifon a gyflwynir ar gyfer archwiliad allanol gael eu cymeradwyo gan yr aelodau. Os gwneir newidiadau i'r cyfrifon ar ôl cymeradwyo'r cyfrifon rhaid eu cyflwyno i un o gyfarfodydd y Cyngor i gael eu cymeradwyo drachefn.

55 Ar 21 Awst 2019, fe ysgrifennodd y Cadeirydd at fy archwilwyr gan ddweud ei fod 'wedi cynnal gwiriad terfynol o'r [Ffurflen Flynyddol] cyn cyflwyno'r ffurflen i'r [Archwilydd Allanol] felly cafodd y newidiadau eu gwneud ar ôl i'r cyngor gymeradwyo'r ffurflen ond oherwydd y terfyn amser ar gyfer y ffurflen ni fyddai digon o amser wedi bod i'w gyflwyno i'r cyngor drachefn; erbyn meddwl efallai y byddai wedi bod yn fwy priodol ei hanfon heb ei newid gydag esboniad ynghylch yr anghysonderau'.

56 Ar ben hynny, ym mis Rhagfyr 2019, cyflwynodd y Cadeirydd ddatganiad wedi'i lofnodi i un o gyfarfodydd y Cyngor ac ynddo roedd yn dweud, 'cafodd y ffurflen [ffurflen flynyddol 2018-19] ei haddasu i ddangos y ffigyrau cywir ar y ffurflen cyn ei hanfon at yr Archwilwyr, a chafodd yr archwilwyr eu hysbysu ynghylch y rheswm pam. Ni chafodd y ffurflen ei hanfon yn ôl at y cyngor cyn ei hanfon at yr archwilydd, felly nid yw'r newidiadau wedi cael eu cymeradwyo gan y cyngor. Deilliodd y cyfrifon wedi'u camddatgan o fod â chlerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol newydd a dibrofiad â diffyg gwybodaeth a phrofiad... Fe wnaeth y Clerc adael y cyngor ym mis Ionawr 2019'.

57 Roedd y datganiad a wnaed gan y Cadeirydd yn anghywir, yn yr ystyr:

- nid oedd y cyfrifon wedi cael eu haddasu 'i ddangos y ffigyrau cywir'. Yn wir, roedd y cyfrifon yn dal wedi'u camddatgan (**paragraffau 60 i 65**).
- ni chwaraeodd y Clerc y cyfeiriodd y Cadeirydd ato ym **mharagraff 50** unrhyw ran yn y broses o gwblhau Ffurflen Flynyddol y Cyngor ar gyfer 2018-19. Fel a nodir ym **mharagraffau 18 i 24**, cafodd y Ffurflen Flynyddol ei chwblhau gan Archwilydd Mewnol y Cyngor, yn seiliedig ar gofnodion cyfrifyddu a ddarparwyd ar ei gyfer gan y Clerc newydd, Ms Katrina West, a benodwyd ym mis Mawrth 2018.

58 Ar wahân i'r anghywirdebau yn natganiad y Cadeirydd, rwy'n nodi iddo dderbyn ym mis Rhagfyr 2019, fel a nodir ym **mharagraff 50**, fod y Ffurflen Flynyddol ddiwygiedig y Cyngor ar gyfer 2018-19 wedi cael ei chyflwyno i'w harchwilio heb gymeradwyaeth y Cyngor.

59 Ar 14 Rhagfyr 2020, fe ysgrifennodd y Cadeirydd at fy archwilwyr yn gwrthddweud ei ddatganiadau ysgrifenedig blaenorol, gan ddweud: 'Rwy'n credu bod y cyfrifon diwygiedig

wedi cael eu cyflwyno i'r cyngor ar 20 Mehefin [2019] a bod y Cyngor wedi'u cymeradwyo cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol'.

60 Rwy'n ystyried bod esboniadau'r Cadeirydd yn annhebygol ac yn anghyson â'i sylwadau blaenorol. Rwy'n ystyried bod y dystiolaeth na chafodd y cyfrifon eu cymeradwyo drachefn yng nghyfarfod y Cyngor ar 20 Mehefin 2019 yn ddiwrthdro. Nid yw cofnodion y cyfarfod hwnnw ar 20 Mehefin 2019 yn ategu sylwadau'r Cynghorydd Jenkins yn ei ohebiaeth dyddiedig 14 Rhagfyr 2020.

61 Rwyf wedi fy argyhoeddi bod y Cadeirydd yn ymwybodol o'r newidiadau i'r cyfrifon a'i fod wedi cytuno bod y cyfrifon diwygiedig yn cael eu cyflwyno i gael eu harchwilio heb geisio cymeradwyaeth drachefn gan y Cyngor. Nid oedd y cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio yr un fath â'r cyfrifon a ystyriwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Mai 2019 (ar wahân i'r faith, fel a nodir ym **mharagraff 30**, nad oedd y Cyngor yn gallu cymeradwyo'i gyfrifon yn gyfreithlon yn y cyfarfod hwnnw beth bynnag).

62 A hwythau wedi diwygio'r cyfrifon, dylai'r Cadeirydd a'r Clerc blaenorol fod wedi cyflwyno'r cyfrifon diwygiedig i un o gyfarfodydd y Cyngor i gael eu cymeradwyo cyn eu cyflwyno i'w harchwilio. Fe fethon nhw â gwneud hynny, ac fe ardystiodd y Cadeirydd yn anghywir 'fod y datganiadau cyfrifyddu hyn ... wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor' pan nad oeddent wedi eu cymeradwyo mewn gwirionedd. Fe wnaeth yr ardystiad gamarwain fy archwilwyr i feddwl mai'r cyfrifon a gymeradwywyd gan y Cyngor oedd y rhai a gyflwynwyd i'w harchwilio. Rwy'n ystyried bod ymddygiad y Cadeirydd a'r Clerc blaenorol yn y mater hwn wedi methu â chyrraedd y safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Rwyf hefyd yn siomedig bod Cadeirydd y Cyngor wedi ceisio camarwain fy archwilwyr ymhellach yn y dystiolaeth y mae wedi'i chyflwyno ar gyfer sylw archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

# Roedd system rheolaeth fewnol y Cyngor yn annigonol ac yn aneffeithiol

## Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn nodi bod y Cyngor wedi sefydlu system rheolaeth fewnol gadarn

63 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n rhan o Ffurflen Flynyddol y Cyngor yn cynnwys 12 o haeriadau yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor eu hystyried a'u hardystio yn cadarnhau bod gan y Cyngor system rheolaeth fewnol gadarn gan gynnwys trefniadau cadarn ar gyfer paratoi'r cyfrifon blynyddol. Mae'r haeriadau'n cynnwys cadarnhad bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer:

- paratoi a chymeradwyo'i ddatganiadau cyfrifyddu
- pennu a rheoli ei gyllideb yn briodol
- penodi person cymwys, sy'n annibynnol ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol y Cyngor, i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o gofnodion cyfrifyddu a systemau rheoli'r Cyngor trwy gydol y flwyddyn
- sicrhau y cydymffurfir â deddfau a rheoliadau perthnasol

- sicrhau bod yr holl bobl â buddiant wedi cael y cyfle i archwilio cyfrifon y Cyngor
- mabwysiadu rheolau (rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol) sy'n amodi sut y byddai'n cynnal ei fusnes, ac ar gyfer sicrhau bod y Cyngor yn dilyn y rheolau hyn
- sicrhau bod holl bwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor wedi cael eu sefydlu'n briodol a bod cylch gorchwyl priodol wedi cael ei ddarparu ar gyfer y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau hyn a'r rheiny'n nodi eu cyfrifoldebau dirprwyedig.

64 Fel a nodir ym **mharagraffau 19 i 25**, cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei gwblhau ar gam gan Archwilydd Mewnol y Cyngor ar y pryd, Mr Woosnam, er bod y cyfrifoldeb am sicrhau bod gan y Cyngor system rheolaeth fewnol gadarn yn gorwedd gydag aelodau'r Cyngor.

65 Fe gwblhaodd Mr Woosnam y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cadarnhau bod trefniadau cadarn wedi cael eu sefydlu ym mhob un o'r 12 maes a nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Fodd bynnag, fel a nodir ym **mharagraffau 60 i 111**, canfu fy archwilwyr i fod llawer o'r haeriadau a wnaed yn anghywir.

## Methodd y Cyngor â chadw cyfrifon a chofnodion cyfrifyddu digonol na chywir

### Roedd y cyfrifon ar gyfer 2018-19 a gyflwynwyd gan y Cyngor i'w harchwilio wedi'u camddatgan ac wedi cael eu mantoli'n artiffisial

66 Mae'n agwedd bwysig ar atebolrwydd cyhoeddus, pan fo cynghorau'n cynhyrchu cyfrifon, eu bod yn gywir ac yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor a'i drafodion ariannol am y flwyddyn gyfrifyddu.

67 Fe wnaeth fy archwilwyr archwilio'r cyfrifon a gyflwynwyd a chanfod eu bod wedi eu camddatgan am y rhesymau canlynol:

- nid oedd y cyfrifon yn cynnwys yr holl drafodion a wnaed gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu.
- roedd y cyfrifon yn anghywir yn rhifyddol.
- roedd y cyfrifon yn cynnwys trosglwyddiadau mewnol rhwng cyfrifon banc y Cyngor a arweiniodd at orddatgan derbyniadau a thaliadau'n sylweddol.
- roedd y ffigyrau cymharol ar gyfer 2017-18 wedi eu camddatgan am bod y balans a'r trafodion ar gyfer un o gyfrifon banc y Cyngor heb eu cynnwys a hynny'n anghywir.
- cyflwynwyd y cyfrifon fel cyfrifon mantoledig ond roeddent wedi cael eu mantoli'n artiffisial. Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
  - roedd y balans banc agoriadol a ddatganwyd yn anghywir;
  - nid oedd yr holl dderbyniadau a thaliadau wedi'u cofnodi yn y cyfrifon; ac
  - roedd y cyfrifon yn anghywir yn rhifyddol.

68 Roedd y penderfyniad i fantoli'r cyfrifon yn artiffisial yn annerbyniol. Nid yw'n glir i mi a gafodd y penderfyniad hwn ei wneud gan y Cadeirydd a ddiwygiodd y cyfrifon ar ôl i'r Cyngor eu hawdurdodi, ynteu gan y Clerc blaenorol a ardystiodd fod 'y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor, ac yn cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021'. Roedd dyletswydd statudol ar y Clerc blaenorol, fel Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor, i sicrhau bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i weinyddu ei faterion ariannol.

69 Er nad yw'n anarferol i gyfrifon a gyflwynir i'w harchwilio gynnwys gwallau neu anghywirdebau, rwy'n ystyried bod y cyfrifon a gyflwynwyd gan y Cyngor i'w harchwilio o safon arbennig o wael.

## Methodd y Cyngor â chynnal cofnodion cyfrifyddu digonol na chywir

70 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn nodi bod rhaid i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol, ar ran y Cyngor, benderfynu ei gofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys ffurf y cyfrifon a'r cofnodion cyfrifyddu ategol, a'i systemau rheoli cyfrifyddu. Wedyn rhaid i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol sicrhau yr ymlynir wrth y systemau rheoli cyfrifyddu a bod cofnodion cyfrifyddu'r corff yn cael eu diweddaru a'u cynnal yn unol â gofynion unrhyw ddeddfiad ac arferion priodol. I wneud hyn, rhaid i'r cofnodion cyfrifyddu gynnwys cofnodion o ddydd i ddydd o bob swm o arian a dderbyniwyd ac a dalwyd gan y Cyngor a'r materion y mae'r derbyniadau a'r taliadau hynny'n ymwneud â hwy.

71 Yn fy marn i, ni wnaeth y Cyngor gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol na chywir am flwyddyn gyfrifyddu 2018-19. Yn ystod 2018-19, gweithredodd y Cadeirydd fel Swyddog Cyllid Cyfrifol. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi rhai enghreifftiau o'r modd yr oedd cofnodion cyfrifyddu'r Cyngor yn ddiffygiol.

**Arddangosyn 2: cynnal cofnodion cyfrifyddu**

Crynodeb o'r arddangosyn: Ni wnaeth y Cyngor gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol a/neu gywir.

| **Cofnodion Cyfrifyddu Disgwyliedig** | **Cofnodion cyfrifyddu a ganfu'r archwiliad yn y Cyngor** |
|---|---|
| Mae cysoniadau rhwng llyfr arian a chyfriflenni banc y Cyngor yn cael eu cynnal bob hyn a hyn ac ym mhob achos ar ddiwedd y flwyddyn i ganfod gwallau a hepgoriadau yn llyfr arian y Cyngor. Felly mae cynnal cysoniadau rhwng y llyfr arian a'r banc yn rheolaeth ariannol hanfodol sy'n angenrheidiol i sicrhau y rhoddwyd cyfrif am yr holl arian. | Cafodd cysoniad diwedd blwyddyn ei baratoi a'i lofnodi gan Glerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol, Cadeirydd ac Archwilydd Mewnol y Cyngor. Fodd bynnag, cafodd y llyfr arian ei gysoni'n artiffisial â chyfriflenni banc y Cyngor. Mae'r cysoniad wedi cael ei ffugio trwy ddefnyddio 'ffigyrau mantoli' ac roedd yn anghyson â chyfriflenni banc, llyfr arian a datganiadau ariannol y Cyngor. Ni wn i pa lofnodwyr ar y cysoniad banc oedd yn gyfrifol am ffugio'r cofnod cyfrifyddu hanfodol hwn. |
| Dylai'r Cyngor gadw cyfriflenni banc ar gyfer yr holl gyfrifon banc y mae'n eu gweithredu. Mae cyfriflenni banc yn gofnodion cyfrifyddu allweddol i ddangos pa arian mae'r Cyngor wedi'i gael a'i dalu. | Nid oedd y Cyngor yn gallu darparu nifer o gyfriflenni banc a oedd yn ofynnol ar gyfer yr archwiliad, gan gynnwys cyfriflenni banc ar gyfer y cyfnod oedd yn cwmpasu diwedd y flwyddyn gyfrifyddu ar 31 Mawrth 2019. |
| Dylai'r Cyngor gadw llyfr arian/cyfriflyfr ariannol cywir sy'n manylu ar yr holl drafodion yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu a'r hyn y mae'r trafodion hyn yn ymwneud ag ef, h.y. eu dosbarthiad. | Cadwodd y Cyngor lyfr arian ar gyfer 2018-19. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad archwilio fod nifer fach o drafodion a oedd yn cael eu dangos ar gyfriflenni banc y Cyngor heb gael eu cofnodi yn y llyfr arian. |
| Dylai'r Cyngor fod â threfniadau priodol i awdurdodi taliadau. Byddai hyn fel arfer yn cynnwys cofnod yng nghofnodion cyfarfodydd y Cyngor o'r taliadau y mae'r Cyngor wedi'u hawdurdodi. | Nid yw cofnodion y Cyngor yn cynnwys taliadau a wnaed a symiau'r taliadau hynny fel rhan o'r drefn reolaidd. Felly nid wyf wedi gallu cadarnhau a gafodd taliadau a wnaed gan y Cyngor eu cymeradwyo'n briodol. |

Ffynhonnell: Gwaith archwilio a wnaed gan archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol.

72 Rwyf felly'n ystyried na chadwodd y Cyngor gofnodion cyfrifyddu digonol a/neu gywir.

## Ni wnaeth y Cyngor gymeradwyo cyllidebau cyfreithlon na cheisiadau cyfreithlon am braeseptau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20 ac nid oedd trefniadau priodol ganddo i fonitro’r gyllideb

### Ni wnaeth y Cyngor gymeradwyo cyllideb gyfreithlon na chais cyfreithlon am braesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19, na sefydlu trefniadau priodol i fonitro’r gyllideb

73 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyfrifo a chymeradwyo gofyniad o ran y gyllideb flynyddol. Mae Adran 41 y Ddeddf hon yn caniatáu i gynghorau ddyroddi praesept, y caiff y sail ar ei gyfer ei phennu, yn unol ag Adran 50 y Ddeddf, trwy gyfrifo’r gofyniad o ran y gyllideb.

74 Bob blwyddyn, mae’r Cyngor yn dyroddi praesept i awdurdod bilio’r dreth gyngor, Cyngor Sir Powys.

75 Swm net yr eitemau hyn yw’r praesept a ddyroddir i awdurdod bilio’r dreth gyngor.

76 Mae’r gyllideb yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- mae’n arwain at bennu’r praesept am y flwyddyn;
- mae’n rhoi awdurdod i’r Cyngor wario arian yn unol â chynlluniau gwariant cymeradwy a rheoliadau ariannol; ac
- mae’n darparu sail i fonitro cynnydd yn ystod y flwyddyn trwy gymharu gwariant gwirioneddol â gwariant a gynlluniwyd.

77 Mae’r gyllideb yn elfen hollbwysig o reolaeth ac atebolrwydd ariannol effeithiol ac yn y pen draw mae’n lleihau’r amser y mae cynghorau’n ei dreulio’n rheoli eu hadnoddau ariannol. Yn niffyg trefniadau digonol i bennu a monitro’r gyllideb, nid yw cynghorau’n gallu rheoli arian cyhoeddus yn effeithiol a dangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol.

78 Yn ystod fy archwiliad, darparodd y Clerc blaenorol ddogfen ar gyfer y archwilwyr a oedd yn nodi cyllideb y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Rwy’n nodi nad oedd y Clerc yn ei swydd ar yr adeg y paratowyd y gyllideb ac felly nad oedd yn rhan o baratoi’r gyllideb. Mae’r ddogfen yn nodi mai £9,995 oedd gwariant disgwyliedig y Cyngor a oedd i’w ariannu trwy’r praesept.

79 Nid yw dogfen y gyllideb yn cynnwys yr holl wybodaeth sy’n ofynnol yn ôl Deddf 1992 i alluogi aelodau’r Cyngor i bennu cyllideb gyfreithlon a phennu ei ofyniad o ran y praesept.

**Arddangosyn 3: y gyllideb flynyddol**

Nid yw cyllideb y Cyngor ar gyfer 2018-19 yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Deddf 1992

| Gofynion Deddf 1992: Mae Deddf 1992 yn nodi bod rhaid i'r Cyngor gyfrifo'i ofyniad o ran y gyllideb trwy ystyried cyfanswm yr isod: | Nid yw cyllideb y Cyngor ar gyfer 2018-19 yn cynnwys |
|---|---|
| Y gwariant y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei ysgwyddo yn y flwyddyn wrth gyflawni ei swyddogaethau. | Holl wariant disgwyliedig y Cyngor yn 2018-19. Dim ond gwariant a oedd i'w ariannu trwy'r praesept a gynhwyswyd gan y Cyngor |
| Pa bynnag lwfans y mae'r Cyngor yn amcangyfrif fydd yn briodol ar gyfer hapddigwyddiadau mewn perthynas â gwariant. | Ystyriaeth i lwfansau ar gyfer hapddigwyddiadau |
| Y cronfeydd ariannol wrth gefn y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn briodol eu codi yn y flwyddyn i ariannu'r gwariant a amcangyfrifir ganddo yn y dyfodol neu i ariannu unrhyw ddiffyg sy'n codi mewn blwyddyn ariannol gynharach | Manylion cronfeydd ariannol wrth gefn y Cyngor ac i godi neu ostwng lefel y cronfeydd wrth gefn trwy gynyddu neu ostwng y cais am braesept |
| Y symiau y mae'n amcangyfrif y byddant yn daladwy i'r Cyngor am y flwyddyn, heblaw am y praesept. | Incwm y Cyngor o ffynonellau heblaw'r praesept. Cafodd y Cyngor gyllid sylweddol gan fferm wynt leol |
| Swm y cronfeydd ariannol wrth gefn y mae'r awdurdod yn amcangyfrif y bydd yn eu defnyddio er mwyn ariannu ei wariant. | Manylion cronfeydd ariannol wrth gefn y Cyngor ac i godi neu ostwng lefel y cronfeydd wrth gefn trwy gynyddu neu ostwng y cais am braesept |

80 Ar ben hynny, nid yw'r gyllideb yn nodi cynnig o ran swm y praesept a ddylai gael ei geisio gan Gyngor Sir Powys.

81 Nid yn unig mae diffyg manylder ym mhapur y gyllideb, mae hefyd bron heb unrhyw naratif o gwbl i egluro sut y cafwyd y ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb arfaethedig. Gan hynny

nid oedd y papur yn sail ddigonol i aelodau'r Cyngor ystyried y gyllideb a'r praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19.

82 Er gwaethaf y diffygion ym mhapur y gyllideb, nid yw agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn darparu unrhyw dystiolaeth bod aelodau'r Cyngor wedi cael copi o bapur y gyllideb.

83 Mae cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2017, yn nodi dan 'Adolygiad o'r Gyllideb Ragarweiniol/Praesept' bod y 'Cyngor wedi cytuno ar lefel y Praesept a bennwyd ar gyfer yr un nesaf [sic]'. Nid yw'n glir pa wybodaeth y gwnaeth aelodau'r Cyngor ei hystyried yn y cyfarfod. Nid yw'r cofnodion yn nodi bod yr aelodau wedi gweld papur y gyllideb na'u bod wedi cymeradwyo cyllideb. Er bod y cofnodion yn nodi bod y Cyngor wedi cytuno ar braesept, nid yw'r cofnodion yn nodi swm y praesept y cytunwyd arno. Ar ben hynny, gan mai 'Adolygiad o'r Gyllideb Ragarweiniol/Praesept' yw pennawd yr eitem yn y cofnodion, nid yw'n glir i mi mai'r bwriad oedd mai beth bynnag y 'cytunwyd' arno yn y cyfarfod ar 28 Tachwedd 2017 fyddai ystyriaeth olaf y Cyngor i'r gyllideb. Mae'r cofnodion yn awgrymu fel arall gan eu bod yn nodi 'Clerc i ymchwilio i'r grantiau a dalwyd i'r Neuadd gan nad yw'n glir pa gyllid a ddisgwylir y flwyddyn nesaf'.

84 Ar 18 Ionawr 2018, cyflwynodd Clerc blaenorol y Cyngor gais am braesept o £9,995 i Gyngor Sir Powys. Talwyd y praesept y gofynnwyd amdano i'r Cyngor mewn tri rhandaliad ym mlwyddyn gyfrifyddu 2018-19.

85 Mae'n nodwedd bwysig ar reolaeth ariannol dda ac atebolrwydd ariannol da bod Aelodau'r Cyngor, trwy gydol y flwyddyn, yn mynd ati ar y cyd i adolygu a monitro perfformiad yn erbyn y gyllideb a bennwyd. Nid wyf wedi canfod unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd yn ystod 2018-19 bod aelodau'r Cyngor wedi cael unrhyw wybodaeth am berfformiad yn erbyn y gyllideb i alluogi'r aelodau i fonitro'r gyllideb.

86 Er gwaethaf diffyg monitro'r gyllideb, rwy'n nodi bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer blwyddyn gyfrifyddu 2018-19 yn datgan bod y Cyngor wedi 'sefydlu trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn' a'i fod wedi pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol.

87 Rwy'n ystyried na wnaeth y Cyngor gymeradwyo cyllideb gyfreithlon na chais cyfreithlon am braesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 na sefydlu trefniadau priodol ar gyfer monitro'r gyllideb.

## Ni wnaeth y Cyngor gymeradwyo cyllideb gyfreithlon na chais cyfreithlon am braesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20, na sefydlu trefniadau priodol i fonitro'r gyllideb

88 Mae'r agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 18 Rhagfyr 2018 yn cynnwys eitem 'adolygiad o'r gyllideb ragarweiniol/praesept'. Y gyllideb a'r praesept ar gyfer blwyddyn gyfrifyddu 2019-20 oedd y gyllideb a'r praesept a oedd i fod i gael eu hystyried. Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi 'cafodd y gyllideb ei dosbarthu i'r Cynghorwyr a'i chymeradwyo, bydd [y Clerc] yn ei chyflwyno i [Gyngor Sir Powys]'.

89 Nid yw'r Cyngor wedi darparu copi ar fy nghyfer o ddogfen y gyllideb y cyfeirir ati yng nghofnodion y cyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018. Felly nid wyf wedi gallu fy argyhoeddi fy hun bod y

gyllideb yn cynnwys yr holl eitemau sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth i'r Cyngor gyflwyno cais cyfreithlon am braesept i Gyngor Sir Powys (**gweler paragraff 71**).

90 Ar wahân i ddiffyg tystiolaeth pa un a oedd y 'gyllideb' yn cynnwys yr holl eitemau gofynnol, roedd yn ofynnol cyflwyno unrhyw ddogfennau mewn perthynas â'r busnes a oedd yn mynd i gael ei drafod yn y cyfarfod i'r Aelodau a'u cyhoeddi o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod. Mae'r cofnodion yn nodi bod 'y gyllideb' wedi cael ei dosbarthu yn ystod y cyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018. Gan hynny, ni allai'r gyllideb a'r praesept gael eu hystyried a'u cymeradwyo'n gyfreithlon yn y cyfarfod hwn. Rwyf felly'n ystyried bod y Cyngor wedi pennu cyllideb anghyfreithlon ar gyfer 2019-20.

91 Nid yw'r cofnodion yn nodi beth wnaeth yr Aelodau ei ystyried dan yr eitem 'adolygiad o'r gyllideb ragarweiniol/praesept' ar yr agenda, pa un a wnaed unrhyw newidiadau i'r gyllideb a ddosbarthwyd gan y Clerc blaenorol na symiau'r gyllideb a'r praesept a gymeradwywyd gan y Cyngor.

92 Ar 18 Rhagfyr 2018, fe gyflwynodd Clerc blaenorol y Cyngor gais am braesept i Gyngor Sir Powys yn gofyn am £10,670 ar gyfer 2019-20, yn seiliedig ar wariant amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn honno o £10,670. Nid yw'n glir i mi sut y pennwyd y ffigyrau hyn.

93 Mae'n nodwedd bwysig ar reolaeth ariannol dda ac atebolrwydd ariannol da bod aelodau'r Cyngor, trwy gydol y flwyddyn, yn mynd ati ar y cyd i adolygu a monitro perfformiad yn erbyn y gyllideb a bennwyd. Nid wyf wedi canfod unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd y Cyngor bod aelodau'r Cyngor wedi cael unrhyw wybodaeth am berfformiad yn erbyn y gyllideb i alluogi'r aelodau i fonitro'r gyllideb. Mae'n fy mhryderu, pan wnaeth un aelod o'r Cyngor, ym mis Mehefin 2019, gais rhesymol am ddadansoddiad o wariant y Cyngor, bod y Cadeirydd wedi ymateb trwy ddweud 'mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi'i phennu ac yn weithredol, felly ni fydd yn cael ei chynnwys yn yr agenda; fodd bynnag, os oes gennych gwestiwn yr hoffech ateb iddo, rhowch wybod i [y Clerc] os gwelwch yn dda ac fe wnawn ni ein gorau i'w ateg. Byddwn yn trafod y gyllideb ar gyfer 2020-21 yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

94 Rwy'n ystyried na wnaeth y Cyngor gymeradwyo cyllideb gyfreithlon na chais cyfreithlon am braesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 na sefydlu trefniadau priodol i fonitro'r gyllideb.

## Mabwysiadodd y Cyngor reolau (rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol) a oedd yn nodi sut y byddai'n cynnal ei fusnes, ond roedd y rheolau hyn yn annigonol ac nid oeddent wastad yn cael eu dilyn gan y Cyngor

### Dylai cynghorau cymuned fabwysiadu rheolau (rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol) gan eu bod yn elfen allweddol o system rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol

95 Mae'n bwysig bod gan gynghorau cymuned reolau ar gyfer y ffordd y byddant yn cynnal busnes. Cyfeirir yn aml at y rheolau hyn fel:

- rheolau sefydlog sy'n llywodraethu'r ffordd y bydd y cyngor yn gweithredu, e.e. sut y bydd cyfarfodydd y cyngor yn cael eu cynnal, sefydlu a gweithrediad pwyllgorau ac is-bwyllgorau, mynediad i gyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd, gofynion cod ymddygiad, rheolau sy'n ymwneud â buddiannau'r aelodau a.y.b.
- rheoliadau ariannol sy'n llywodraethu'r ffordd y mae'r cyngor yn rheoli ei faterion ariannol. e.e. trefniadau dirprwyo ariannol, trefniadau bancio derbyniadau, cyfrifyddu ac archwilio, y gyflogres a.y.b.

96 Ac eithrio'r gofyniad a nodir yn Neddf 1972 i'r Cyngor fod â rheolau sefydlog mewn perthynas â chontractau i gyflenwi nwyddau a deunyddiau ar gyfer cyflawni gwaith, nid oes gofyniad deddfwriaethol uniongyrchol i gynghorau cymuned fabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth bod cynghorau cymuned yn cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol. Rwy'n ystyried bod mabwysiadu rheolau ynghylch sut y byddant yn rheoli eu materion yn elfen hanfodol o fod â system rheolaeth fewnol ddigonol.

97 Mae Un Llais Cymru, sefydliad aelodaeth ar gyfer cynghorau cymuned a thref, wedi darparu mynediad i'w aelodau at reolau sefydlog a rheoliadau ariannol enghreifftiol cynhwysfawr.

## Mae rheolau sefydlog y Cyngor a fabwysiadwyd yn 2016 yn annigonol mewn sawl ffordd allweddol

98 Ar ddechrau fy archwiliad, gofynnodd fy archwilwyr i'r Clerc blaenorol ddarparu copi o reolau sefydlog a rheoliadau ariannol y Cyngor. Darparodd ddogfen rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol gan daeru mae'r rhain oedd y rheolau sefydlog a'r rheoliadau ariannol a oedd mewn grym yn ystod 2018-19. Roedd y dogfennau hyn o safon wael iawn ac nid oeddent yn gyson â gofynion deddfwriaethol. Yn ddiweddarach, cafodd fy archwilwyr eu hysbysu nad y rheolau sefydlog a ddarparwyd gan y Clerc oedd y rheolau sefydlog a'r rheoliadau ariannol a oedd mewn grym yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19 mewn gwirionedd. Mae'n achos pryder ei bod hi'n ymddangos nad oedd Clerc y Cyngor yn ymwybodol pa fersiwn o'r rheolau sefydlog a'r rheoliadau ariannol oedd mewn grym.

99 Mae'r Cyngor bellach wedi darparu'r fersiwn gywir o'r rheolau sefydlog a'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2016 ar gyfer fy archwilwyr. Mae'r dogfennau hyn yn fwy cynhwysfawr na'r fersiynau a ddarparwyd yn wreiddiol gan y Clerc. Fodd bynnag, maent ymhell o fod o'r un safon â'r rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol enghreifftiol sydd ar gael gan Un Llais Cymru ac maent yn ddiffygiol mewn sawl maes allweddol megis:

- roedd y rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chaffael nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau a chyflawni gwaith yn annigonol ac yn ddryslyd fel a nodir ym **mharagraffau 183 i 186**).
- nid yw'r rheolau sefydlog yn llwyr gwmpasu'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer cadw cofnodion.
- nid yw'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â buddiannau'r aelodau'n cydymffurfio'n llawn â gofynion deddfwriaethol.
- nid yw'r rheolau sefydlog yn nodi gweithdrefnau ar gyfer sefydlu a gweithredu pwyllgorau ac is-bwyllgorau.

- nid yw'r rheolau sefydlog yn nodi gofynion deddfwriaethol allweddol ar gyfer dyroddi a chyhoeddi agendâu cyfarfodydd.

## Nid oedd gan y Cyngor reoliadau ariannol yn 2018-19 a oedd yn llywodraethu rheolaeth ariannol gan y Cyngor

100 Er fy mod wedi fy argyhoeddi bod y Cyngor wedi mabwysiadu rheolau sefydlog yn 2016, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod gan y Cyngor reoliadau ariannol yn ystod 2018-19. Mae hyn yn wendid sylweddol mewn trefniadau llywodraethu. Rwy'n nodi bod y Cyngor yn ddiweddar wedi cyhoeddi rheoliadau ariannol wedi'u diweddaru ar ei wefan. Er bod y rheoliadau ariannol i'w gweld fel pa baent yn seiliedig yn fras ar y rheoliadau ariannol enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru, maent yn wahanol i fodel Un Llais Cymru, ac maent yn ddiffygiol, yn enwedig mewn perthynas â gofynion contractio a chaffael.

## Nid oedd y Cyngor wastad yn cydymffurfio â'i reolau sefydlog ei hun

101 Mae fy archwilwyr wedi canfod bod y Cyngor, ar sawl achlysur, heb gydymffurfio â'r rheolau sefydlog a oedd mewn grym yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19. Nid wyf wedi canfod unrhyw reswm da pam fod y Cyngor wedi gwyro oddi wrth ei reolau sefydlog. Mae enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio'n cynnwys:

- mae rheolau sefydlog y Cyngor yn datgan, ac eithrio penderfyniadau gweithdrefnol a nodir yn y Rheolau Sefydlog, 'ni ellir cyflwyno unrhyw gynnig gerbron mewn cyfarfod oni bai ei fod wedi'i gynnwys yn yr agenda'. Canfu fy archwilwyr fod penderfyniadau anweithdrefnol pwysig wedi cael eu cyflwyno gerbron y Cyngor er nad oedd y busnes yr oedd yn ymwneud ag ef wedi'i gynnwys ar yr agenda. Er enghraifft:
  - mae cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 28 Mai 2019 yn nodi bod aelodau wedi cymeradwyo cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19. Er nad yw hynny wedi'i nodi yn y cofnodion, roedd yn ofynnol gwneud penderfyniad i gymeradwyo'r cyfrifon. Mae'r agenda ar gyfer y cyfarfod ar 28 Mai 2019 yn nodi, 'Archwiliad Mewnol, Mae'r Clerc wedi rhoi cyfrifon i Phil Woosnam i fwrw ymlaen â'r Archwiliad Mewnol'. Nid oes unrhyw arwydd ar yr agenda y byddai'n ofynnol i'r aelodau gymeradwyo'r cyfrifon yn y cyfarfod ar 28 Mai 2019. Felly roedd y penderfyniad y gofynnwyd i'r aelodau ei wneud ar 28 Mai 2019 yn groes i reolau sefydlog y Cyngor.
  - yng nghyfarfod y Cyngor dyddiedig 29 Ionawr 2019, pleidleisiodd yr aelodau i gyfethol aelodau i'r Cyngor. Er nad yw hyn wedi'i nodi yng nghofnodion y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019, cyfeirir ato yng nghofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2019. Mae'r agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019 (mae'r agenda'n nodi'n anghywir bod y cyfarfod yn mynd i gael ei gynnal ar 28 Ionawr 2019) yn nodi 'cyfethol, cyfweliadau yn yr arfaeth ar gyfer 26 Ionawr 2019. Mae'r holl gyfweliadau wedi cael eu derbyn'. Nid oes arwydd ar yr agenda y byddai gofyn i'r aelodau bleidleisio ar gyfethol aelodau newydd yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019. Felly roedd y penderfyniad y gofynnwyd i'r aelodau ei wneud ar 29 Ionawr 2019 yn groes i reolau sefydlog y Cyngor.

- mae rheolau sefydlog y Cyngor yn nodi ‘ni ddylai unrhyw drafodaeth am gofnodion drafft cyfarfod blaenorol ddigwydd ac eithrio mewn perthynas â’u cywirdeb. Dylai cofnodion, gan gynnwys unrhyw newid i gywiro’u cywirdeb, gael eu cadarnhau trwy benderfyniad a dylent gael eu llofnodi gan Gadeirydd y cyfarfod a sefyll fel cofnod cywir o’r cyfarfod y maent yn ymwneud ag ef’. Mae cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019 yn nodi na wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019. Ar 15 Chwefror 2019 cynhaliodd y Cyngor gyfarfod pellach a gofynnwyd i’r aelodau gymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019. Mae cofnodion cyfarfod 25 Chwefror 2019 yn nodi ‘bydd y Clerc yn diwygio cofnodion cyfarfod mis diwethaf i ychwanegu datganiadau o fuddiant ar gyfer y Cynghorydd Jenkins a’r Cynghorydd Peter Hunt ynghylch cyfethol. Cafodd y cofnodion dyddiedig 29 Ionawr 2019 eu cymeradwyo a’u llofnodi’. O dan reolau sefydlog y Cyngor, nid oedd modd diwygio’r cofnodion heb benderfyniad gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae cofnodion y cyfarfod ar 15 Chwefror 2019 yn nodi bod y penderfyniad i ddiwygio cofnodion y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019 wedi cael ei wneud heb i’r Cyngor wneud penderfyniad.
- mae’r Cyngor wedi darparu copïau ar fy nghyfer o hysbysiadau tendro y mae’n taeru eu bod wedi cael eu cyhoeddi i geisio tendrau am gontractau. Mae’r rheolau sefydlog yn nodi’r wybodaeth y mae’n rhaid ei chynnwys mewn hysbysiadau tendro. Nid oedd yr hysbysiadau tendro’n ateb y gofynion yn y rheolau sefydlog (**gweler paragraffau 202, 216 a 229**)

## Nid oedd y person a benodwyd gan y Cyngor i gynnal yr archwiliad mewnol o’r Cyngor yn ddigon annibynnol ar y Cyngor ac ni chynhaliodd archwiliad mewnol digonol nac effeithiol

### Fe benododd y Cyngor archwilydd mewnol ac fe gytunodd ar delerau ymrwymiad cynhwysfawr gydag ef

102 Mae Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i’r holl gynghorau cymuned sicrhau bod ganddynt system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol.

103 Mae archwilio mewnol yn rhan bwysig o’r fframwaith rheolaeth fewnol ar y cyfan. Rhaid i’r archwilydd mewnol fod yn annibynnol h.y. peidio â bod ag unrhyw ran ym mhroses benderfynu’r Cyngor nac unrhyw rôl yn y gwaith o gynnal y system gyfrifyddu a pharatoi’r cyfrifon blynyddol. Dylid sicrhau gwasanaeth yr archwilydd mewnol i gyflawni rhaglen o waith y cytunwyd arni, dylai ei berfformiad gael ei ystyried yn flynyddol a dylai’r penderfyniad i’w ailbenodi gael ei gofnodi.

104 Mae’r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys templed ar gyfer adroddiad archwilio mewnol sy’n darparu enghraifft o’r gweithdrefnau archwilio mewnol a allai gael eu cyflawni ac mae’n darparu templed i adrodd wrth y Cyngor ar ganfyddiadau archwilio. Nid yw cwblhau’r templed hwn yn orfodol ond lle na chaiff ei ddefnyddio, dylai’r Cyngor sicrhau ei fod yn cael adroddiad manwl ar wahân gan yr archwilydd mewnol. Dylai cyfrifoldebau a threfniadau adrodd yr archwilydd mewnol gael eu nodi’n glir yn y telerau ymrwymiad.

105 Penododd y Cyngor Mr Philip Woosnam fel ei Archwilydd Mewnol ar gyfer blwyddyn gyfrifyddu 2018-19 a darparodd delerau ymrwymiad cynhwysfawr ar ei gyfer, dyddiedig 10 Ebrill 2018. Llofnododd Mr Woosnam i ddynodi ei fod yn derbyn y telerau hyn ar yr un diwrnod. Fel a nodir yn y cylch gorchwyl, roedd cyfrifoldebau Mr Woosnam fel Archwilydd Mewnol y Cyngor yn cynnwys:

- adolygu pa un a oedd rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigonol ac yn effeithiol a pha un a oes ganddo system rheolaeth fewnol gadarn;
- cynnal archwiliad mewnol i'w alluogi i ddarparu sicrwydd ar gyfer aelodau a swyddogion; a chwblhau ac ardystio'r templed ar gyfer adroddiad archwilio mewnol yn y Ffurflen Flynyddol;
- adrodd yn ystod y flwyddyn ar ganfyddiadau dros dro ei waith wrth y Clerc, ac unwaith y flwyddyn, ym mis Ebrill neu fis Mai, adrodd ar ganfyddiadau ei waith ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol; a
- chynnal yr archwiliad yn gymwys ac yn unol ag arferion priodol.

106 Roedd y cylch gorchwyl yn gwneud darpariaeth i Mr Woosnam gael cydnabyddiaeth ariannol am y gwasanaeth archwilio mewnol yr oedd yn ei ddarparu. Fodd bynnag, ni ofynnodd Mr Woosnam am dâl, ac ni chafodd dâl am ei waith.

## Roedd annibyniaeth yr Archwilydd Mewnol wedi'i pheryglu, ac felly nid oedd yn gallu darparu archwiliad mewnol digonol ar gyfer y Cyngor

107 Roedd y telerau ymrwymiad archwilydd mewnol a dderbyniwyd gan Mr Woosnam yn nodi bod rhaid iddo fod yn 'ddigon annibynnol ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol eraill y Cyngor'. Fodd bynnag, fe wnaeth Mr Woosnam baratoi cyfrifon blynyddol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2018-19 ar gais y Clerc a chyda hynny'n hysbys i'r Cadeirydd. Trwy gyflawni'r swyddogaethau hyn fe beryglodd Mr Woosnam ei allu i ddarparu archwiliad mewnol annibynnol a gwrthrychol ac felly ni wnaeth y Cyngor gynnal system archwilio mewnol ddigonol fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau 2014.

## Methodd Archwilydd Mewnol y Cyngor â chwblhau archwiliad mewnol effeithiol

108 Ar 25 Mai 2019, fe lofnododd Mr Woosnam ei adroddiad archwilio mewnol wedi'i gwblhau a oedd yn rhan o ffurflen flynyddol y Cyngor ar gyfer 2018-19. Darparodd lythyr ar wahân ar gyfer y Cyngor hefyd a oedd yn rhoi barn archwilio ar y cyfrifon blynyddol. Roedd yr unig bryder a gododd Mr Woosnam yn ei adroddiadau'n ymwneud â lefel y cronfeydd wrth gefn a oedd yn cael eu dal gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2019.

109 Mae'r templed ar gyfer adroddiad archwilio mewnol sy'n rhan o Ffurflen Flynyddol y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i archwilydd mewnol y Cyngor ddod i gasgliad a darparu sicrwydd ar gyfer y Cyngor bod trefniadau priodol ar waith ym mhob un o blith 11 o feysydd penodedig. Daeth Mr Woosnam i'r casgliad, ym mhob maes heblaw un, sef lefel cronfeydd wrth gefn y Cyngor, bod trefniadau priodol wedi cael eu gwneud gan y Cyngor.

110 Canfu fy ngwaith archwilio nad oedd gan y Cyngor drefniadau priodol yn y rhan fwyaf o feysydd lle darparodd Mr Woosnam sicrwydd cadarnhaol i'r Cyngor. Mae canfyddiadau fy archwiliad i a nodir yn y ddogfen hon yn gwrthddweud y sicrwydd a roddwyd gan Mr Woosnam. Mae **Atodiad 1** yn nodi ble mae fy nghanfyddiadau i'n wahanol i'r rhai yr adroddwyd arnynt gan Mr Woosnam.

111 Ar 25 Mehefin 2019, anfonodd Mr Woosnam lythyr ar wahân at y Cyngor yn darparu barn archwilio ar y cyfrifon gan ddatgan 'Yr wyf fi'n credu bod y dystiolaeth archwilio a roddwyd i mi yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i farn. Yn fy marn i felly, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o'r uchod ar 31 Mawrth 2019.'. Roedd yn amhriodol ac afreolaidd bod Archwilydd Mewnol y Cyngor ar y pryd wedi darparu barn archwilio ar gyfrifon yr oedd ef ei hun wedi'u paratoi. Rwyf hefyd yn ystyried bod y farn a roddodd yn anghywir, yn yr ystyr bod cyfrifon y Cyngor wedi'u camddatgan.

112 Cyfarfu fy archwilwyr â Mr Woosnam i ganfod pa waith archwilio yr oedd wedi'i wneud er mwyn darparu'r sicrwydd cadarnhaol a nodwyd yn ei adroddiad archwilio mewnol a rhoi ei farn archwilio. Gofynnwyd i Mr Woosnam ddarparu ei bapurau gwaith archwilio a oedd yn manylu ar y profion archwilio yr oedd wedi'u cynnal. Dywedodd Mr Woosnam wrth fy archwilwyr fod ei bapurau gwaith wedi mynd ar goll.

113 Byddwn wedi disgwyl i Mr Woosnam fod wedi adolygu'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth, y cyfeirir ati drwy'r adroddiad hwn, a adolygwyd gan fy archwilwyr i at ddibenion yr archwiliad hwn. Mae'r ffaith bod Mr Woosnam wedi dod i gasgliadau mor wahanol i'm harchwilwyr i'n awgrymu naill ai na wnaeth Mr Woosnam y gwaith a oedd yn ofynnol i ddarparu archwiliad mewnol effeithiol, neu nad oedd yn meddu ar y gallu i gynnal archwiliad mewnol o'r Cyngor. Pa un bynnag sy'n wir, rwy'n ystyried na wnaeth y Cyngor gydymffurfio â'i ddyletswydd i gynnal system archwilio mewnol effeithiol.

# Ni chydymffurfiodd y Cyngor ag amryw ofynion deddfwriaethol

## Methodd y Cyngor â chydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol i gadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau

114 Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae angen i aelodau benderfynu a oes ganddynt fuddiant personol yn y busnes sy'n cael ei gynnal gan y Cyngor ac, os felly, a oes angen iddynt ei ddatgelu. Mae'n ofynnol dan a81 Deddf Llywodraeth Leol 2000 bod cynghorau'n cadw cofrestr o fuddiannau a ddatgelwyd gan aelodau. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lleol gyhoeddi eu cofrestr ar ffurf electronig.

115 Canfu fy archwiliad na wnaeth y Cyngor gadw cofrestr gyfoes o fuddiannau'r aelodau. Roedd gwefan y Cyngor yn cynnwys tudalen ar gyfer cofnodi buddiannau a ddatgelwyd. Fodd bynnag, dim ond dau fuddiant oedd wedi'u cofnodi fel rhai a ddatgelwyd, ac nid oedd unrhyw fuddiannau wedi cael eu cyhoeddi ers 2017. Canfu adolygiad o gofnodion y Cyngor fod

buddiannau eraill wedi cael eu datgan yng nghyfarfodydd y Cyngor yn 2018 a 2019, ond nid oedd y buddiannau hyn wedi cael eu cofnodi yn y gofrestr a'u cyhoeddi'n electronig.

116 Rwyf felly'n ystyried na chydymffurfiodd y Cyngor â'r gofynion deddfwriaethol i gadw cofrestr o fuddiannau a ddatgelwyd gan yr aelodau a chyhoeddi'r gofrestr honno'n electronig.

## Methodd y Cyngor â chydymffurfio â gofyniad deddfwriaethol i gyhoeddi gwybodaeth yn electronig

117 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lleol gyhoeddi gwybodaeth benodedig ar ffurf electronig i wella atebolrwydd cynghorau lleol i'w hetholaethau.

118 Mae'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi'n electronig yn cynnwys,

- rhybudd o amser a lleoliad unrhyw gyfarfod y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gynnal. Rhaid cyhoeddi'r rhybudd hwn o leiaf dri diwrnod calendr cyn cynnal y cyfarfod.
- unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â busnes sydd i'w drafod mewn cyfarfod sydd ar fin cael ei gynnal (hyd y bo'n rhesymol ymarferol). Nid yw'n ofynnol datgelu dogfennau sy'n ymwneud â busnes sydd i'w gynnal gan y Cyngor mewn sesiwn breifat, neu lle byddai eu datgelu'n torri darpariaethau deddfwriaethol eraill.
- cofnodion trafodion cyfarfodydd y Cyngor ac (hyd y bo'n rhesymol ymarferol) unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn y cofnodion. Nid oes angen datgelu dogfennau sy'n ymwneud â busnes sydd i'w gynnal gan y Cyngor mewn sesiwn breifat, neu lle byddai eu datgelu'n torri darpariaethau deddfwriaethol eraill.
- datganiadau cyfrifon archwiliedig y cyngor.
- hysbysiadau cyhoeddus y mae'n ofynnol i gyngor cymuned eu rhoi; a hefyd
- y gofrestr o fuddiannau'r aelodau.

119 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cynghorau cymuned yn ateb y gofyniad i gyhoeddi'r wybodaeth hon yn electronig trwy ei chyhoeddi ar eu gwefannau eu hunain.

120 Ni chydymffurfiodd y Cyngor yn llawn â'r gofynion i gyhoeddi'r wybodaeth uchod yn electronig. Er bod y Cyngor wedi cyhoeddi agendâu a chofnodion y rhan fwyaf o'i gyfarfodydd ar ei wefan, canfu fy archwilwyr nad oedd y dogfennau hyn i gyd wedi cael eu cyhoeddi. Nid oedd gan y Cyngor reswm dilys dros beidio â chyhoeddi agendâu a chofnodion ei holl gyfarfodydd. Ar ben hynny, canfu fy archwilwyr fod y Cyngor:

- heb gyhoeddi unrhyw ddogfennau a oedd yn ymwneud â busnes a oedd yn mynd i gael ei drafod mewn cyfarfodydd a oedd ar fin cael eu cynnal, megis cofnodion drafft, papurau'r gyllideb, cyfrifon ac ati, yn electronig.
- heb gyhoeddi unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn y cofnodion yn electronig.
- heb gyhoeddi ei ddatganiadau cyfrifon archwiliedig yn electronig
- wedi cyhoeddi rhai ond nid y cyfan o'r hysbysiadau cyhoeddus yr oedd yn ofynnol iddo'u rhoi yn electronig.

- wedi cyhoeddi cofrestr anghyflawn o fuddiannau'r aelodau a oedd yn cynnwys dau ddatganiad yn unig.

121 Rwy'n ystyried bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswydd i gyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth yn electronig ac wedi methu â gweithredu mewn modd agored a thryloyw.

## Methodd y Cyngor â chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ar gyfer derbyn aelodau'r Cyhoedd i gyfarfodydd y Cyngor

122 Caiff mynediad ar gyfer y cyhoedd i gyfarfodydd cynghorau cymuned ei reoli gan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960. Rhaid i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cyngor gael eu derbyn i'r cyfarfod gan y Cyngor oni bai bod y Cyngor yn gwneud penderfyniad i eithrio aelodau'r cyhoedd o'i drafodion. Lle mae hyn yn digwydd, gall y Cyngor gwrdd mewn sesiwn breifat. Mae'r Ddeddf yn datgan 'gall corff, trwy benderfyniad, eithrio'r cyhoedd o gyfarfod (boed yn ystod y trafodion i gyd neu ran ohonynt) pryd bynnag y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod neu am resymau arbennig eraill a nodir yn y penderfyniad ac sy'n codi o natur y busnes hwnnw neu natur y trafodion; a lle gwneir penderfyniad o'r fath, ni fydd y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarfod fod yn agored i'r cyhoedd yn ystod trafodion y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddynt'.

123 Mae'n debygol y bydd ychydig o achlysuron lle ceir rheswm da i unrhyw gyngor eithrio aelodau'r cyhoedd o gyfarfodydd y cyngor (neu bwyllgorau). Gallai rhesymau da gynnwys yr angen i drafod:

- materion staffio
- telerau tendrau
- achosion cyfreithiol
- camau cynnar anghydfodau

124 Mae cofnodion y Cyngor yn nodi y bu nifer o achlysuron lle cafodd aelodau'r cyhoedd eu heithrio o gyfarfodydd y Cyngor, heb i'r Cyngor fod wedi gwneud penderfyniad a nodi'r rhesymau dros eu heithrio.

125 O ganlyniad, rwy'n ystyried bod y Cyngor wedi eithrio aelodau'r cyhoedd o gyfarfodydd y Cyngor yn anghyfreithlon.

## Methodd y Cyngor â chadw a chymeradwyo cofnodion yn unol â gofynion deddfwriaethol, ac roedd y cofnodion a gadwyd yn rhai o safon wael iawn

126 Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gymryd cofnodion o bob un o gyfarfodydd y Cyngor (ac o gyfarfodydd ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau). Unwaith y maent wedi'u cymeradwyo gan aelodau, yn y cyfarfod nesaf fel arfer, mae'n ofynnol i'r cofnodion gael eu llofnodi fel cofnodion a gymeradwywyd gan y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod.

127 Gall y cofnodion gael eu rhoi mewn llyfr cofnodion, ond fel arall gall y cofnodion gael eu cofnodi ar ddalenni rhydd wedi'u rhifo'n olynol. Os caiff cofnodion eu cadw ar ffurf dalenni rhydd, mae'n ofynnol i'r swyddog sy'n llywyddu roi ei lythrennau cyntaf ar bob dalen yn ogystal â llofnodi'r cofnodion yn eu cyfanrwydd.

128 Mae cofnodion cyfarfodydd cyngor o'r pwys mwyaf gan mai'r rhain yw'r cofnod hanesyddol o drafodion cyngor a'u bod yn manylu ar y penderfyniadau a wnaed gan gyngor a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny. Maent yn darparu'r dystiolaeth bod y Cyngor wedi gweithredu'n unol â'i bwerau cyfreithiol. Mae felly'n hollbwysig bod y cofnodion yn rhai o ansawdd da.

129 Nid oes gan y Cyngor lyfr cofnodion ac felly cafodd ei gofnodion eu cofnodi ar ddalenni rhydd. Fe wnaeth fy archwilwyr adolygu 'cofnodion cymeradwy' sawl un o gyfarfodydd y Cyngor. Canfuont nad oedd y dalenni rhydd wedi cael eu rhifo'n olynol fel sy'n ofynnol ac nad oedd y swyddog a oedd yn llywyddu yn y cyfarfod wedi rhoi ei lythrennau cyntaf ar bob dalen. Ym mhob achos, roedd y cofnodion a adolygwyd wedi cael eu llofnodi gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Donald Jenkins.

130 Canfu fy archwilwyr hefyd:

- fod y Cadeirydd wedi llofnodi fersiynau gwahanol o'r cofnodion ar gyfer yr un cyfarfod. Felly nid oedd yn bosibl canfod pa gofnodion oedd wedi cael eu cymeradwyo gan aelodau'r Cyngor. Mewn rhai achosion, roedd y gwahaniaethau'n arwyddocaol, e.e. mae un fersiwn wedi'i llofnodi o gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019 yn nodi bod y Cadeirydd wedi datgan buddiant mewn proses gyfethol lle'r oedd ei wraig yn ymgeisydd, ac nid yw ail gopi wedi'i lofnodi o gofnodion y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019 yn nodi ei fod wedi datgan buddiant.
- yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r dyddiad y gwnaeth y Cadeirydd lofnodi'r cofnodion i ddynodi cymeradwyaeth wedi'i gofnodi. Fodd bynnag, rwy'n nodi, er bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2018 yn nodi bod y Cyngor wedi cymeradwyo cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2018, llofnododd y Cadeirydd hwy gan roi 29 Ionawr 2019 fel dyddiad. Mae'n glir felly, ar yr achlysur hwn o leiaf, na chafodd y cofnodion eu llofnodi yn y cyfarfod lle cawsant eu cymeradwyo.

131 Ar wahân i fethiant y Cyngor i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 mewn perthynas â chadw a chymeradwyo cofnodion, rwy'n ystyried bod y cofnodion a gynhyrchwyd gan Glerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol blaenorol y Cyngor o safon wael iawn.

132 Canfu fy archwilwyr fel a ganlyn lle'r oedd cofnodion yn y cwestiwn:

- eu bod wedi'u drafftio'n wael,
- nad oeddent yn nodi'n glir y penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor na'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny,
- bod diffyg manylion ynddynt o ran yr hyn a gytunwyd, e.e. swm y gyllideb a'r praesept a gymeradwywyd gan aelodau, a gwerth ariannol tendrau a gytunwyd gan y Cyngor,
- nad oeddent yn nodi'n briodol y buddiannau a ddatganwyd gan aelodau a'r camau a gymerwyd lle datganwyd buddiannau, h.y. nid yw'r cofnodion yn nodi natur y buddiant a ddatganwyd a pha un a wnaeth yr aelod a ddatganodd y buddiant adael yr ystafell,

- nad oeddent yn cyfeirio'n glir at bapurau mewn perthynas â'r agenda a ystyriwyd gan y Cyngor,
- nad oeddent wastad yn darparu cyfrif cywir o'r hyn a ddigwyddodd mewn cyfarfodydd
- nad oeddent, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cynnwys manylion taliadau a gymeradwywyd.

133 Rwyf felly'n ystyried na wnaeth y Cyngor gadw a chymeradwyo cofnodion yn unol â gofynion deddfwriaethol, ac nad oedd cofnodion y Cyngor yn ystod blwyddyn gyfrifyddu 2018-19 o safon dderbyniol.

## Methodd Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol blaenorol y Cyngor â darparu papurau'r agendau ar gyfer aelodau'r Cyngor gyda thri diwrnod clir o rybudd fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth

134 Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol rhoi o leiaf 3 diwrnod clir o rybudd ynghylch cyfarfod cyngor cymuned. Rhaid anfon gwŷs at aelodau'r Cyngor i fod yn bresennol yn y cyfarfod a rhaid i honno nodi'r busnes y bwriedir ei drafod yn y cyfarfod a rhaid iddi gael ei llofnodi gan swyddog priodol (Swyddog Cyllid Cyfrifol) y cyngor. Rhaid i unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod gael eu cyhoeddi'n electronig hefyd (hyd y bo'n rhesymol ymarferol).

135 Os nad yw aelodau o gyngor yn cael copïau o ddogfennau sy'n ymwneud â busnes sydd i'w drafod yng nghyfarfod cyngor o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod, ni ellir yn gyfreithlon trafod y busnes hwnnw yn y cyfarfod. Mae cyfnod y rhybudd yn bwysig gan ei fod yn rhoi digon o amser i aelodau adolygu ac ystyried materion, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus.

136 Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol blaenorol y Cyngor oedd yn gyfrifol am baratoi'r agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a dosbarthu dogfennau a oedd yn ymwneud â busnes a oedd yn mynd i gael ei drafod yng nghyfarfodydd y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu ar gyfer yr aelodau o leiaf 3 diwrnod clir cyn cyfarfod y Cyngor.

137 Mae'n amlwg o adolygiad o gofnodion cyfarfodydd y Cyngor nad oedd dogfennau a oedd yn ymwneud â'r busnes a oedd yn mynd i gael ei drafod yng nghyfarfodydd y Cyngor wastad yn cael eu darparu ar gyfer aelodau cyn cyfarfodydd. Er enghraifft:

- ar 27 Tachwedd 2018, cyfarfu'r Cyngor llawn. Un o'r eitemau ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod oedd 'Adolygiad o'r Gyllideb Ragarweiniol/Praesept'. Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi bod cyllideb y Cyngor (ar gyfer 2019-20) wedi cael ei dosbarthu i aelodau'r Cyngor yn y cyfarfod, a bod yr aelodau wedi cymeradwyo'r gyllideb. Gan nad oedd y cyfnod rhybudd statudol ar gyfer darparu dogfen yr oedd ei hangen i ystyried a chymeradwyo'r gyllideb heb gael ei roi, ni allai'r Cyngor yn gyfreithlon gymeradwyo'r gyllideb yn y cyfarfod ar 27 Tachwedd 2018.
- ar 28 Mai 2019, cynhaliwyd cyfarfod gan y Cyngor, ac fe wnaeth y Cadeirydd a'r Clerc blaenorol hysbysu fy archwilwyr bod y Cyngor wedi cymeradwyo cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2018-19 yn y

cyfarfod hwn. Fodd bynnag, rwy'n nodi nad yw'r agenda ar gyfer y cyfarfod ar 28 Mai 2019 yn nodi y byddai gofyn i'r aelodau benderfynu ynghylch cymeradwyo'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn y cyfarfod, ac felly gan nad oedd y rhybudd gofynnol wedi cael ei roi ni allai'r materion hyn gael eu hystyried yn gyfreithlon.

- mae cofnodion y cyfarfod ar 28 Mai 2019 yn nodi bod aelodau wedi cymeradwyo cyfrifon y Cyngor yn y cyfarfod. Ni allai aelodau'r Cyngor fod wedi gweld copi o'r cyfrifon a ardystiwyd gan y Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol blaenorol cyn 28 Mai 2019 cyn y dyddiad hwnnw gan mai 28 Mai 2019 yw dyddiad llofnod y Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ar y cyfrifon. Rwyf felly'n ystyried na allai'r Cyngor yn gyfreithlon gymeradwyo'r cyfrifon ar y dyddiad hwnnw gan na ddarparwyd y cyfrifon wedi'u hardystio ar gyfer yr aelodau o leiaf 3 diwrnod clir cyn y cyfarfod. Nid yw cofnodion y cyfarfod ar 28 Mai 2019 yn nodi bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei gymeradwyo gan aelodau yn y cyfarfod hwnnw. Fodd bynnag, mae'r cofnodion yn nodi bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei 'ddosbarthu i gynghorwyr'. Felly ni ellid yn gyfreithlon bod wedi cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn y cyfarfod gan nad oedd y ddogfen wedi cael ei chylchredeg o leiaf 3 diwrnod clir cyn y cyfarfod.

138 Rwyf felly'n ystyried na wnaeth Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol blaenorol y Cyngor ddarparu'r wybodaeth yr oedd yn ofynnol i'r aelodau ei chael i drafod busnes yn gyfreithlon o fewn y cyfnod rhybudd statudol sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth.

## Trefnodd y Cyngor fod gwybodaeth bersonol ar gael yn gyhoeddus a thrwy wneud hynny, yn fy marn i fe dorrodd ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 2014

139 Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 2014 a dim ond at ddiben cyfreithlon neu gyda chydsyniad yr unigolyn/unigolion dan sylw y gall ddatgelu gwybodaeth bersonol.

140 Yn ystod fy archwiliad, daeth dwy enghraifft i'r fei lle gwnaeth y Cyngor, yn fy marn i, dorri darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data.

- roedd y Cyngor yn rheolaidd yn enwi aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cyngor yng nghofnodion cyhoeddus y cyfarfodydd hynny. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ddiben cyfreithlon ar gyfer cofnodi'r wybodaeth hon yng nghofnodion y Cyngor, ac ni cheisiodd y Cyngor gydsyniad gan y rhai a enwyd ac ni wnaeth anfon hysbysiadau preifatrwydd atynt ychwaith.
- trefnodd y Cyngor fod y contract cyflogaeth, a oedd yn cynnwys gwybodaeth bersonol ei Glerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol blaenorol, ar gael i'r cyhoedd edrych arno fel rhan o'r broses statudol i bartïon â buddiant gael edrych ar gyfrifon y Cyngor. Fodd bynnag, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan yn benodol nad yw hawliau i'r cyhoedd gael edrych ar gyfrifon yn ymestyn i weld 'unrhyw gyfrifon na dogfen arall sy'n ymwneud â chorff i'r graddau bod y cyfrifon yn cynnwys, neu fod y ddogfen yn cynnwys, gwybodaeth bersonol'.

141 Rwyf felly'n ystyried, mewn perthynas â'r materion uchod, y gallai'r Cyngor fod wedi torri Deddf Diogelu Data 2014.

## Fe sefydlodd y Cyngor dri is-bwyllgor, ond ni chafodd yr is-bwyllgorau hyn eu cyfansoddi'n briodol ac fe wnaethant benderfyniadau heb fod â'r awdurdod dirprwyedig i wneud hynny

### Mae gan gynghorau'r pŵer i sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau i gyflawni rhai o swyddogaethau'r Cyngor

142 Mae cynghorau cymuned yn gweithredu dan ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n nodi eu dyletswyddau, swyddogaethau a phwerau. Mae'n ofynnol yn ddiofyn bod swyddogaethau cynghorau cymuned yn cael eu harfer gan holl aelodau'r cyngor ar y cyd mewn cyfarfod gan y cyngor a gynullwyd yn briodol. Fodd bynnag, mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn datgan y 'gall awdurdod lleol drefnu i unrhyw rai o'i swyddogaethau gael eu cyflawni gan un o bwyllgorau, is-bwyllgorau neu swyddogion yr awdurdod'.

143 Felly gall cyfarfod rhwng holl aelodau cyngor benderfynu sefydlu pwyllgor(au) i gyflawni swyddogaethau'r cyngor. Gall pwyllgor a sefydlwyd yn briodol benodi is-bwyllgor i gyflawni rhai o'r swyddogaethau a ddirprwywyd gan y Cyngor llawn i'r pwyllgor. Gall y Cyngor llawn hefyd ddirprwyo'r cyfrifoldeb am gyflawni swyddogaethau i un o swyddogion y Cyngor. Unig swyddog Cyngor Cymuned Sant Harmon yw ei Glerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol.

144 Rwy'n nodi, er bod deddfwriaeth yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor drefnu bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan bwyllgorau neu is-bwyllgorau, nad yw rheolau sefydlog y Cyngor ei hun yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sefydlu pwyllgorau nac is-bwyllgorau (ac eithrio pwyllgorau cynghori nad ydynt yn gwneud penderfyniadau).

### Sefydlodd y Cyngor dri is-bwyllgor ond mewn dau achos nid oes tystiolaeth bod y Cyngor wedi rhoi cymeradwyaeth i'w sefydlu ac felly nid oedd gan yr is-bwyllgorau hyn unrhyw awdurdod cyfreithlon i arfer unrhyw swyddogaethau ar ran y Cyngor

145 Ar ddechrau'r archwiliad, gofynnodd fy archwilwyr am wybodaeth am bwyllgorau neu is-bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor. Cefais fy hysbysu gan Gadeirydd y Cyngor bod dau is-bwyllgor wedi cael eu sefydlu gan y Cyngor:

- is-bwyllgor recriwtio a sefydlwyd ar 27 Chwefror 2018 at ddiben recriwtio Clerc newydd ar gyfer y Cyngor
- is-bwyllgor maes chwarae a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2018

146 Er bod fy archwilwyr wedi cael eu hysbysu ynghylch bodolaeth dau is-bwyllgor yn unig a sefydlwyd gan y Cyngor, yn ystod yr archwiliad, daeth fy archwilwyr yn ymwybodol bod y Cyngor wedi sefydlu is-bwyllgor pellach 'i drafod a gwneud argymhellion ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) gan y byddai'n effeithio ar Gyngor Cymuned Sant Harmon a'n Cynghorydd Sir'.

147 Nid yw'n glir i mi ar ba sail y cafodd yr is-bwyllgorau a sefydlwyd eu dosbarthu'n 'is-bwyllgorau'. Penodir is-bwyllgorau gan bwyllgorau i gyflawni rhai o swyddogaethau'r pwyllgor hwnnw. Fodd bynnag, ni sefydlodd y Cyngor unrhyw bwyllgorau. Ymddengys mai pwyllgorau yn hytrach nag is-bwyllgorau i'r Cyngor oedd is-bwyllgorau'r Cyngor i bob pwrpas.

148 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2018 yn nodi 'awgrymwyd ffurfio cyfarfod/pwyllgor gwahanol parthed y maes chwarae'. Nid yw cofnodion y cyfarfod yn nodi bod y Cyngor wedi gwneud penderfyniad i sefydlu pwyllgor/is-bwyllgor maes chwarae. Mae cofnodion cyfarfod nesaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Awst 2018 yn dangos bod is-bwyllgor maes chwarae wedi cael ei sefydlu ac wedi cwrdd. Nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu tystiolaeth ar gyfer fy archwilwyr bod aelodau wedi rhoi cymeradwyaeth i sefydlu'r is-bwyllgor maes chwarae. Yn niffyg tystiolaeth bod y Cyngor wedi rhoi cymeradwyaeth i sefydlu'r is-bwyllgor hwn, rwy'n ystyried nad oedd unrhyw awdurdod ganddo i gyflawni unrhyw swyddogaethau'n gyfreithlon ar ran y Cyngor.

149 Yn ystod fy archwiliad, daeth fy archwilwyr yn ymwybodol bod y Cyngor wedi sefydlu is-bwyllgor pellach a oedd wedi cwrdd ar 18 Mai 2018 'i drafod a gwneud argymhellion ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) gan y byddai'n effeithio ar Gyngor Cymuned Sant Harmon a'n Cynghorydd Sir'. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gadeirydd y Cyngor ac roedd dau gynghorydd cymuned arall yn bresennol yn y cyfarfod.

150 Ni chanfu fy archwilwyr unrhyw dystiolaeth bod sefydlu'r is-bwyllgor hwn wedi cael ei drafod na'i gytuno yn un o gyfarfodydd y Cyngor llawn. Yn niffyg tystiolaeth bod y Cyngor wedi rhoi cymeradwyaeth i sefydlu'r is-bwyllgor hwn, rwy'n ystyried nad oedd ganddo unrhyw awdurdod i gyflawni unrhyw swyddogaethau'n gyfreithlon ar ran y Cyngor.

## Ni ddarparwyd cylchoedd gorchwyl priodol ar gyfer yr is-bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor i nodi sut y dylent weithredu

151 Mae'n hollbwysig pryd bynnag y mae pwyllgor neu is-bwyllgor yn cael ei sefydlu ei fod yn cael cylch gwaith a chylch gorchwyl ysgrifenedig eglur sy'n nodi sut y mae'n ofynnol i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor weithredu. Er enghraifft:

- hyd a lled y trefniadau dirprwyo/pwerau penderfynu a roddwyd i'r pwyllgor/is-bwyllgor
- y rheolau ar gyfer ei weithrediad
- ethol/penodi cadeirydd
- cworwm
- gofynion ar gyfer cofnodion
- trefniadau adrodd

152 Ni chytunodd y Cyngor ar unrhyw gylch gwaith na chylch gorchwyl ar gyfer yr is-bwyllgor maes chwarae nac is-bwyllgor y CDLl, ac felly ni sefydlwyd unrhyw reolau ar gyfer eu gweithrediad, gan gynnwys eu swyddogaethau dirprwyedig neu eu haelodaeth. Nid yw'n glir i mi pwy bennodd aelodaeth yr is-bwyllgorau hyn.

153 Rhoddodd yr aelodau gymeradwyaeth i sefydlu'r is-bwyllgor recriwtio mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018 ac fe benderfynon nhw y byddai'r is-bwyllgor yn cael awdurdod dirprwyedig 'i adolygu'r ymgeiswyr a chynnal cyfweliadau' gydag ymgeiswyr ar gyfer

swydd Clerc y Cyngor. Cytunodd y Cyngor ar aelodaeth yr is-bwyllgor hefyd. Fodd bynnag, ni chytunodd y Cyngor ar gylch gorchwyl ysgrifenedig ar gyfer yr is-bwyllgor a oedd yn cwmpasu materion megis cworwm, penodi Cadeirydd, cadw cofnodion a gofynion adrodd.

## Fe wnaeth yr is-bwyllgor recriwtio ac is-bwyllgor y CDLl arfer swyddogaethau'r Cyngor heb feddu ar yr awdurdod cyfreithlon i wneud hynny

154 Fel a nodir ym **mharagraffau 166 i 169**, rhoddodd y Cyngor awdurdod dirprwyedig i'r is-bwyllgor recriwtio 'i adolygu'r ymgeiswyr a chynnal cyfweliadau' gydag ymgeiswyr ar gyfer swydd Clerc y Cyngor. Fodd bynnag, aeth yr is-bwyllgor recriwtio'r tu hwnt i'w awdurdod dirprwyedig ac ym mis Mawrth 2018 fe benododd Glerc newydd heb gymeradwyaeth y Cyngor. Rwyf felly'n ystyried bod aelodau'r is-bwyllgor recriwtio wedi gweithredu heb yr awdurdod cyfreithlon i wneud hynny wrth benodi Clerc newydd ar gyfer y Cyngor.

155 Mae cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2018 gan is-bwyllgor y CDLl yn nodi bod yr aelodau a oedd yn bresennol wedi trafod cynigion a gyflwynwyd mewn dogfen ymgynghori gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfaDLC) ar gyfer ailstrwythuro wardiau etholiadol (a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer y ward yr oedd cymuned Sant Harmon wedi'i lleoli ynddi). Fe wnaeth yr is-bwyllgor nodi'r rhesymau pam ei fod yn erbyn y cynnig mewn perthynas â Sant Harmon a gyflwynwyd gan CFfaDLC ac fe wnaeth benderfyniad i ymateb i CFfaDLC gan argymell opsiwn arall.

156 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gadeirydd y Cyngor ac roedd dau gynghorydd cymuned arall yn bresennol.

157 Yn niffyg unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi rhoi cymeradwyaeth i sefydlu is-bwyllgor y CDLl ac wedi rhoi awdurdod dirprwyedig iddo i wneud argymhellion ar ran y Cyngor mewn ymateb i ymgynghoriad CFfaDLC, rwy'n ystyried bod aelodau'r is-bwyllgor wedi gweithredu heb yr awdurdod cyfreithlon i wneud hynny.

## Methodd y Cyngor â chyhoeddi agendâu a chofnodion ei is-bwyllgorau'n electronig fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth

158 Fel a nodir ym **mharagraffau 115 i 119**, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn electronig. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor. Mae hon yn agwedd bwysig ar dryloywder cyhoeddus.

159 Ni chafodd agendâu a chofnodion tri is-bwyllgor y Cyngor eu cyhoeddi fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth.

## Ni sefydlodd y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau bod pobl â buddiant yn cael y cyfle i edrych ar gyfrifon y Cyngor

160 Mae Adran 30 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi, mewn archwiliad o gyfrifon, y gall person â buddiant–

a. edrych ar y cyfrifon sydd i'w harchwilio a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau mewn perthynas â hwy.

b. gwneud copi o bob rhan neu unrhyw ran o'r cyfrifon ac unrhyw rai o'r dogfennau eraill a grybwyllir ym mharagraff (a).

161 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor drefnu bod y dogfennau a nodir uchod ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt gan roi rhybudd rhesymol, yn ystod cyfnod o 20 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol .

162 Ar gyfer archwiliad 2018-19, pennwyd y cyfnod rhwng 1 a 26 Gorffennaf 2019 fel y cyfnod ar gyfer edrych ar y dogfennau.

163 Ganol mis Gorffennaf 2019, cysylltodd trigolion lleol â'm tîm archwilio i fynegi pryderon ynghylch trefniadau'r Cyngor i'r cyhoedd edrych ar y cyfrifon. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys y canlynol:

- roedd mynediad at y cofnodion yn gyfyngedig i un diwrnod yr wythnos yn unig oherwydd patrwm gweithio'r Clerc blaenorol.
- er bod etholwyr wedi rhoi mwy nag wythnos o rybudd o'u bwriad i edrych ar y cofnodion cyfrifyddu, gwrthododd y Clerc blaenorol a'r Cadeirydd drefnu bod y cyfrifon ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt fel a ofynnwyd.
- dywedodd y Cadeirydd mewn cyfarfod na fyddai 'tendrau, anfonebau a derbynebau' ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt rhwng 1 a 26 Gorffennaf, sef y cyfnod a bennwyd ar gyfer edrych ar y dogfennau, am eu bod wedi cael eu hanfon at yr Archwilydd Allanol.

164 Yn dilyn gohebiaeth helaeth rhwng fy nhîm archwilio, y Clerc blaenorol, a'r Cadeirydd, deuthum i'r casgliad bod Cadeirydd y Cyngor a'r Clerc blaenorol wedi mynd ati i rwystro etholwyr yn eu hymgais i arfer eu hawliau dan adran 30 Deddf 2004 trwy:

- geisio cyfyngu ar y dyddiadau yr oedd y cyfrifon a'r cofnodion ategol ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt.
- methu â darparu ar gyfer etholwyr a oedd wedi rhoi rhybudd rhesymol o'u bwriad i arfer eu hawliau; a
- gosod cyfyngiadau pellach ar y modd y byddai'r cyhoedd yn edrych ar ddogfennau gan gynnwys ceisio recordio'r cyhoedd yn edrych ar ddogfennau a chyfyngu ar y niferoedd a oedd yn bresennol.

165 I gywiro'r diffygion hyn, pennwyd dyddiad newydd (30 Medi 2019) i'r etholwyr arfer eu hawliau a phennwyd cyfnod pellach ar gyfer edrych ar y dogfennau, sef rhwng 2 a 27 Medi 2019.

166 Rwyf wedi fy argyhoeddi bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau rhesymol i bobl â buddiant edrych ar gofnodion cyfrifyddu'r Cyngor rhwng 2 a 27 Medi 2019. Fodd bynnag, fel a nodir ym **mharagraffau 48 i 56**, nid oedd y cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio wedi'u cymeradwyo gan

y Cyngor fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth, ac felly rwy'n ystyried na chafodd partïon â buddiant y cyfle i edrych ar y cyfrifon a oedd yn mynd i gael eu harchwilio. Rwyf felly'n bwriadu pennu dyddiad newydd ar gyfer arfer hawliau etholwyr a chyfnod pellach i alluogi partïon â buddiant i edrych ar gyfrifon cymeradwy'r Cyngor ar gyfer 2018-19.

### Methodd y Cyngor â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol mewn nifer o feysydd eraill

167 Yn ogystal â'r meysydd a amlygir uchod fel rhai lle bu diffyg cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, methodd y Cyngor hefyd â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol mewn sawl maes arall a amlygir yn yr adroddiad hwn:

- gallai'r broses a arweiniodd at benodi Clerc newydd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018 fod wedi bod yn anghyfreithlon (**paragraffau 166 i 172**).
- ni chydymffurfiodd y Cyngor â'i Reolau Sefydlog ei hun ar gyfer Contractau a wnaed dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau (**paragraffau 183 i 239**).
- gallai'r ffordd y gweinyddodd y Cyngor gynllun grantiau cymunedol fod wedi bod yn anghyfreithlon (**paragraffau 245 i 249**).
- roedd proses y Cyngor a arweiniodd at gyfethol dau Gynghorydd newydd ym mis Chwefror 2019 yn groes i'r gyfraith (**paragraffau 250 i 289**).

## Roedd y broses a arweiniodd at benodi Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor ym mis Mawrth 2018 yn wallus ac fe allai fod wedi bod yn anghyfreithlon ac ni chafodd telerau ei phenodiad eu cymeradwyo na'u rhoi ar waith yn briodol

### Roedd y broses a arweiniodd at benodi Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor ym mis Mawrth 2018 yn wallus ac fe allai fod wedi bod yn anghyfreithlon

168 Yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2017, rhoddodd Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor ar y pryd rybudd o'i hymddiswyddiad. Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi bod ei rhybudd wedi cael ei dderbyn ac 'ni roddwyd unrhyw ddiolch am [ei g]wasanaeth'. Fe hysbysebodd y Cyngor gan geisio recriwtio Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol newydd.

169 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018 yn nodi bod tri chais am y swydd wag wedi dod i law a bod yr aelodau wedi cytuno i ffurfio 'is-bwyllgor' a oedd yn cynnwys tri aelod gan gynnwys Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Donald Jenkins 'i adolygu'r ymgeiswyr a chynnal cyfweliadau'..

170 Fel a nodir ym **mharagraffau 140 i 142**, er bod cynghorau cymuned yn gallu trefnu i unrhyw rai o'u swyddogaethau gael eu cyflawni gan bwyllgor, is-bwyllgor neu un o swyddogion yr awdurdod, mae'n hanfodol bod aelodau'r Cyngor llawn yn cymeradwyo cylch gwaith a chylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau neu is-bwyllgorau i sicrhau bod hyd a lled eu hawdurdod dirprwyedig yn eglur, eu bod yn gweithredu o fewn fframwaith priodol a'u bod yn cyflawni eu swyddogaethau dirprwyedig mewn modd tryloyw.

171 Ni chymeradwyodd y Cyngor gylch gorchwyl ar gyfer yr is-bwyllgor recriwtio. Fodd bynnag, cafodd hyd a lled y swyddogaethau a ddirprwywyd i'r is-bwyllgor eu disgrifio'n eglur yng nghyfarfod y Cyngor ar 27 Chwefror 2018. Roedd yr is-bwyllgor i fod 'i adolygu'r ymgeiswyr a chynnal cyfweliadau'. Ni roddodd y Cyngor bwerau i'r is-bwyllgor benodi Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol na chymeradwyo telerau'r penodiad.

172 Ar 15 Mawrth 2018, cyfarfu'r is-bwyllgor a chyfwelodd ag un ymgeisydd ar gyfer y swydd, Ms West. Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi mai'r Cadeirydd wnaeth gadeirio'r cyfarfod. Cynhaliwyd cyfarfod pellach gan yr is-bwyllgor dan gadeiryddiaeth y Cadeirydd ar 17 Mawrth 2018 a chyfwelwyd â dau ymgeisydd pellach. Mae cofnodion cyfarfod yr is-bwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2018 yn nodi, ar ôl trafod y tri ymgeisydd, y 'penderfynwyd allan o'r tri fod [Ms West] yn meddu ar bopeth yr oedd y Cyngor yn chwilio amdano, ac fe benderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn hysbysu'r holl ymgeiswyr yn ysgrifenedig ynghylch eu penderfyniad'. Nid yw cofnodion yr is-bwyllgor yn nodi bod yr is-bwyllgor wedi ystyried na phenderfynu ar delerau ac amodau penodiad Ms West fel Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor.

173 Ar 27 Mawrth 2018, cyfarfu'r Cyngor llawn, ac mae cofnodion y cyfarfod yn nodi bod y Cadeirydd wedi 'cyflwyno [Ms West] fel y Clerc newydd'. Nid yw'r cofnodion yn cyfeirio o gwbl at delerau nac amodau ei phenodiad.

174 Rwy'n ystyried bod Ms West wedi cael ei phenodi gan un o is-bwyllgorau'r Cyngor nad oedd wedi cael awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor i wneud y penodiad. O ganlyniad rwy'n ystyried bod y penodiad yn sylfaenol wallus ac, yn fy marn i, yn benderfyniad anghyfreithlon.

## Ni chafodd telerau ac amodau cyflogaeth y Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol eu cymeradwyo'n briodol

175 Mae'r ymrwymiad ariannol y mae penodi Clerc newydd gan gyngor cymuned bach yn ei olygu'n sylweddol, ac mae felly'n hanfodol bod telerau'r penodiad yn cael eu hystyried yn briodol gan aelodau'r Cyngor naill ai yng nghyfarfod y Cyngor llawn neu mewn pwyllgor/is-bwyllgor a gyfansoddwyd yn briodol.

176 Yn dilyn penodiad Ms West ym mis Mawrth 2018, cafodd gontract cyflogaeth a oedd yn nodi ei thelerau ac amodau gan gynnwys cyfradd ei chydnabyddiaeth ariannol. Mae'r contract yn datgan bod ei chyflogaeth yn 'dechrau ar 2 Ebrill 2017'. Ymddengys mai gwall teipio yw hwn ac mai 2 Ebrill 2018 ddylai fod. Mae'r contract yn nodi y 'disgwylir y bydd y gwaith yn cymryd 26 awr y mis ar gyfartaledd' ac 'mae eich cyflog yn unol â Phwynt Colofnog 15 ar Raddfa LC1 Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (£8.873 yr awr ar

hyn o bryd)’. Mae’r contract wedi cael ei lofnodi gan y Cynghorydd Donald Jenkins a Ms West ond nid oes dyddiad arno.

177 Mae fy archwilwyr wedi adolygu cofnodion y Cyngor ar gyfer 2018 ond nid ydynt wedi gallu dod o hyd i unrhyw gyfeiriad at ystyriaeth na chymeradwyaeth gan y Cyngor i delerau penodiad Ms West nac awdurdodiad ganddo i’r Cadeirydd lofnodi contract cyflogaeth. Nid oedd y Cyngor yn gallu dirprwyo’r swyddogaeth ar gyfer cymeradwyo telerau’r Clerc i’r Cadeirydd, ac eithrio awdurdodi llofnodi contract a oedd wedi cael ei gymeradwyo gan un o gyfarfodydd y Cyngor. Ar ben hynny, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi ceisio caniatáu trefniant dirprwyo o’r fath.

178 Rwyf felly’n ystyried, wrth gytuno ar gontract cyflogaeth gyda Ms West, ar ran y Cyngor, bod y Cadeirydd wedi gweithredu y tu allan i’w gylch gwaith cyfreithlon ac wedi ysgwyddo swyddogaethau a oedd wedi’u cadw’n ôl i aelodau’r Cyngor a hwythau’n gweithredu ar y cyd.

179 Mae’r Cyngor wedi darparu contract cyflogaeth diwygiedig ar fy nghyfer y mae’n haeru iddo gael ei gytuno gyda Ms West rai misoedd ar ôl i’w chyflogaeth ddechrau. Nid oes llofnod na dyddiad ar y contract. Mae’r rhan fwyaf o delerau’r contract yn dal i fod yn ddigyfnewid. Fodd bynnag, mae’r contract wedi cael ei ddiwygio i nodi y ‘disgwylir y bydd y gwaith yn cymryd 30 awr y mis ar gyfartaledd’. Fe arweiniodd y cynnydd hwn mewn oriau gwaith at gynnydd yn y cyflog gan bod Ms West yn cael tâl wrth yr awr.

180 Mae fy archwilwyr wedi adolygu cofnodion y Cyngor. Mae’r cofnodion ar gyfer cyfarfod y Cyngor dyddiedig 26 Mehefin 2018 yn nodi y ‘Bydd Contract y Clerc yn cael ei ddiwygio i 30 awr y [mis] gydag adolygiad ar ôl 12[mis]’. Nid yw’r cofnodion yn darparu unrhyw esboniad ar gyfer y newid ac nid yw’n glir o’r cofnodion a wnaeth aelodau’r Cyngor gymeradwyo’r newid ynteu a gawsant yn syml eu hysbysu yn ei gylch.

181 Rwy’n nodi bod cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018, mis Tachwedd 2018, mis Rhagfyr 2018 a mis Ionawr 2019 i gyd yn nodi ‘llofnodi contract (clerc) wedi’i atgyfeirio at y cyfarfod nesaf’. Nid wyf wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod contract y Clerc erioed wedi cael ei lofnodi ar ôl ei ddiweddaru.

## Cafodd y Clerc blaenorol lai o dâl nag yr oedd ei chontract cyflogaeth yn ei nodi

182 Fel a nodir ym **mharagraff 174**, roedd contract cyflogaeth y Clerc yn nodi y byddai’n cael tâl ar ‘Bwynt Colofnog 15 ar Raddfa LC1 y Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (£8.873 yr awr ar hyn o bryd)’.

183 Fodd bynnag, ar yr adeg y penodwyd Ms West nid £8.873 yr awr oedd Pwynt Colofnog 15 ond £9.32 yr awr, gan godi i £11.88 yr awr yn 2019-20.

184 Cafodd Ms West gyflog o £8.873 yr awr gan y Cyngor yn ystod ei chyflogaeth ac nid ar Bwynt Colofnog 15 fel a nodir yn ei chontract. Canlyniad hyn oedd bod Ms West wedi cael rhy ychydig o gyflog, (er fy mod yn nodi mai Ms West ei hun oedd yn gweinyddu cyflogres y Cyngor). Ar ôl i’m harchwilwyr i hysbysu’r Cyngor ei bod wedi cael rhy ychydig o gyflog, cytunodd aelodau’r Cyngor y dylai Ms West gael ôl-daliad o £608.10 i gywiro’r gwall.

# Torrodd y Cyngor ei reolau caffael ei hun, fe ymrwymodd i drefniant TAW afreolaidd ac fe ddarparodd wybodaeth anwir ar gyfer archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol am ei drefniadau contractio

## Roedd gan y Cyngor reolau ar gyfer caffael contractau i gyflenwi nwyddau, deunyddiau a chyflawni gwaith, ond roedd y rheolau hyn yn annigonol

185 O dan adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n ofynnol i gynghorau cymuned wneud rheolau sefydlog mewn perthynas â chontractau ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu ar gyfer cyflawni gwaith. Rhaid i'r rheolau sefydlog hyn gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cystadleuaeth am gontractau o'r fath a sut y bydd tendrau'n cael eu gwahodd. Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi cynghorau i nodi ffigwr lle na fydd yn ofynnol cael tendrau os yw pris contract yn is nag ef.

186 Mae dogfen rheolau sefydlog gymeradwy'r Cyngor yn cynnwys rheolau sy'n ymwneud â chaffael contractau i gyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu i gyflawni gwaith. Maent yn nodi y 'dylai'r Cyngor ystyried a chymeradwyo rheoliadau ariannol a luniwyd gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol, a ddylai gynnwys trefniadau manwl mewn perthynas â'r polisïau caffael canlynol (yn amodol ar reol sefydlog 30(b) isod) lle amcangyfrifir bod gwerth y contract yn llai na £1,000'. Mae Rheol Sefydlog 30(b) yn nodi, 'dylai unrhyw gontract arfaethedig ar gyfer cyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau a chyflawni gwaith yr amcangyfrifir bod ei werth yn uwch na £10,000 gael ei gaffael ar sail tendr ffurfiol'.

187 Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cymeradwyo rheoliadau ariannol fel sy'n ofynnol dan ei reolau sefydlog sy'n nodi polisïau caffael ar gyfer contractau yr amcangyfrifir bod eu gwerth yn llai na £1,000. Er bod y rheolau sefydlog yn nodi y byddai'n ofynnol cynnal proses dendro ffurfiol ar gyfer contractau â gwerth uwch na £10,000, nid yw'r rheolau sefydlog yn nodi unrhyw beth mewn perthynas â'r holl ofynion caffael ar gyfer unrhyw gontractau y mae eu gwerth yn llai na £10,000. Gan hynny, rwy'n ystyried bod y rheolau sefydlog ar gyfer contractau'n sylfaenol wallus a'i bod yn debygol nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972.

188 Yr unig gontractau yr oedd rheolau sefydlog y Cyngor yn nodi ei bod yn ofynnol cynnal proses dendro ffurfiol ar eu cyfer oedd y rhai â gwerth o fwy na £10,000. Yn fy marn i, mae'r gwerth hwn yn anghymesur o uchel o ystyried maint y Cyngor. Mae'n annhebygol y byddai'r Cyngor yn dyfarnu unrhyw gontractau uwchlaw'r gwerth hwn, a chan hynny ni fyddai byth yn ofynnol iddo ddefnyddio proses gystadleuol ar gyfer unrhyw gontract, ac oherwydd diffygion y rheolau sefydlog ni fyddai byth yn gorfod gwneud trefniadau i sicrhau cystadleuaeth ar gyfer dyfarnu unrhyw gontract.

## Ni chydymffurfiodd y Cyngor â rheolau caffael

### Yn 2018-19, fe ymrwymodd y Cyngor i bedwar contract â gwerthoedd o fwy na £1,000

189 Fel a nodir ym **mharagraffau 184 i 186**, roedd rheolau sefydlog y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau ar gyfer cyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau a chyflawni gwaith yr amcangyfrifir bod eu gwerth yn fwy na £10,000 gael eu caffael ar sail proses dendro ffurfiol. Nid yw'r rheolau sefydlog yn nodi sut oedd caffael contractau â gwerth o lai na £10,000.

190 Yn ystod blwyddyn gyfrifyddu 2018-19, ni ddyfarnodd y Cyngor unrhyw gontractau â gwerth o fwy na £10,000 ac felly nid oedd yn ofynnol dan ei reolau sefydlog ei fod yn ceisio tendrau ffurfiol ar gyfer unrhyw gontractau a ddyfarnwyd yn 2018-19. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau ei fod yn gallu dangos darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio'i adnoddau. Felly roedd yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod y pris a dalwyd am gaffael nwyddau a gwasanaethau a chyflawni gwaith yn gystadleuol. Mae llawer o gynghorau lleol yn bodloni'r gofyniad hwn trwy geisio amcan brisiau neu ddyfynbrisiau gan nifer o gyflenwyr posibl.

191 Yn ystod 2018-19, dyfarnodd y Cyngor bedwar contract â gwerth o fwy na £1,000. Roedd y contractau hyn ar gyfer:

- ail-osod ffens o amgylch tir a adwaenir fel 'y maes hamdden'
- gosod meinciau eistedd
- atgyweirio/adnewyddu cysgodfannau bysiau
- adnewyddu blwch ffôn a gosod diffibriliwr ynddo

192 Fel rhan o'r archwiliad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19, gofynnodd fy archwilwyr am dystiolaeth i ddangos sut y cafodd y contractau hyn eu caffael. Darparodd y Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol hysbysiadau ar gyfer fy archwilwyr a oedd yn gwahodd tendrau ar gyfer tri o'r contractau hyn, a dywedodd Cadeirydd y Cyngor wrth fy archwilwyr ei fod wedi hysbysebu'r cyfleoedd hyn i ennill contractau trwy osod yr hysbysiadau tendr ar hysbysfwrdd cymunedol. O ran y pedwerydd contract, y contract i ailosod ffens o amgylch y tir a adwaenir fel 'y maes hamdden', ni chafodd fy archwilwyr unrhyw dystiolaeth o'r modd yr oedd y contract wedi cael ei gaffael.

193 Mae gennyf bryderon sylweddol ynghylch y broses gaffael a arweiniodd at ddyfarnu pob un o'r pedwar contract, fel a nodir isod.

### Talodd y Cyngor £1,694.80 am atgyweirio ffens o amgylch llain o dir a adwaenir fel y maes hamdden ond nid yw'n gallu dangos ei fod wedi cael gwerth am arian o'r contract hwn

194 Ym mis Mawrth 2019, talodd y Cyngor £1,694.80 am atgyweirio llain o dir a adwaenir fel y maes hamdden. Pan ddechreuais fy archwiliad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19, rhoddodd Cadeirydd y Cyngor a'i Glerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol blaenorol wybod i aelodau fy nhîm archwilio nad oeddent yn gwybod beth oedd buddiant y Cyngor yn y tir yma. Nid oedd yn glir iddynt pwy oedd yn berchen ar y tir, er eu bod yn credu ei bod yn bosibl bod y tir yn cael ei

ddal mewn ymddiriedolaeth ar ran cymuned Sant Harmon, ac y gallai'r Cyngor fod yn ymddiriedolwr corfforaethol. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi rhoi prydles ar y tir ar gyfer hawliau pori am dâl blynyddol o £200 y flwyddyn (£275 o 1 Mawrth 2019). Nid yw'n glir i mi pam fod y Cyngor wedi penderfynu ysgwyddo gwariant ar osod ffens o amgylch y tir, (neu roi prydles ar y tir), pan nad oedd yn gwybod a oedd ganddo fuddiant yn y tir.

195 Pan godwyd y mater hwn gyda Chadeirydd a Chlerc blaenorol y Cyngor, fe gyflwynodd y Cyngor ymholiadau i Gofrestrfa Tir EM a ddarparodd ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod y tir yn eiddo i'r Cyngor ac nad yw'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth.

196 Ar ryw bwynt tuag at ddechrau blwyddyn gyfrifyddu 2018-19, canfu'r Cyngor fod angen atgyweirio'r ffens o gwmpas y tir. Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2018 yn nodi 'Archwiliad Blynyddol o'r Maes hamdden – [Cynghorydd a enwir] i fynd ar ôl dyfynbris ar gyfer gwaith atgyweirio'. Nid yw'n glir i mi pwy ofynnodd i'r cynghorydd hwn gael dyfynbris ar gyfer atgyweirio'r ffens, a'm disgwyliad i yw, lle mae dyfynbrisiau'n ofynnol i gaffael gwasanaeth, mai Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor ac nid aelodau unigol o'r Cyngor ddylai gael dyfynbrisiau.

197 Mae cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mehefin, mis Medi a mis Hydref 2018 yn nodi nad oedd y Cynghorydd wedi cael dyfynbris ar gyfer y gwaith eto. Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2018 yn nodi bod [y Cynghorydd] 'heb gael dyfynbris eto ar gyfer atgyweirio ymylwaith/ffens, eglurwyd na ellir gwneud gwaith nes cyflwynir dyfynbris i'r cynghorwyr i gael ei gymeradwyo. Awgrymwyd efallai cael dyfynbris i newid y ffens i gyd gan ei bod yn ymddangos bod llawer o byst a darnau o ffens sydd wedi pydru'.

198 Er bod y Cyngor yn cydnabod na allai gwaith fynd yn ei flaen nes bod y Cyngor wedi cymeradwyo dyfynbris, fe aeth gwaith yn ei flaen, ac fe anfonwyd anfoneb â'r dyddiad 10 Ionawr 2019 arni at y Cyngor ar gyfer taliad. Dywedwyd wrth fy archwilwyr fod y cynghorydd dan sylw wedi canfod contractwr a oedd yn fodlon gwneud y gwaith. Fodd bynnag, ar ôl archwilio'r ffens, fe wnaeth y contractwr y gwaith atgyweirio heb ddarparu dyfynbris.

199 Nid oedd y Cyngor yn gallu talu'r anfoneb oherwydd am resymau nad wyf wedi'u harchwilio, fe gaeodd bancwyr y Cyngor gyfrifon banc y Cyngor (mae'r Cadeirydd wedi dweud wrth fy archwilwyr i bod y cyfrifon wedi cael eu cau oherwydd gwall gan y banc). Fodd bynnag, fe wnaeth aelod arall o'r Cyngor daliad i'r contractwr allan o'i gyfrif banc ei hun i setlo'r anfoneb. Dywedodd y Cynghorydd a wnaeth y taliad wrth fy archwilwyr ei fod wedi gwneud y taliad am bod y contractwr yn hunangyflogedig ac yn dibynnu ar gael tâl yn brydlon. Rwy'n nodi, ar 20 Ionawr 2019, bod y Cadeirydd a Chlerc blaenorol y Cyngor wedi ysgrifennu at y Cynghorydd a wnaeth y taliad gan ddweud 'ar ran Cyngor Cymuned Sant Harmon rydym yn ysgrifennu'r llythyr hwn i gydnabod eich bod wedi talu anfoneb o'ch cyfrif personol am atgyweiriadau i ffens [y] maes hamdden a oedd yn gyfanswm o £1694.80. Pwrpas y llythyr hwn yw cytuno y bydd y swm yma'n cael ei dalu'n ôl i chi unwaith y bydd y materion gyda'r banc wedi cael eu cywiro'. Rwy'n ystyried nad oedd gan y Cadeirydd a'r Clerc blaenorol unrhyw awdurdod i anfon y llythyr hwn o ystyried bod y gwaith wedi cael ei wneud heb gymeradwyaeth y Cyngor ac nad oedd unrhyw daliad wedi cael ei awdurdodi gan un o gyfarfodydd y Cyngor.

200 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2019 yn nodi ‘anfoneb oddi wrth [gontractwr] am osod ffens mewn cae – fe wnaeth [Cadeirydd y Cyngor] atgoffa’r holl Gynghorwyr y byddai’r swm yma’n clirio ein cyfrif Maes Hamdden. Cytunodd y Cynghorwyr i dalu’r anfoneb am £1694.80’. Nid yw’r cofnodion yn nodi bod y gwaith heb gael ei dendro na bod y Cyngor heb gymeradwyo dyfynbris. Nid yw’r cofnodion yn cyfeirio o gwbl at y ffaith bod y contractwr eisoes wedi cael tâl heb gymeradwyaeth y Cyngor gan un o’r cynghorwyr, a bod y Clerc blaenorol a’r Cadeirydd wedi sicrhau’r aelod hwnnw y byddai’n cael ad-daliad, er nad oedd unrhyw awdurdod gan y Clerc a’r Cadeirydd i ddarparu’r sicrwydd hwn.

201 Rwy’n ystyried bod y ffordd y gwnaeth y Cyngor gaffael y contract i atgyweirio’r maes hamdden a thalu amdano yn hynod afreolaidd ac yn awr nid yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi cael gwerth am arian mewn perthynas â'r contract hwn.

## Mae Cadeirydd a Chlerc y Cyngor wedi methu â darparu esboniad cyson o’r modd y cafodd gwasanaeth contractwr i osod meinciau eistedd newydd yn ardal y gymuned ei gaffael ac o ganlyniad nid yw’r Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi sicrhau gwerth am arian o’r contract hwn

202 Yn ystod blwyddyn gyfrifyddu 2017-18, darparodd Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol blaenorol y Cyngor dystiolaeth ar gyfer fy archwilwyr bod y Cyngor wedi gofyn yn ffurfiol am dendrau ar gyfer gosod meinciau eistedd newydd yn ardal y Cyngor. Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2018 yn nodi bod y Cyngor wedi cymeradwyo prynu tair mainc y byddai angen eu gosod.

203 Dywedodd Cadeirydd y Cyngor, y Cadeirydd, wrth aelodau o’m tîm archwilio fod y Cyngor, ar ryw adeg ym mis Chwefror 2018, wedi cyhoeddi hysbysiad tendro ar gyfer y cyfle hwn i ennill contract a’i fod ef yn bersonol wedi gosod yr hysbysiad a oedd yn cynnwys gwahoddiad i dendro ar hysbysfyrddau cymunedol yn ardal y Cyngor.

204 Mae’r Cyngor wedi darparu copi o’r hysbysiad ar fy nghyfer. Yn fy marn i, mae’r hysbysiad yn gwbl annigonol, ac mae’n methu â chydymffurfio â rheolau sefydlog y Cyngor am y rhesymau canlynol:

- nid oes dyddiad ar yr hysbysiad.
- nid yw’r hysbysiad yn nodi dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Mae’r rheolau sefydlog yn nodi ‘dylai tendrau gael eu hanfon, mewn amlen wedi’i marcio a’i selio, at y Swyddog Priodol erbyn dyddiad ac amser a nodir’.
- nid yw’r hysbysiad yn nodi y dylid cyflwyno tendrau mewn amlenni wedi’u selio ac wedi’u marcio felly, fel sy’n ofynnol yn ôl y rheolau sefydlog.
- nid yw’r hysbysiad yn nodi nifer y meinciau, y math o feinciau na lleoliad y meinciau sydd i’w gosod a sut yr oedd yn ofynnol iddynt gael eu gosod yn sownd. Mae rheolau sefydlog y Cyngor yn nodi y ‘dylid llunio manyleb o’r nwyddau, y deunyddiau, y gwasanaethau a’r gwaith sydd i’w gyflawni’.
- nid yw’r hysbysiad yn nodi pa un a ddylai tendrwyr dendro trwy roi pris sy’n cynnwys treth ai peidio.
- mae’r hysbysiad yn nodi y gallai tendrau gael eu cyflwyno trwy wefan y Cyngor. Mae’n nodi hyn er gwaethaf y ffaith bod rheolau sefydlog y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol

cyflwyno tendrau i'r Clerc mewn amlenni wedi'u marcio a'u selio, gyda'r holl dendrau'n cael eu hagor ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Gallai'r gofynion hyn fod wedi cael eu hateb pe bai tendrau'n cael eu cyflwyno trwy wefan y Cyngor.

205 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 27 Mawrth 2018 yn nodi 'meinciau – dywedodd y cadeirydd [Y Cynghorydd Donald Jenkins] ei fod wedi cael y meinciau ac fe gytunodd i gysylltu â [chontractwr preifat] mewn perthynas â'u gosod yn sownd'. Nid yw'n glir i mi pam fod Cadeirydd y Cyngor wedi penderfynu cysylltu ag un contractwr mewn perthynas â gosod y meinciau'n sownd os oedd proses dendro ar gyfer gosod y meinciau'n sownd eisoes yn mynd rhagddi. Gŵr i un o'r rhai a oedd yn gwasanaethu fel aelod o'r Cyngor oedd y contractwr dan sylw. Rwy'n nodi bod yr aelod dan sylw'n datgan ei buddiant yn gyson pan oedd ei gŵr yn gwneud gwaith i'r Cyngor am dâl.

206 Cyflwynodd y contractwr amcangyfrif dyddiedig Ebrill 2018 i'r Cyngor am osod y meinciau'n sownd. Roedd yr amcangyfrif am £800 (£600 am lafur a £200 am ddeunyddiau).

207 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2018 yn nodi 'meinciau – [contractwr y cysylltodd y Cadeirydd ag ef] wedi'i benodi a bydd gwaith yn dechrau pan fydd y tywydd yn caniatáu'. Nid yw'n glir o'r cofnodion a roddodd y Cyngor gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract, ynteu a gafodd y Cyngor yn syml ei hysbysu ynghylch y penodiad. Nid yw'r cofnodion yn nodi swm yr amcangyfrif a gyflwynwyd gan y contractwr, er bod angen yr wybodaeth hon er mwyn i'r aelodau benderfynu derbyn yr amcangyfrif neu beidio.

208 Mae'n amlwg bod cytundeb wedi'i wneud gyda'r contractwr y byddai'r Cyngor yn talu am y deunyddiau a oedd yn ofynnol i gwblhau'r gwaith er bod ei dendr yn nodi y byddai'n darparu llafur a'r deunyddiau a'i fod ef ei hun wedi archebu'r deunyddiau. Ni chafodd y trefniant hwn ei awdurdodi yn un o gyfarfodydd y Cyngor. Rwy'n ystyried ei bod yn debygol bod naill ai Clerc neu Gadeirydd y Cyngor wedi cytuno ar hyn gyda'r contractwr. Ar 30 Mai 2018, talodd y Cyngor £600 i'r contractwr am ei lafur ac ar 12 Mehefin 2018 talodd £186.06 i gyflenwyr deunyddiau adeiladu am y deunyddiau a brynwyd gan y contractwr. Fe wnaeth y Cyngor adennill y TAW yr oedd wedi'i thalu ar yr anfonebau am ddeunyddiau adeiladu gan Cyllid a Thollau EM er ei fod wedi talu am y deunyddiau ar ran y contractwr.

209 Ar 18 Tachwedd 2020, fe ysgrifennodd fy archwilwyr at Gadeirydd y Cyngor i ofyn am gadarnhad ynghylch sut y cafodd y contract ei gaffael. Ar 14 Rhagfyr 2020, fe ymatebodd y Cadeirydd gan ddatgan 'roedd y meinciau a'r cysgodfannau bysiau [**gweler paragraffau 224 i 239** isod ar gyfer y contract i adnewyddu'r cysgodfannau bysiau] wedi bod ar agenda'r Cyngor am nifer o flynyddoedd, gyda gwasanaeth contractwr yn cael ei sicrhau i atgyweirio'r ddau, nid oes tystiolaeth bod tendrau wedi cael eu ceisio ar gyfer y gwaith yma a oedd cyn i mi gyrraedd ar y Cyngor. Buwyd yn trafod [y meinciau a'r cysgodfannau bysiau] yn barhaus trwy 2017 ac i mewn i [2018]. Bu ymgeisiau aflwyddiannus gan y clerc/cadeirydd blaenorol a minnau a'r [Clerc nesaf] i gysylltu â'r contractwr i gael diweddariad am y gwaith a oedd yn mynd rhagddo, problem gyda gwaith a wnaed a dyddiad gorffen, ond bob tro ni chawsom unrhyw ymateb. Fe wnaeth y Cyngor y penderfyniad yn hwyr yn 2017 i ddisodli'r meinciau'.

210 Fodd bynnag, roedd ymateb y Cadeirydd ar 14 Rhagfyr 2020 yn ymwneud ag ymarfer caffael aflwyddiannus blaenorol, ac nid y broses gaffael y cyfeirir ati ym mharagraffau 201 i 205 yn yr adroddiad hwn, a ddigwyddodd tra'r oedd y Cadeirydd yn Gadeirydd y Cyngor. Felly nid oedd

ei sylwadau'n berthnasol i'r contract a gafodd ei gaffael yn 2018 ac y mae'r ddogfen hon yn cyfeirio ato.

211 Mae gennyf bryder sylweddol ynghylch sut y cafodd y contract i roi meinciau cymunedol yn sownd ei gaffael yn gynnar yn 2018. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'm harchwilwyr yn flaenorol bod y Cyngor wedi ceisio tendrau i osod y meinciau'n sownd (ac atgyweirio cysgodfannau bysiau) a'i fod ef yn bersonol wedi gosod hysbysiadau tendro ar hysbysfyrddau yn y gymuned. Ar ben hynny, darparodd y Clerc blaenorol gopïau o'r hysbysiadau tendro yr oedd hi'n taeru eu bod wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer fy archwilwyr Fodd bynnag,

- nid yw cofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn yn nodi bod tendrau wedi cael eu ceisio ar gyfer y contract hwn.
- mae cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 27 Mawrth 2018 yn nodi 'meinciau – dywedodd y cadeirydd [Y Cynghorydd Donald Jenkins] ei fod wedi cael y meinciau ac fe gytunodd i gysylltu â [chontractwr preifat] mewn perthynas â'u gosod yn sownd'. Os oedd tendr wedi cael ei gyhoeddi yn ceisio tendrwyr i osod meinciau'n sownd, byddai wedi bod yn gwbl amhriodol i'r Cadeirydd gysylltu ag un contractwr i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

212 Ni allaf fod yn sicr sut y gwnaeth y Cyngor gaffael gwasanaeth y contractwr a osododd y meinciau'n sownd ac a gafodd ei wasanaeth ei gaffael mewn modd cystadleuol. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi cael gwerth am arian mewn perthynas â'r contract hwn. At ei gilydd, rwy'n ystyried ei bod yn annhebygol bod tendrau wedi cael eu ceisio ar gyfer y gwasanaeth hwn, ac mai ymgais i gamarwain fy archwilwyr bod tendrau wedi cael eu ceisio oedd yr hysbysiad tendro a gyflwynwyd i gael ei archwilio.

## Wrth gaffael contract i adnewyddu blwch ffôn a gosod diffibriliwr ynddo, ni fanylwyd yn ddigonol ar y gwasanaeth a oedd yn ofynnol ac fe dorrodd y broses gaffael reolau sefydlog y Cyngor ei hun

213 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018 yn nodi bod blwch ffôn a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw gan y Cyngor wedi cael ei ddifrodi ac y byddai angen ei atgyweirio. Ar ôl trafodaethau pellach a gynhaliwyd yng nghyfarfodydd y Cyngor ym mis Ebrill a mis Mai 2018 fe benderfynwyd archwilio'r posibilrwydd o adnewyddu'r blwch ffôn a gosod diffibriliwr ynddo, ac y byddai'r Cyngor yn cynnal proses dendro ar gyfer y gwaith.

214 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018 yn nodi bod hysbysiad tendro wedi cael ei gyhoeddi a bod 31 Gorffennaf 2018 wedi cael ei bennu fel y terfyn amser ar gyfer derbyn tendrau. Mae'r cofnodion hefyd yn nodi bod grant wedi cael ei geisio i brynu diffibriliwr.

215 Mae Clerc y Cyngor wedi darparu copïau ar gyfer fy archwilwyr o'r hysbysiad tendro y dywedwyd wrth fy archwilwyr ei fod wedi cael ei gyhoeddi ar hysbysfyrddau yn ardal y Cyngor.

216 Mae'r hysbysiad tendro'n nodi 'Blwch Ffôn Sant Harmon, fe hoffem wahodd tendrau ar gyfer y gwaith canlynol:

- ailaddurno ac adnewyddu
- silffoedd llyfrau i gael eu gwneud/gosod y tu mewn

- cwpwrdd i gael ei wneud/ei osod yn sownd i ddal diffibriliwr’

217 Mae’r hysbysiad tendro’n nodi y dylai tendrau gael eu cyflwyno i Glerc blaenorol y Cyngor, Ms West, yn ei chyfeiriad post, neu dros y rhyngrwyd.

218 Yn fy marn i, mae’r hysbysiad tendro’n gwbl annigonol am y rhesymau canlynol ac mae’n methu â chydymffurfio â gofynion rheolau sefydlog y Cyngor am y rhesymau canlynol:

- nid oes dyddiad ar yr hysbysiad.
- nid yw’r hysbysiad yn nodi dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Mae’r rheolau sefydlog yn nodi ‘dylai tendrau gael eu hanfon, mewn amlen wedi’i marcio a’i selio, at y Swyddog Priodol erbyn dyddiad ac amser a nodir’.
- nid yw’r hysbysiad yn nodi y dylid cyflwyno tendrau mewn amlenni wedi’u selio ac wedi’u marcio felly, fel sy’n ofynnol yn ôl y rheolau sefydlog.
- nid yw’r hysbysiad yn nodi’r gwaith adnewyddu sy’n ofynnol. Mae rheolau sefydlog y Cyngor yn nodi y ‘dylid llunio manyleb o’r nwyddau, y deunyddiau, y gwasanaethau a’r gwaith sydd i’w gyflawni’.
- nid yw’r hysbysiad yn nodi pa un a ddylai tendrwyr dendro trwy roi pris sy’n cynnwys treth ai peidio.
- mae’r hysbysiad yn nodi y gallai tendrau gael eu cyflwyno trwy wefan y Cyngor. Mae’n nodi hyn er gwaethaf y ffaith bod rheolau sefydlog y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno tendrau i’r Clerc mewn amlenni wedi’u marcio a’u selio, gyda’r holl dendrau’n cael eu hagor ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Gallai’r gofynion hyn fod wedi cael eu hateb pe bai tendrau’n cael eu cyflwyno trwy wefan y Cyngor.

219 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2018 yn nodi bod un tendr wedi dod i law oddi wrth yr un contractwr ag yr oedd y Cyngor wedi dyfarnu contract iddo ar gyfer gosod y meinciau’n sownd. £1800 oedd pris y tendr ar gyfer y blwch ffôn. Mae’r cofnodion hefyd yn nodi bod y Cyngor wedi cael grant tuag at brynu diffibriliwr ond y byddai dal angen i’r Cyngor dalu £600 tuag at ei brynu.

220 Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi bod yr aelodau’n pryderu ynghylch y gost ond ‘ar ôl trafodaeth faith/pleidlais fe gytunwyd i dderbyn y tendr’.

221 Darparodd Clerc blaenorol y Cyngor gopi ar gyfer fy archwilwyr o’r tendr a gyflwynwyd gan yr unig dendrwr. Gorffennaf 2018 yw’r dyddiad ar y tendr ac roedd y costau wedi’u rhannu yn ôl llafur (£1,600) a deunyddiau (£200).

222 Cytunwyd y byddai’r Cyngor yn talu anfonebau am brynu deunyddiau a oedd yn ofynnol i gwblhau’r gwaith er bod ei dendr yn nodi y byddai’r contractwr yn darparu llafur a’r deunyddiau a bod y contractwr wedi archebu’r deunyddiau. Ni chafodd y trefniant hwn ei awdurdodi yn un o gyfarfodydd y Cyngor. Rwy’n ystyried bod naill ai Clerc neu Gadeirydd y Cyngor wedi cytuno ar hyn gyda’r contractwr. Fe wnaeth y Cyngor adennill y TAW yr oedd wedi’i thalu ar yr anfonebau am ddeunyddiau adeiladu gan Cyllid a Thollau EM er bod y Cyngor wedi talu am y deunyddiau ar ran y contractwr.

223 Fe wnaeth ac fe gwblhaodd y contractwr y gwaith i adnewyddu’r blwch ffôn rhwng mis Awst 2018 a mis Rhagfyr 2018.

224 Talodd y Cyngor £1,700 i’r contractwr am ei lafur (£1,600 oedd y pris yn y tendr). Talodd y Cyngor £245.82 i gyflenwr deunyddiau adeiladu hefyd am y deunyddiau a archebwyd gan y contractwr (£200 oedd y pris yn y tendr). Fe ysgwyddodd y Cyngor wariant o £145.82 uwchlaw swm y tendr.

225 Rwy’n ystyried bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â’i reolau sefydlog ei hun ar gyfer contractau mewn perthynas â’r contract a ddyfarnwyd i adnewyddu’r blwch ffôn. Mae’r hysbysiad tendro’n anaddas i’w ddiben ac roedd diffyg terfyn amser ar gyfer derbyn tendrau’n golygu nad oedd yn bosibl cydymffurfio â’r gofyniad i agor yr holl dendrau wedi’u selio ar yr un pryd. Mae gennyf hefyd bryderon ynghylch y modd y mae’r Cyngor yn trin TAW ar daliadau cytundebol (**paragraffau 240 i 244**).

## Methodd Cadeirydd a Chlerc blaenorol y Cyngor â darparu esboniad credadwy na chyson o’r modd y cafodd gwasanaeth contractwr i atgyweirio dau gysgodfan bysiau yn ardal y gymuned ei gaffael ac fe gyflwynon nhw ddogfen ffug i’m harchwilwyr i ddangos bod y contract wedi cael ei ddyfarnu mewn modd cystadleuol

226 Yn ystod 2017, cydnabu’r Cyngor fod ar gysgodfannau bysiau yn Sant Harmon a Phant-y-Dŵr yr oedd yn gyfrifol am eu cynnal a’u cadw angen cael eu hadnewyddu. Yn ystod y broses archwilio, dywedodd Cadeirydd y Cyngor wrth fy archwilwyr, ar ryw adeg ym mis Rhagfyr 2017 neu fis Ionawr 2018, fod y Cyngor wedi cyhoeddi hysbysiad tendro ar hysbysfyrddau yn ardal y Cyngor yn gwahodd tendrau am y gwaith.

227 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2018 yn nodi bod ‘dyfynbrisiau wedi dod i law ar gyfer atgyweirio ac adnewyddu’r cysgodfannau bysiau ym Mhant-y-Dŵr a Sant Harmon oddi wrth [yr un contractwr ag y dyfarnwyd contractau iddo gan y Cyngor i osod meinciau’n sownd ac adnewyddu blwch ffôn]. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gyda gwaith i ddechrau cyn gynted â phosibl, a dylai Pant-y-Dŵr gael sylw yn gyntaf’.

228 Darparodd Clerc blaenorol y Cyngor gopi ar gyfer fy nhîm archwilio o'r hysbysiad tendro, ac mae Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Donald Jenkins wedi dweud wrthyf bod yr hysbysiad tendro wedi cael ei gyhoeddi ar hysbysfyrddau yn ardal y Cyngor.

229 Mae’r hysbysiad tendro’n nodi ‘Cysgodfan Bysiau Sant Harmon, hoffem wahodd tendrau ar gyfer y canlynol: ailaddurno ac adnewyddu cysgodfannau bysiau:

230 Mae’r hysbysiad tendro’n nodi y dylai tendrau gael eu cyflwyno i’r Clerc, Ms West, yn ei chyfeiriad post, neu drwy wefan y Cyngor.

231 Yn fy marn i, mae’r hysbysiad tendro’n gwbl annigonol ac mae’n methu â chydymffurfio â gofynion rheolau sefydlog y Cyngor am y rhesymau canlynol:

- nid oes dyddiad ar yr hysbysiad.
- nid yw’r hysbysiad yn nodi dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Mae’r rheolau sefydlog yn nodi ‘dylai tendrau gael eu hanfon, mewn amlen wedi’i marcio a’i selio, at y Swyddog Priodol erbyn dyddiad ac amser a nodir’.
- nid yw’r hysbysiad yn nodi y dylid cyflwyno tendrau mewn amlenni wedi’u selio ac wedi’u marcio felly, fel sy’n ofynnol yn ôl y rheolau sefydlog.

- nid yw'r hysbysiad yn manylu ar y gwaith na'r deunyddiau sy'n ofynnol na faint o gysgodfannau bysiau y mae angen eu hadnewyddu. Mae rheolau sefydlog y Cyngor yn nodi y 'dylid llunio manyleb o'r nwyddau, y deunyddiau, y gwasanaethau a'r gwaith sydd i'w gyflawni'.
- nid yw'r hysbysiad yn nodi pa un a ddylai tendrwyr dendro trwy roi pris sy'n cynnwys treth ai peidio.
- mae'r hysbysiad yn nodi y gallai tendrau gael eu cyflwyno trwy wefan y Cyngor. Mae'n nodi hyn er gwaethaf y ffaith bod rheolau sefydlog y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno tendrau i'r Clerc mewn amlenni wedi'u marcio a'u selio, gyda'r holl dendrau'n cael eu hagor ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Gallai'r gofynion hyn fod wedi cael eu hateb pe bai tendrau'n cael eu cyflwyno trwy wefan y Cyngor.

232 Wrth archwilio'r hysbysiad tendro a ddarparwyd gan y Clerc blaenorol, Ms West, nododd fy archwilwyr fod yr hysbysiad tendro'n datgan y dylai tendrau ar gyfer adnewyddu'r cysgodfannau bysiau gael eu cyflwyno i Ms West yn ei chyfeiriad post, neu drwy wefan y Cyngor. Fodd bynnag, nid oedd Ms West wedi cael ei phenodi'n Glerc y Cyngor ar yr adeg yr oedd yr hysbysiad tendro wedi cael ei gyhoeddi fel y tybiwyd.

233 Fe wnaeth fy archwilydd gwestiynu Cadeirydd a Chlerc blaenorol y Cyngor ynghylch yr anghysondeb hwn. Nid oeddent yn gallu egluro pam fod Ms West yn cael ei henwi ar y ddogfen. Fodd bynnag, roedd y Cadeirydd yn taeru ei fod ef yn bersonol wedi gosod yr hysbysiad tendro ar hysbysfyrddau cymunedol yn ardal y Cyngor.

234 Mae Ms West wedi darparu dwy ddogfen ar fy nghyfer oddi wrth y contractwr dan sylw, dyddiedig Ionawr 2018. Mae un ddogfen yn amcangyfrif ar gyfer adnewyddu cysgodfan bysiau Sant Harmon ac mae'r ail ddogfen ar gyfer adnewyddu cysgodfan bysiau Pant-y-Dŵr. £3,350 yw'r pris cyfunol (£2,150 am lafur a £1,400 am ddeunyddiau)

235 Nid yw cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 30 Ionawr 2018 yn dynodi bod aelodau wedi cael gwybod gwerth y tendrau a gyflwynwyr gan y contractwr.

236 Fe wnaed cytundeb gyda'r contractwr y byddai'r Cyngor yn talu am y deunyddiau a oedd yn ofynnol i gwblhau'r gwaith er bod y tendr a gyflwynwyd gan y contractwr yn nodi y byddai'r contractwr yn darparu llafur a'r deunyddiau a'i fod ef ei hun wedi archebu'r deunyddiau. Ni chafodd y trefniant hwn ei awdurdodi yn un o gyfarfodydd y Cyngor. Rwy'n ystyried bod naill ai Clerc neu Gadeirydd y Cyngor wedi cytuno ar hyn gyda'r contractwr. Fe wnaeth y Cyngor adennill y TAW yr oedd wedi'i thalu ar yr anfonebau am ddeunyddiau adeiladu gan Cyllid a Thollau EM er ei fod wedi talu am y deunyddiau ar ran y contractwr.

237 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018 yn nodi 'Cysgodfannau bysiau – [yr unig gontractwr a oedd wedi cyflwyno tendr] wedi'i benodi. Wedi gofyn am arian rhag blaen, wedi cytuno ar £500 ar ddechrau'r gwaith, angen cytuno ar y dyddiad dechrau/cwblhau'. Er bod y cofnodion yn nodi bod y contractwr wedi'i benodi, roedd y penderfyniad eisoes wedi'i wneud yng nghyfarfod y Cyngor ar 30 Ionawr 2018. Rwy'n nodi penderfyniad y Cyngor i wneud taliad rhag blaen o £500 i'r contractwr. Nid wyf yn ystyried bod hyn yn arfer da gan ei fod yn creu risg ariannol ddiangen i'r Cyngor.

238 Ni ddechreuodd y contractwr weithio ar y cysgodfannau bysiau tan fis Mai 2018. Ar 21 Mai 2018, fe wnaeth y Cyngor daliad rhag blaen o £500 i'r contractwr a thaliad terfynol o £1,900 ar 27 Mehefin 2018. Roedd y taliadau hyn, a oedd yn gyfanswm o £2,400, yn ymwneud â chostau llafur. Roedd y contractwr wedi nodi costau llafur o £2,150 yn ei dendr. Talodd y Cyngor £1,250.04 i gyflenwyr deunyddiau adeiladu hefyd am y deunyddiau a brynwyd gan y contractwr, o'i gymharu â'r swm a nodwyd yn y tendr gan y contractwr.

239 Ar 18 Tachwedd 2020, fe ysgrifennodd fy archwilwyr at Gadeirydd y Cyngor i geisio cadarnhad ynghylch sut y cafodd y contract ei gaffael. Ar 14 Rhagfyr 2020, fe ymatebodd y Cadeirydd gan ddweud bod adnewyddu'r cysgodfannau bysiau wedi bod ar agenda'r Cyngor am nifer o flynyddoedd, gyda gwasanaeth contractwr yn cael ei sicrhau ar gyfer y gwaith, ond 'nid oes tystiolaeth bod tendrau wedi cael eu ceisio ar gyfer y gwaith yma a oedd cyn i mi gyrraedd ar y Cyngor. Buwyd yn trafod [adnewyddu'r cysgodfannau bysiau] yn barhaus trwy 2017 ac i mewn i [2018]. Bu ymgeisiau aflwyddiannus gan y clerc/cadeirydd blaenorol a minnau a'r [Clerc nesaf] i gysylltu â'r contractwr i gael diweddariad am y gwaith a oedd yn mynd rhagddo, problem gyda gwaith a wnaed a dyddiad gorffen, ond bob tro ni chawsom unrhyw ymateb.

240 Rwy'n ystyried nad yw sylwadau'r Cadeirydd ar y mater hwn yn gredadwy am y rhesymau canlynol:

- hysbysodd y Cadeirydd fy archwilwyr yn flaenorol ei fod ef yn bersonol wedi gosod hysbysiadau tendro ar hysbysfyrddau yn y gymuned. Ar ben hynny, darparodd y Clerc blaenorol gopi ar gyfer fy archwilwyr o'r hysbysiad tendro yr oedd hi'n haeru ei fod wedi cael ei gyhoeddi. Mae esboniad diweddaraf y Cadeirydd na cheisiwyd tendrau mewn gwirionedd yn anghyson â'i gyfrif cynharach. Rwyf wedi fy argyhoeddi nad oedd yr hysbysiad tendro a anfonwyd at fy archwilwyr yn ddogfen ddilys, ac na allai fod wedi bod yn ddogfen ddilys, am y rheswm a nodir ym **mharagraffau 230 i 231**. Rwy'n ystyried ei bod yn debygol bod y ddogfen hon wedi cael ei darparu ar gyfer fy archwilwyr gyda'r bwriad o gamarwain fy archwilwyr bod y contract wedi cael ei ddyfarnu ar sail gystadleuol.
- yng ngohebiaeth y Cadeirydd, dyddiedig 14 Rhagfyr 2020, mae'n haeru bod y Cyngor wedi sicrhau gwasanaeth contractwr i adnewyddu'r cysgodfannau bysiau cyn iddo 'gyrraedd ar y Cyngor'. Mae'n haeru, yn ystod 2017 a 2018, fod y Cadeirydd a'r Clerc blaenorol wedi ceisio, yn aflwyddiannus, 'cysylltu â'r contractwr i gael diweddariad am y gwaith a oedd yn mynd rhagddo, problem gyda gwaith a wnaed a dyddiad gorffen'. Mae'r esboniad hwn yn anghyson â chofnodion y Cyngor ei hun. Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018 yn nodi bod y contractwr wedi'i benodi ar y dyddiad hwnnw. Ymunodd y Cadeirydd â'r Cyngor ar 16 Mai 2017 ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd y Cyngor yn ddiweddarach y flwyddyn honno.

241 Wrth ddarparu dogfen ffug at ddiben archwilio ac wrth fethu â darparu esboniadau cywir ar gyfer fy archwilwyr, rwy'n ystyried bod ymddygiad y Cadeirydd a'r Clerc blaenorol mewn perthynas â'r mater hwn ymhell o fod wedi cyrraedd y safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl.

## Roedd trefniant y Cyngor i dalu anfonebau am ddeunyddiau ar ran un o gontractwyr y Cyngor yn afreolaidd gan arwain at fantais ariannol i'r contractwr a cholled i Cyllid a Thollau EM

242 Gall cynghorau cymuned adennill TAW a dalwyd gan y Cyngor wrth brynu nwyddau, gwasanaethau ac wrth dalu am gyflawni gwaith cyhoeddus trwy ei adhawlio gan Cyllid a Thollau EM. Ni all cynghorau cymuned adhawlio TAW ar ran sefydliadau eraill ac ni all ymrwymo i drefniadau gweinyddol i dalu anfonebau ar ran sefydliadau eraill i osgoi sefyllfa lle mae'n rhaid i'r sefydliadau hynny dalu TAW.

243 Yn ystod 2017-18 a 2018-19, fe ymrwymodd y Cyngor i dri chontract gydag un contractwr. Roedd y contractau hyn yn rhai ar gyfer:

- adnewyddu dau gysgodfan bysiau;
- gosod tair mainc eistedd yn eu lle; ac
- adnewyddu blwch ffôn

244 Yn ystod 2018-19, fe wnaeth y Cyngor daliadau mewn perthynas â'r contractau hyn a oedd yn gyfanswm o £6,382.28. Darparodd y contractwr amcangyfrifon/tendrau ar gyfer pob un o'r contractau a oedd yn cynnwys llafur a deunyddiau. Gan bod y contractwr wedi tendro am y contractau ar y sail y byddai'n cyflenwi llafur a'r deunyddiau, byddwn wedi disgwyl iddo fod wedi prynu'r deunyddiau ac anfonebu'r Cyngor am y pris a nodwyd yn ei dendr ar gyfer pob contract i wneud gwaith.

245 Fe wnaeth y contractwr archebu a chasglu'r deunyddiau gan gyflenwyr deunyddiau adeiladu ond gofynnodd iddynt anfon yr anfonebau am y deunyddiau hyn at y Cyngor i gael eu talu. Roedd yr anfonebau gan y cyflenwyr deunyddiau adeiladu'n cynnwys TAW. Wedyn fe wnaeth y Cyngor adennill y TAW yr oedd wedi'i thalu gan Cyllid a Thollau EM. Nid oedd y contractwr yn gallu adennill y TAW ar yr anfonebau hyn am nad oedd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Er bod y trefniant hwn yn niwtral o ran cost i'r Cyngor, fe wnaeth y contractwr osgoi talu TAW a oedd yn gyfanswm o £280.33 ar ei bryniannau ei hun gan arwain at golled i bwrs y wlad. Fe wnaeth y contractwr anfonebu'r Cyngor ar wahân am ei gostau llafur.

246 Rwy'n ansicr pwy yn y Cyngor gytunodd y byddai'r Cyngor yn talu anfonebau ar ran y contractwr. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd y Cyngor bod yr aelodau, a hwythau'n cyfarfod ar y cyd, wedi cytuno â'r trefniant hwn. Rwy'n ystyried ei bod yn debygol bod naill ai Cadeirydd y Cyngor neu ei Glerc blaenorol wedi cytuno ar y trefniant hwn gyda'r contractwr. Yn fy marn i, nid oedd gan y Cyngor unrhyw bŵer i adhawlio TAW gan Cyllid a Thollau EM ar wariant a oedd yn ymwneud â pharti arall. Rwy'n ystyried bod gweithredoedd y Cyngor i adhawlio TAW ar ran trydydd parti'n amhriodol ac yn anghyfreithlon.

# Roedd trefniadau rheoli a phrosesau penderfynu'r Cyngor mewn perthynas â chynllun grantiau cymunedol yn sylfaenol wallus ac fe allai fod wedi bod yn anghyfreithlon

247 Yn ystod 2018-19 cafodd y Cyngor gyllid o £4,390 gan y fferm wynt. Yn 2019-20 cafodd y Cyngor gyllid pellach gan y fferm wynt a oedd yn gyfanswm o £12,375.

248 Penderfynodd y Cyngor y dylai'r cyllid a gafwyd gael ei ddosbarthu i grwpiau cymunedol lleol trwy 'Grant Cronfa Gymunedol'.

249 Yn ystod yr archwiliad, cafodd fy archwilwyr ohebiaeth a oedd yn codi pryderon ynghylch gweinyddu'r cynllun grant cymunedol, ac yn arbennig ynghylch y ffordd y gwnaeth yr aelodau benderfynu, yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2019, dyfarnu grantiau cymunedol.

250 Cynhaliodd fy archwilwyr ymholiadau archwilio i'r materion a godwyd. Ym mis Hydref 2019, fe ysgrifennodd fy archwilwyr at y Cyngor gan nodi nifer o bryderon difrifol ynghylch y ffordd yr oedd y Cyngor yn gweinyddu'r Cynllun Grantiau Cymunedol, a chan nodi argymhellion ar gyfer gwella gweithrediad y Gronfa. Roedd y pryderon hyn fel a ganlyn:

- methodd y Cyngor â sefydlu polisi neu weithdrefn wedi'i d(d)ogfennu ar gyfer gweithrediad y cynllun grantiau cymunedol;
- nid oedd gan y Cyngor bolisi cytunedig ar gyfer cyllid grant a oedd yn cwmpasu materion megis meini prawf cymhwystra, telerau ac amodau cyllid grant, mesurau asesu a.y.b.; ac
- roedd y broses ar gyfer ymgeisio am grantiau'n un a gynlluniwyd yn wael ac a roddwyd ar waith mewn modd anghyson.

251 Roedd y sail i benderfyniad y Cyngor ynglŷn â pha geisiadau ddylai gael eu cymeradwyo ar gyfer cyllid yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2019 yn wrthyn, yn annheg ac fe allai fod wedi bod yn anghyfreithlon. Ar ôl cael yr ohebiaeth gan fy archwilwyr, fe benderfynodd y Cyngor beidio â gwneud y taliadau grant a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 3 Hydref ac mae wedi cymryd camau i ymdrin â'r argymhellion archwilio sy'n ymwneud â gweinyddu a gweithrediad y cynllun grantiau cymunedol.

## Roedd y broses a arweiniodd at gyfethol dau aelod newydd i'r Cyngor ym mis Chwefror 2019 yn sylfaenol wallus ac fe gyfranogodd y Cadeirydd a chynghorydd arall yn y broses er gwaethaf gwrthdaro buddiannau am bod ganddynt fuddiannau personol a buddiannau a oedd yn rhagfarnu yn y canlyniad

### Fe benderfynodd Cadeirydd a Chlerc blaenorol y Cyngor, yn amhriodol, dderbyn cais i gael ei chyfethol gan wraig y Cadeirydd er ei bod wedi ymgeisio ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau

252 Ar 25 Medi 2018, mae cofnodion cyfarfod y Cyngor llawn yn nodi bod y Cyngor yn ceisio llenwi dau le gwag ar gyfer cynghorwyr. Wedi hynny gosododd y Cyngor hysbysiad cyhoeddus o'i fwriad i gyfethol dau gynghorydd newydd ar gyfer Ward Cymuned Sant Harmon. Roedd pobl a chanddynt ddiddordeb yn cael ei gwahodd i gysylltu â Chlerc y Cyngor ar y pryd i gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno cais i gael eu cyfethol. Pennwyd 30 Tachwedd 2018 fel y dyddiad cau i bobl gyflwyno ceisiadau i gael eu cyfethol. Trefnodd y Cyngor fore agored ar gyfer 10 Tachwedd 2018 gyda golwg ar gyfethol pobl a chanddynt ddiddordeb fel aelodau o'r Cyngor.

253 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor llawn a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2018 yn nodi 'cawsom 4 o bobl yn mynegi diddordeb yn y lleoedd gwag ar gyfer Cynghorwyr; cytunwyd cyfweld â phob ymgeisydd. [y Clerc] i ysgrifennu at yr holl ymgeiswyr i'w gwahodd am gyfweliadau ar ddydd Sadwrn 26 Ionawr [2019]'.

254 Darparodd y Clerc blaenorol ddogfennau ar gyfer fy archwilwyr a oedd yn dwyn y teitl 'Ffurflen Ymholiad Cynghorydd Cymuned' a gwblhawyd gan ddau ymgeisydd. Ffurflenni cais wedi'u cwblhau yw'r rhain i bob pwrpas. Darparodd y Clerc blaenorol ddogfen a oedd yn dwyn y teitl 'Pobl â Diddordeb mewn Dod yn Gynghorwyr' ar gyfer fy archwilwyr hefyd. Roedd y ddogfen hon wedi cael ei chwblhau gan y ddau ymgeisydd arall. Roedd y ddwy ddogfen yn gofyn am gwblhau'r un meysydd gwybodaeth fwy neu lai. Rwyf felly wedi fy argyhoeddi bod pedwar unigolyn wedi cyflwyno ceisiadau i gael eu hethol i'r Cyngor fel a nodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2018 (er mai 30 Tachwedd 2018 oedd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau).

255 Ar 28 Tachwedd 2018, ysgrifennodd y Clerc blaenorol at bob un o'r pedwar ymgeisydd yn ei gwahodd i ddod am gyfweliad ar 26 Ionawr 2018 ynghylch y lleoedd gwag ar gyfer Cynghorwyr.

256 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor llawn a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2018 yn nodi, fel y maent yn berthnasol i'r broses gyfethol, 'Mae pob ymgeisydd wedi ymateb ac maent yn dod i'r cyfweliadau ar 26 Ionawr. Dywedodd [cynrychiolydd o Gyngor Sir Powys a oedd yn bresennol yn y cyfarfod] na ddylai'r broses gymryd cymaint o amser â hyn ac fe ymatebodd [Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Donald Jenkins] gan ddweud bod mis Rhagfyr yn rhy brysur ar gyfer

cynnal cyfweliadau a chan nad oeddem yn gwybod a oedd cyfweliadau'r holl ymgeiswyr yn angenrheidiol. Roedd mis Ionawr wedi ei gofnodi dros dro ar gyfer cyfarfodydd ... ac roedd y 26ain yn union cyn cyfarfod nesaf y Cyngor i wneud y penderfyniad'.

257 Ar 21 Rhagfyr 2018, fe ysgrifennodd Mrs Sheila Jenkins, gwraig y Cynghorydd Donald Jenkins, at y Clerc blaenorol yn dweud ei bod wedi bod yn ystyried cyflwyno cais i gael ei chyfethol i'r Cyngor, a'i bod yn 'awyddus iawn i helpu [Donald Jenkins] yn y gwaith yma. Mae [Donald Jenkins] a fi wedi siarad am hyn ac mae ef yn teimlo, os mai dyna'r hyn y mae arnaf eisiau ei wneud yna nid oes ganddo ef broblem gyda hynny. Codais y cwestiwn ynglŷn â bod â gŵr a gwraig ar y Cyngor, ond fe wnaeth ef fy sicrhau nad oes rhwystr cyfreithiol i hynny, mai'r unig gyfyngiadau yw bod rhaid i mi fod wedi byw yn y gymuned am o leiaf flwyddyn a bod ar y gofrestr etholiadol. Rwy'n bodloni'r ddau faen prawf yma, felly rwy'n cyflwyno fy enw i gael fy nghyfethol'. Ni chwblhaodd Mrs Jenkins y ffurflen gais i gael ei chyfethol. Mae hi wedi dweud wrth fy archwilwyr nad oedd hi'n ymwybodol bod y dyddiad cau i gyflwyno cais i gael ei chyfethol wedi bod, ac ni wnaeth Clerc y Cyngor ei hysbysu ynghylch y ffaith yma wrth ymateb i'w chais. Yn wir, fe ysgrifennodd y Clerc at Ms Jenkins yn ei gwahodd i ddod am gyfweliad i gael ei chyfethol ar 26 Ionawr 2020. Mae Mrs Jenkins wedi dweud wrth fy archwilwyr 'pe [bai] wedi cael [ei gwneud] yn ymwybodol o'r ffeithiau ni [fyddai] wedi parhau â'r cais'.

258 Rwy'n ystyried na ddylai'r Cyngor fod wedi derbyn cais gan Mrs Jenkins gan bod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi bod ar 30 Tachwedd 2018. Fodd bynnag, dywedodd y Cadeirydd a'r Clerc blaenorol wrth aelodau o'm tîm archwilio eu bod wedi penderfynu derbyn cais Mrs Jenkins.

259 Dywedodd y Cadeirydd wrth fy archwilwyr nad oedd ef, na'r Clerc, wedi 'sylweddoli tan 2 Ionawr 2019 wrth drefnu'r hysbysiad ar gyfer cyfethol bod cais Mrs Sheila Jenkins wedi cael ei gyflwyno ar ôl y dyddiad cau'. Nid wyf yn derbyn yr esboniad hwn, gan mai hwy eu hunain oedd wedi pennu'r dyddiad cau ar yr hysbysiad cyfethol a gyhoeddwyd. Ar ben hynny, hyd yn oed os oedd hyn yn wir, nid wyf wedi cael unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cadeirydd a'r Clerc blaenorol wedi hysbysu aelodau'r Cyngor bod Mrs Jenkins wedi colli'r dyddiad cau i gyflwyno cais i gael ei chyfethol fel aelod o'r Cyngor. Rwyf o'r farn nad oedd cyfiawnhad dros y penderfyniad i dderbyn cais Mrs Jenkins a bod y penderfyniad hwnnw'n amhriodol. Ar ben hynny, ni ddylai'r Cadeirydd fod wedi ymwneud o gwbl ag ystyried cais ei wraig gan bod ganddo fuddiant personol ac a oedd yn rhagfarnu yn y mater. Mae ei ymwneud â'r broses pan oedd ganddo fuddiannau a oedd yn amlwg yn gwrthdaro yn golygu ei fod wedi gadael ei hun yn agored i honiadau o wyrduedd.

## Cyfranogodd Cadeirydd y Cyngor a chynghorydd arall yn y broses gyfweld ar gyfer cyfethol aelodau newydd er bod ganddynt fuddiannau oedd yn gwrthdaro

260 Ar 26 Ionawr 2019, cynhaliwyd cyfweliadau fel rhan o'r broses i lenwi'r ddau le gwag ar gyfer cynghorwyr. Dywedwyd wrth fy archwilwyr fod dau o'r pedwar ymgeisydd a oedd wedi cyflwyno ceisiadau i gael eu cyfethol cyn y dyddiad cau heb ddod i'r cyfweliad. Cafodd y ddau ymgeisydd arall a oedd wedi cyflwyno cais i gael eu cyfethol cyn y dyddiad cau eu cyfweld ar

26 Ionawr 2019, ac felly hefyd Mrs Jenkins, a oedd wedi cyflwyno cais ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

261 Nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion o'r cyfweliadau. Dywedodd y Cadeirydd wrth fy archwilwyr, er ei fod wedi cyfweld â dau o'r ymgeiswyr, na wnaeth gyfweld â'i wraig. Rwyf hefyd yn nodi bod aelod arall o'r Cyngor, y Cynghorydd Hunt, a oedd yn gweithredu fel Is-Gadeirydd y Cyngor ar y pryd, wedi cyfranogi yn y broses gyfweld hefyd er iddo ddatgan yn ddiweddarach bod ganddo fuddiant personol yn y broses gyfethol am ei fod yn ffrind i un o'r ymgeiswyr. Dywedodd y Cynghorydd Hunt wrth fy archwilwyr i ei fod wedi cael ei hysbysu gan Gadeirydd y Cyngor na allai gyfweld ag un o'r ymgeiswyr am 'ei fod yn ffrindiau gyda [hi] am eu bod ill dau wedi bod yn aelodau o Bwyllgor Neuadd y Pentref'. Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd Hunt wrth fy archwilwyr hefyd nad oedd yn cytuno ei fod yn ffrind personol i'r ymgeisydd dan sylw. Fe gyfranogodd y Cynghorydd Hunt yn y broses gyfweld ond mae'n taeru na wnaeth gyfweld â'r ymgeisydd. Dywedodd y Cadeirydd wrtho na ddylai gyfweld.

262 Fel a nodir ym **mharagraffau 282 i 283**, cydnabu'r Cynghorydd Donald Jenkins a'r Cynghorydd Hunt yn ddiweddarach fod ganddynt fuddiannau personol mewn perthynas â'r broses gyfethol. Er fy mod yn derbyn na wnaethant gyfweld â'r ymgeiswyr yr oedd eu buddiannau'n ymwneud â hwy, serch hynny, fe gyfranogon nhw yn y broses gyfweld, ac yn fy marn i, gallai aelodau'r cyhoedd yn rhesymol ddod i'r casgliad y gallai eu buddiannau fod wedi effeithio'n sylweddol ar eu gallu i asesu'r ymgeiswyr y gwnaethant gyfweld â hwy mewn modd gwrthrychol. Mae'r Cadeirydd wedi cydnabod na ddylai fod wedi cyfranogi yn y broses gyfweld.

263 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol a ragnodir gan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 (Y Cod Enghreifftiol)[1]. Mae'r Cod Enghreifftiol yn nodi bod rhaid i'r Aelodau ymlynu wrth y cod ymddygiad hwn,

- pa bryd bynnag y byddant yn cynnal busnes eu hawdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eu hawdurdod;
- pa bryd bynnag y byddant yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eu bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsant eu hethol neu eu penodi iddi;
- pa bryd bynnag y byddant yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eu bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eu hawdurdod; ac
- ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod, neu ddefnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall.

264 Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau,

- 'ym mhob mater ystyried a oes ganddynt fuddiant personol, ac a yw'r cod ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatgelu'r buddiant hwnnw'.

[1] Fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 (Rhif 2016/84).

- pan fydd ganddynt fuddiant personol ym musnes yr awdurdod ac y byddant yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, 'rhaid iddynt ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg'.
- lle mae'r buddiant personol hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu, h.y. un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn bod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu barn yr Aelod ynghylch buddiant cyhoeddus, rhaid i'r Aelod, (oni roddwyd iddo/iddi oddefeb i aros) ymadael â'r ystafell lle y mae cyfarfod i ystyried yr eitem y mae ganddo/ganddi fuddiant ynddi yn cael ei gynnal.
- cyn diwedd cyfarfod, neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant ar lafar, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cyngor o'r buddiant. Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gynnwys o leiaf fanylion am y buddiant personol, manylion am y busnes yr oedd y buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; a llofnod yr aelod sy'n gwneud y datganiad.

265 Nid yw'r nodyn a gadwyd gan y Rheolwr Craffu a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn nodi bod y Cadeirydd wedi codi mater ei ymwneud â'r broses gyfweld er mai ei wraig oedd un o'r ymgeiswyr.

266 Rwy'n ystyried bod y Cynghorwyr Jenkins a Hunt wedi cyfranogi yn y broses gyfweld ar gyfer cyfethol aelodau newydd er bod ganddynt fuddiannau y byddai'n rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn eu bod mor arwyddocaol fel y byddant yn debygol o ragfarnu barn yr Aelod ynghylch buddiant cyhoeddus. Trwy gyfranogi yn y broses gyfweld, rwy'n ystyried ei bod yn debygol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rwy'n nodi, ac nid wyf yn herio, sylw'r Cynghorydd Hunt nad oedd yn ffrind personol i ymgeisydd mewn gwirionedd. Fodd bynnag, o ystyried ei fod wedi datgan bod ganddo fuddiant personol yn y broses gyfethol yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2019, ac wedi datgan yn ysgrifenedig bod y buddiant hwnnw'n ymwneud â chyfeillgarwch gydag un o'r ymgeiswyr, ni ddylai fod wedi cyfranogi mewn unrhyw ran o'r broses gyfethol.

## Methodd Cadeirydd y Cyngor a chynghorydd arall ag ymlynu wrth ofynion y Cod Ymddygiad Aelodau pan gyfranogon nhw yn y broses i gyfethol aelodau newydd o'r Cyngor

267 Ar 29 Ionawr 2019, cyn cyfarfod y Cyngor llawn i ystyried cyfethol aelodau i'r Cyngor, fe ffoniodd y Cadeirydd Reolwr a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys. Diben yr alwad oedd ceisio cyngor ynghylch agweddau penodol ar y broses gyfethol. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Rheolwr Craffu a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod grŵp o Aelodau wedi cyfweld ag ymgeiswyr ar 26 Ionawr 2019 a bod cyfarfod y Cyngor yn mynd i ystyried eu ceisiadau yn nes ymlaen y noson honno (29 Ionawr 2019). Mae'r cofnod ysgrifenedig o'r alwad a gadwyd gan y Rheolwr Craffu a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn nodi bod ar y Cadeirydd eisiau cyngor ynghylch y canlynol:

- a ellid cynnal y cyfarfod mewn sesiwn breifat, h.y. a ellid eithrio aelodau'r cyhoedd rhag bod yn bresennol; ac
- a allai ymgeiswyr a oedd wedi ymgeisio gael eu heithrio rhag cael eu hystyried.

268 Fe wnaeth y Rheolwr Craffu a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghori'r Cadeirydd fel a ganlyn:

- nid oedd unrhyw un a oedd wedi ymgeisio ac a oedd yn gymwys i gynnig ei enw i gael ei gyfethol yn gallu cael ei wrthod fel ymgeisydd gan y Cyngor; ac
- er y gallai'r Cyngor eithrio aelodau'r cyhoedd o un o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd natur gyfrinachol y mater(ion) a fyddai'n cael ei drafod/eu trafod, cwestiynodd 'pam fyddai cyfethol yn gyfrinachol'.

269 Ar 29 Ionawr 2019 am 7pm, cyfarfu'r Cyngor llawn. Roedd y busnes a oedd i'w gynnal yn cynnwys cyfethol dau aelod newydd. Rwy'n ystyried bod gan Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Donald Jenkins, fuddiant personol ac a oedd yn rhagfarnu yn y mater hwn am bod ei wraig yn un o'r ymgeiswyr a oedd yn dymuno cael eu cyfethol. Roedd gan y Cynghorydd Hunt fuddiant personol ac a oedd yn rhagfarnu hefyd yn yr ystyr ei fod wedi datgan yn ddiweddarach ei fod yn ffrind i un o'r ymgeiswyr. Er mwyn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymddygiad, byddwn wedi disgwyl i'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Hunt yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019 fod wedi,

- datgan ar lafar fodolaeth a natur eu buddiant ar ddechrau'r cyfarfod ar 29 Ionawr 2019, neu cyn bod yr eitem mewn perthynas â chyfethol aelodau'n mynd i gael ei hystyried gan y Cyngor;
- ymadael â'r cyfarfod tra'r oedd yr eitem mewn perthynas â chyfethol aelodau'n cael ei hystyried gan y Cyngor; a hefyd
- cyn y cyfarfod, neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod, rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cyngor o'u buddiannau, a hwnnw'n nodi manylion am y buddiant, manylion am y busnes yr oedd y buddiant personol yn gysylltiedig ag ef, h.y. y broses gyfethol, a'u llofnodion.

270 Mae cofnodion y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019 yn nodi bod un o aelodau etholedig Cyngor Sir Powys a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, 'wedi herio dilysrwydd y broses gyfethol' a hefyd, 'Gan bod y broses gyfethol yn cael ei herio, bydd y penderfyniad/y drafodaeth yma'n cael ei (h)atgyfeirio nes bod y Cyngor yn ceisio arweiniad cyfreithiol gan ein cynrychiolydd cyfreithiol yng Nghyngor Sir Powys. Bydd [y Clerc] yn ysgrifennu at yr holl ymgeiswyr yn eu hysbysu ynghylch hyn. Bydd hyn yn cael ei drafod mewn cyfarfod arall – i'w gadarnhau'.

271 Mae cofnodion y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019 yn wael. Nid ydynt yn nodi pa wybodaeth, os o gwbl, a ddarparwyd ar gyfer aelodau ynglŷn â'r broses gyfweld a drafodwyd mewn perthynas â chyfethol, ac nid yw'n nodi bod aelodau'r Cyngor wedi pleidleisio i benodi Mrs Jenkins ac aelod arall o'r cyhoedd fel aelodau cyfetholedig. Fodd bynnag, mae cofnodion cyfarfod dilynol y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2019 yn nodi'n glir bod pleidlais ymhlith yr aelodau wedi cael ei chynnal yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019.

272 Mae Clerc blaenorol a Chadeirydd y Cyngor wedi dweud wrth fy archwilwyr bod y Cadeirydd a'r Cynghorydd Hunt wedi datgan eu buddiannau yn y trafodion cyfethol ac wedi ymadael â chyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019. Fodd bynnag, nid wyf wedi gallu cadarnhau mai dyma'n wir ddigwyddodd am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi darparu dwy fersiwn ar gyfer nghyfer o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019. Mae un fersiwn o'r cofnodion yn nodi bod y Cadeirydd

a'r Cynghorydd Hunt wedi datgan eu buddiannau. Mae'r ail fersiwn o'r cofnodion yn nodi na ddatganwyd unrhyw fuddiannau. Mae'r ddwy fersiwn o'r cofnodion wedi cael eu llofnodi gan y Cadeirydd yn ei gapasiti fel Cadeirydd y Cyngor. Nid oes dyddiad ar bwys llofnod y Cadeirydd ar y naill fersiwn na'r llall o'r cofnodion.

- nid yw'r fersiwn o'r cofnodion sy'n nodi bod y Cadeirydd a'r Cynghorydd Hunt wedi datgan eu buddiant yn nodi natur eu buddiannau. Roedd yn ofynnol datgan natur y buddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau.
- er bod y Cadeirydd yn haeru ei fod ef a'r Cynghorydd Hunt wedi ymadael â'r cyfarfod tra'r oedd cyfethol yn cael ei ystyried, nid yw'r naill fersiwn na'r llall o'r cofnodion y cyfeirir atynt uchod yn nodi hyn. Ar ben hynny, nid yw'r cofnodion yn nodi bod Cadeirydd newydd wedi'i benodi, a fyddai wedi bod yn ofynnol pe bai'r Cadeirydd wedi gadael y cyfarfod.

273 Nid yw'r naill fersiwn na'r llall o gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019 yn nodi ei bod yn ofynnol i aelodau'r cyhoedd adael y cyfarfod tra bo'r eitem mewn perthynas â chyfethol aelodau'n cael ei hystyried. Fodd bynnag, mae aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod wedi dweud wrthyf fi y gofynnwyd iddynt adael y cyfarfod. Fel a nodir ym **mharagraff 266**, roedd Rheolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys wedi cwestiynu pam ddylid ystyried bod trafodaeth am gyfethol yn gyfrinachol a pham ddylai olygu ei bod yn ofynnol i aelodau'r cyhoedd adael y cyfarfod. Beth bynnag, roedd y penderfyniad i eithrio'r cyhoedd yn anghyfreithlon, yn yr ystyr bod y Cyngor wedi methu â gwneud penderfyniad i eithrio'r cyhoedd gan nodi ei resymau dros wneud hynny, fel sy'n ofynnol yn ôl adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 (**gweler paragraffau 120 i 123**).

274 Ar 30 Ionawr 2019, fe ffoniodd y Cadeirydd Reolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys, a gadwodd nodyn manwl o'r hyn ddywedodd y Cadeirydd wrtho. Mae'r nodyn yn datgelu:

- bod Cynghorydd Sir Powys a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019 wedi cwestiynu a allai ef (y Cadeirydd) gymryd rhan yn y cyfarfod pan oedd ei wraig yn un o'r ymgeiswyr;
- bod y Cadeirydd wedi aros yn y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ond wedi ymadael pan oedd y bleidlais ar yr ymgeiswyr yn cael ei chynnal; a
- bod y Cadeirydd yn credu y gallai gyfranogi yn y broses gyfethol gan ei fod yn gallu pleidleisio dros ei wraig dan y gyfraith etholiadol.

275 Mae'r nodyn am y sgwrs hefyd yn nodi'r cyngor a roddwyd gan Reolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys i'r Cadeirydd:

- nad oedd y gyfraith etholiadol yn berthnasol i gyfarfodydd cynghorau;
- bod y Cadeirydd wedi'i rwymo gan y Cod Ymddygiad Aelodau ac y gallai fod wedi torri'r Cod am ei fod wedi methu â datgan buddiant ac ymadael â'r ystafell;
- y byddai'n ddull gweithredu synhwyrol i'r Cyngor ailddechrau'r holl broses gyfethol; a hefyd
- pe bai'r Cyngor yn ceisio cyfethol cynghorwyr a bod gwraig y Cadeirydd yn ymgeisydd, y dylai'r Cadeirydd ymadael â'r cyfarfod tra bo'r eitem mewn perthynas â chyfethol yn

cael ei hystyried, (fel y dylai unrhyw Gynghorydd arall a oedd â chysylltiad personol agos ag unrhyw un o'r ymgeiswyr).

276 Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu ataf gan ddatgan 'Rwy'n meddwl mai ffrwyth dychymyg rhywun yw'r cyngor y mae eich archwilydd yn honni ei fod wedi cael ei roi i mi gan y swyddog craffu'. Fodd bynnag, nid yw fy archwilwyr wedi 'honni' bod y cyngor wedi cael ei roi gan Reolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys. Mae'r cyngor wedi'i nodi'n glir yn y nodiadau cyfamserol a gadwodd y Rheolwr Craffu a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd o'i sgwrs dros y ffôn gyda'r Cadeirydd ar 30 Ionawr 2019.

277 Rwy'n ystyried ei bod yn debygol bod y Cadeirydd a'r Cynghorydd Hunt heb ddatgan eu buddiannau yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019. Rwy'n nodi bod Rheolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys, ac yntau wedi siarad gyda'r Cadeirydd y diwrnod canlynol, wedi cael ar ddeall bod y Cadeirydd heb ddatgan ei fuddiant yn y cyfarfod a'i fod wedi cyfranogi yn y drafodaeth ynghylch yr ymgeiswyr, a'i fod wedi teimlo bod angen cynghori'r Cadeirydd 'ei fod wedi'i rwymo gan y Cod Ymddygiad Aelodau ac y gallai fod wedi torri'r Cod yn awr am ei fod wedi methu â datgan buddiant ac ymadael â'r ystafell'. (Rwy'n derbyn y gall y Cynghorwyr Jenkins a Hunt fod wedi ymadael â'r ystafell ar ôl y drafodaeth ond cyn y bleidlais, ond nid yw hyn yn ddigon i ateb gofynion y Cod). Mae'r Cadeirydd yn haeru bod y nodiadau cyfoes a gadwyd gan Reolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys o'i sgwrs ffôn gyda'r Cadeirydd ar 30 Ionawr 2019 yn anwir. Ni welaf unrhyw reswm pam y byddai Rheolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys wedi ffugio'i gyfrif o'r sgwrs ffôn fel a awgrymwyd gan y Cadeirydd.

278 Mae'r Cadeirydd yn haeru bod cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019 yn anghywir. Mae wedi dweud wrth fy archwilwyr i ei fod wedi datgan ei fuddiant yn y broses gyfethol yn y cyfarfod ac wedi ymadael â'r cyfarfod cyn bod unrhyw drafodaeth am gyfethol wedi digwydd. Nid wyf yn derbyn safbwynt y Cadeirydd. Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor yw'r cofnod swyddogol o drafodion y Cyngor. Nid yw cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019 yn nodi bod y Cadeirydd wedi gadael y cyfarfod tra'r oedd y broses gyfethol yn cael ei thrafod (fel a nodir ym mharagraff 270, er fy mod wedi cael dwy fersiwn wahanol o'r cofnodion wedi'u llofnodi, nid yw'r un o'r ddwy fersiwn yn nodi bod y Cadeirydd wedi gadael y cyfarfod). Ar 15 Chwefror 2019, fe wnaeth aelodau'r Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019, gan gadarnhau felly bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod ar 29 Ionawr 2019.

279 Mae Cynghorydd arall a oedd yn bresennol yn y cyfarfod wedi ysgrifennu at fy archwilwyr gan ddweud bod y Cynghorwyr Jenkins a Hunt wedi datgan eu buddiannau, wedi ymadael â'r cyfarfod tra'r oedd y trafodaethau'n digwydd, a'i bod hithau wedi cadeirio'r cyfarfod yn eu habsenoldeb. Mae'r safbwynt hwn yn ategu cyfrif y Cadeirydd. Fodd bynnag, mae'r Cynghorydd yma hefyd wedi ysgrifennu at fy archwilwyr gan ddweud, 'cawsom ein hysbysu (gan Reolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Powys) y byddai'n rhaid i ni gynnull cyfarfod arall i ddewis y Cynghorwyr newydd oherwydd y gred nad oeddem wedi gweithredu o fewn y gyfraith. Fe wnaethom hynny [cynhaliwyd cyfarfod pellach ar 15 Chwefror 2019] ac roedd canlyniad y bleidlais yr un fath o hyd'.

280 Pe bai'r Cynghorwyr Jenkins a Hunt wedi datgan eu buddiannau ac wedi ymadael â'r trafodaethau ynglŷn â'r broses gyfethol, ni fyddai unrhyw reswm wedi bod dros gynnal ail gyfarfod gan y byddai'r gofynion cyfreithiol i ddatgan a pheidio â chyfranogi wedi cael eu hateb. Mae'r ffaith bod aelodau'r Cyngor yn ystyried bod angen cynnal cyfarfod pellach ar 15 Chwefror 2019 yn awgrymu'n gryf na wnaeth y Cynghorwyr Hunt a Jenkins ddatgan eu buddiannau yn y broses gyfethol ac absenoli eu hunain o'r cyfarfod tra bo'r broses gyfethol yn cael ei thrafod.

281 Mae'r Cadeirydd yn haeru bod fy nghanfyddiadau archwilio'n wallus am nad wyf wedi cyfweld â phob aelod o'r Cyngor a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Mae hefyd yn haeru bod y nodiadau cyfoes a gadwyd gan Reolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys o'u sgwrs ffôn ar 30 Ionawr 2019 yn 'anwir ac erioed wedi digwydd'. Nid wyf yn ystyried bod angen cyfweld â'r aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019 gan bod yr aelodau hyn, gan gynnwys y Cadeirydd, eisoes wedi cadarnhau bod y cyfrif a geir yng nghofnodion y cyfarfod yn gywir. Pe bai cofnodion y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019 yn anghywir, o ystyried buddiannau'r Cynghorwyr Jenkins a Hunt, byddwn wedi disgwyl iddynt fod wedi gofyn am ddiwygio'r cofnodion cyn eu cymeradwyo. A dweud y gwir, fe wnaeth y Cadeirydd lofnodi'r cofnodion yn ei gymhwyster fel Cadeirydd y Cyngor gan gadarnhau eu cywirdeb. Ar ben hynny, fel a nodir ym **mharagraff 277**, mae'r ffaith bod aelodau'r Cyngor wedi penderfynu ail-gynnal y cyfarfod ar 15 Chwefror 2019 yn dynodi bod yr aelodau'n derbyn ar y pryd nad oedd y broses briodol wedi cael ei dilyn yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019.

282 Hyd yn oed pe bai'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Hunt wedi datgan eu buddiannau ar lafar yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019, lle caiff buddiant personol ei ddatgan ar lafar yn un o gyfarfodydd y Cyngor, mae'n ofynnol bod yr aelod sy'n datgan y buddiant hwnnw, yn y cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd y cyfarfod, gwblhau hysbysiad ysgrifenedig i'r Cyngor o'i fuddiant (**paragraff 262**). Mae'r Cyngor yn darparu ffurflenni templed 2 ochr i aelodau eu cwblhau i ddarparu hysbysiad ysgrifenedig o'u buddiannau. Mae ochr gyntaf y ffurflen yn nodi'r cyfarfod lle gwnaed datganiad ar lafar, yr eitem ar yr agenda yr oedd yn ymwneud â hi, a natur y buddiant personol a ddatganwyd. Mae'r ail ochr yn cynnwys darpariaeth i'r cynghorydd sy'n datgan ei fuddiant lofnodi'r ffurflen a rhoi'r dyddiad arni.

283 Ni wnaeth y Cynghorwyr Donald Jenkins a Hunt gwblhau'r ffurflenni gofynnol yng nghyfarfod y Cyngor nac yn syth ar ôl cyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019 fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymddygiad. Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 26 Chwefror 2019 yn nodi, erbyn y dyddiad hwnnw, nad oedd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Hunt wedi dychwelyd y ffurflenni wedi'u cwblhau at Glerc y Cyngor mewn perthynas â'r cyfarfod ar 29 Ionawr 2019. Lle na wneir hysbysiad ysgrifenedig o fuddiannau personol yn unol â'r Cod, h.y. yng nghyfarfod y Cyngor neu'n syth ar ôl cyfarfod y Cyngor pan honnir bod datganiad ar lafar wedi cael ei wneud, mae'r Cod Ymddygiad yn nodi y byddir yn tybio na chafodd y buddiant ei ddatgelu.

284 Mae'r Cyngor wedi darpar ffurflenni wedi'u cwblhau ar fy nghyfer sy'n nodi bod y Cynghorwy7r Jenkins a Hunt wedi datgan buddiannau personol mewn perthynas â'r broses gyfethol yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019. Rwy'n nodi nad yw'r Cyngor wedi gallu darparu ail dudalen y naill na'r llall o'r ffurflenni hyn ar fy nghyfer, y dylai'r Cynghorwyr Jenkins a Hunt fod wedi'u llofnodi a rhoi'r dyddiad arnynt. Felly nid yw'n glir i mi pryd gafodd y ffurflenni hyn eu cwblhau na pha un a gawsant eu llofnodi erioed fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymddygiad. Mae methiant y Cadeirydd a'r Cynghorydd Hunt i ddarparu hysbysiad ysgrifenedig o'u buddiannau

yn y cyfarfod neu'n syth ar ôl y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019 yn golygu, yn unol â'r Cod Ymddygiad, y tybir na wnaethant ddatgan eu buddiannau. Rwyf felly'n ystyried na wnaeth y Cadeirydd a'r Cynghorydd Hunt gydymffurfio â gofynion y Cod Ymddygiad i:

- ddatgan eu buddiannau personol/sy'n rhagfarnu yn y broses gyfethol ar lafar yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019;
- ymadael â'r cyfarfod tra'r oedd y broses gyfethol, sef mater yr oedd ganddynt fuddiant personol/sy'n rhagfarnu ynddo, yn cael ei ystyried; a hefyd
- cwblhau hysbysiad ysgrifenedig o fuddiannau y maent yn haeru eu bod wedi'u datgan ar lafar yn y cyfarfod hwnnw a'i ddychwelyd at y Cyngor, yng nghyfarfod y Cyngor neu'n syth ar ôl cyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019.

285 Mae'r Cadeirydd yn haeru ei fod wedi dychwelyd y ffurflenni datgan buddiant at y Clerc 'fel y mae cofnodion y cyfarfod ar 15 Chwefror yn ei ddangos'. Fodd bynnag, mae cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2019 a 26 Chwefror 2019 yn nodi nad oedd y ffurflenni perthnasol wedi cael eu cwblhau a'u llofnodi ar y dyddiadau hynny.

286 Rwy'n ystyried bod y Cynghorwyr Donald Jenkins a Hunt wedi cyfranogi ym mhroses benderfynu'r Cyngor ynghylch cyfethol aelodau newydd pan oeddent wedi'u hanghymhwyso rhag gwneud hynny oherwydd eu buddiannau a oedd yn rhagfarnu yn y mater. Gall eu hymwneud fod wedi peri i'r broses benderfynu fod yn groes i'r gyfraith. Rwy'n ystyried bod ymddygiad y Cynghorwyr Jenkins a Hunt heb gyrraedd y safon y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w disgwyl gan eu swyddogion cyhoeddus.

287 Ar 15 Chwefror 2019, cyfarfu'r Cyngor llawn. Y brif eitem o fusnes ar yr agenda oedd cyfethol aelodau. Mae cofnodion y cyfarfod ar 15 Chwefror yn nodi bod y Clerc 'yn mynd i ddiwygio cofnodion cyfarfod mis diwethaf i ychwanegu datganiadau o fuddiant ar gyfer y Cyngh. Jenkins a'r Cyngh. Peter Hunt ynghylch cyfethol. Cofnodion 26 Ionawr 2019 [ni chynhaliodd y Cyngor gyfarfod ar 26 Ionawr 2019, ond cynhaliwyd cyfarfod ar 29 Ionawr 2019] – wedi'u cymeradwyo a'u llofnodi'. Nid yw'r cofnodion yn nodi pwy ofynnodd am y newid i gofnodion cyfarfod mis Ionawr na bod y Cyngor wedi pleidleisio i ddiwygio'r cofnodion, fel oedd yn ofynnol yn ôl rheolau sefydlog y Cyngor.

288 Mae cofnodion 15 Chwefror 2019 yn nodi bod y Cynghorydd Donald Jenkins a'r Cynghorydd Hunt wedi datgan buddiannau yn y broses gyfethol a oedd yn mynd i gael ei hystyried yn y cyfarfod, ond nid yw cofnodion y cyfarfod yn nodi beth oedd natur eu buddiannau.

- mae'r cofnodion hefyd yn nodi bod y Cadeirydd wedi hysbysu'r Cyngor ei fod wedi 'cymryd cyngor cyfreithiol ynghylch dilyn gweithdrefnau, ac o ran y broses gyfweld roedd y Rheolau Sefydlog a'r cod ymddygiad wedi cael eu torri. Cod Ymddygiad 2007 – ni chaiff Cynghorwyr gymryd rhan os oes perthynas neu ffrind yn dymuno sefyll'. Ymddengys fod y Cadeirydd yn cyfeirio at ei sgyrsiau ffôn gyda Rheolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys ar 30 Ionawr 2019. Yn yr alwad honno cafodd y Cadeirydd ei hysbysu ei fod wedi'i rwymo gan y Cod Ymddygiad Aelodau ac y gallai fod wedi torri'r Cod hwnnw oherwydd yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2019 ei fod wedi methu â datgan buddiant a gadael yr ystafell tra'r oedd y broses i gyfethol ei wraig yn cael ei hystyried, ac y dylai'r broses gyfethol gyfan fod wedi cael ei hailddechrau. Nid yw cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2020 yn

nodi bod y Cadeirydd wedi hysbysu'r cyfarfod ynghylch cyngor y Rheolwr Craffu a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y dylai'r broses gyfethol gael ei hailddechrau.

289 Mae cofnodion y cyfarfod ar 15 Chwefror 2019 yn nodi y gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem mewn perthynas â chyfethol aelodau'n cael ei hystyried. Ni wnaeth y Cyngor benderfyniad i eithrio aelodau'r cyhoedd gan nodi ei resymau dros eu heithrio fel sy'n ofynnol yn ôl adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 ac felly roedd y weithred i eithrio aelodau'r cyhoedd yn erbyn y gyfraith. Gadawodd y Cynghorwyr Jenkins a Hunt yr ystafell hefyd tra'r oedd yr eitem mewn perthynas â chyfethol aelodau'n cael ei hystyried gan y Cyngor (roedd gan y Cyngor ddau le gwag i aelodau cyfetholedig ac roedd yn ystyried tri ymgeisydd ar gyfer y lleoedd gwag hyn).

290 Mae'r cofnodion yn nodi y 'gwnaeth y Cynghorwyr a oedd ar ôl benderfynu cadw at y penderfyniad gwreiddiol a wnaed trwy bleidlais yn flaenorol yng ngoleuni gwybodaeth newydd am yr etholiadau' ac fe gafodd Mrs Jenkins (gwraig y Cynghorydd Donald Jenkins) ac un o'r ddau ymgeisydd arall eu cyfethol. Y rheswm a roddwyd dros ddewis y ddau ymgeisydd yma dros yr ymgeisydd aflwyddiannus oedd 'Roedd y Cynghorwyr yn teimlo, gydag etholiad yn cael ei gynnal yn fuan, y byddai gan [yr ymgeisydd aflwyddiannus] well siawns o gael ei hethol'.

291 Rwy'n ystyried bod y ffordd y gwnaeth y Cyngor gyfethol aelodau i'r Cyngor ar 15 Chwefror 2019 yn sylfaenol wallus am y rhesymau canlynol:

- Cynghorodd Rheolwr Craffu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys Gadeirydd y Cyngor, yng ngoleuni ei gyfranogiad yn y broses gyfethol er bod ganddo fuddiant oedd yn gwrthdaro, y dylai'r broses gyfethol fod wedi cael ei hailddechrau'n llwyr. Er gwaethaf y cyngor hwn, ni chafodd y broses ei hailddechrau, ac fe benderfynodd y Cyngor gadw at ganlyniad y bleidlais a gynhaliwyd ganddynt yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019 lle'r oedd y Cynghorwyr Jenkins a Hunt wedi cyfranogi er eu bod wedi'u hanghymhwyso rhag gwneud hynny. Mae'r Cadeirydd wedi dweud wrth fy archwilwyr i ei fod wedi hysbysu'r Cyngor ynghylch y cyngor a gafodd gan Reolwr Crafu a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys, a bod ei gyd-gynghorwyr wedi penderfynu diystyru'r cyngor. Fodd bynnag, rwy'n nodi nad yw cofnodion y cyfarfod ar 15 Chwefror 2019 yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at y cyngor, bod y Cyngor wedi ystyried y cyngor na'r rhesymau pam y dewison nhw ei ddiystyru. Rwyf felly'n ystyried ei bod yn debygol na wnaeth y Cadeirydd gyfleu'r cyngor i aelodau'r Cyngor.
- mae cofnodion y cyfarfod ar 15 Chwefror 2019 yn dynodi nad oedd y penderfyniad ynglŷn â pha ymgeiswyr i'w cyfethol yn seiliedig ar unrhyw feini prawf gwrthrychol ac na wnaeth ystyried unrhyw wybodaeth a gafwyd fel rhan o'r broses ymgeisio a chyfweld. Mae'r cofnodion yn nodi mai'r rheswm na chafodd yr ymgeisydd aflwyddiannus ei gyfethol oedd am y 'byddai ganddi well siawns o gael ei hethol' mewn etholiad a oedd ar fin cael ei gynnal. Rwy'n ystyried bod hon yn ystyriaeth amherthnasol wrth benderfynu pwy ddylai gael ei gyfethol i'r Cyngor, a dylai'r Cyngor fod wedi cyfethol yr ymgeiswyr gorau i gyflawni'r rôl yn seiliedig ar feini prawf asesu a bennwyd ymlaen llaw. Mae methiant y Cyngor i roi sylw i ystyriaethau perthnasol megis sgiliau a phrofiad yr

ymgeiswyr, ac i ddiystyru ystyriaeth amherthnasol, h.y. y tebygolrwydd y byddai un o'r ymgeiswyr yn cael ei hethol yn y dyfodol, wedi gwneud y broses benderfynu'n annheg ac o bosibl yn anghyfreithlon.

# Atodiad 1

## Canfyddiadau ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19 yn adroddiad yr Archwilydd Mewnol o'i gymharu â chanfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar yr un materion

| Archwilydd Mewnol i gytuno/anghytuno â'r gosodiad | Casgliad Archwilydd Mewnol y Cyngor | Casgliad archwilwyr yn gweithio ar ran yr Archwilydd Mewnol |
|---|---|---|
| A yw llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol trwy gydol y flwyddyn? | Do, profion priodol wedi'u cynnal ac wedi canfod eu bod yn gywir | Naddo. Ni chadwodd y Cyngor gofnodion cyfrifyddu priodol ac roedd y cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio (yr oedd archwilydd mewnol y Cyngor ei hun wedi'u paratoi) wedi'u camddatgan yn berthnasol (**paragraffau 60 i 67**). |
| A fodlonwyd rheoliadau ariannol y Cyngor, a gefnogwyd taliadau gan anfonebau, a gymeradwywyd gwariant ac a roddwyd cyfrif priodol am TAW? | Do, Rheoliadau Ariannol wedi'u bodloni ac wedi gwirio'n briodol a chanfod bod hynny'n gywir. | Naddo. Ni chydymffurfiwyd â rheoliadau ariannol y Cyngor mewn perthynas â chaffael nwyddau a gwasanaethau, ac fe wnaeth y Cyngor hawlio TAW ar ddeunyddiau a brynwyd ar gyfer gwaith ar dendr yn anghywir gan Cyllid a Thollau EM (**paragraffau 183 i 244**). |

| Archwilydd Mewnol i gytuno/anghytuno â'r gosodiad | Casgliad Archwilydd Mewnol y Cyngor | Casgliad archwilwyr yn gweithio ar ran yr Archwilydd Mewnol |
|---|---|---|
| A yw'r Cyngor wedi asesu'r risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac wedi adolygu digonolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli'r rhain? | Do, adroddiad asesu risg wedi'i gyflawni gan y Cyngor. | Yn rhannol. Mae gan y Cyngor gofrestr risgiau sy'n nodi risgiau ariannol a chyffredinol a sut y bydd y Cyngor yn rheoli'r risgiau hynny. Fodd bynnag, nid yw'r gofrestr risgiau'n cynnwys yr holl risgiau allweddol, a chanfu fy archwiliad nad oedd llawer o'r mesurau rheoli risg yn gweithredu'n ymarferol. |
| A ddeilliodd y gofyniad blynyddol am braesept o broses gyllidebu ddigonol, a gafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac a oedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol? | Na, fe orwariodd y Cyngor [yn y flwyddyn 2018-19] yn unol â'r angen. Ni all hyn barhau gan mai dim ond [£500] yw'r cronfeydd wrth gefn bellach. Wedi siarad gyda'r Cadeirydd a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n dweud y bwriedir ymdrin â hyn. | Na. Nid oedd gofyniad y Cyngor am braesept yn seiliedig ar broses gyllidebu ddigonol, ac ni phennwyd y gyllideb yn unol â gofynion deddfwriaethol. Ni chafodd y gyllideb ei monitro'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Er bod yr archwilydd mewnol wedi dweud bod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn o £500 ar 31 Mawrth 2019, roedd cronfeydd wrth gefn y Cyngor ar y dyddiad hwn yn £2,023 mewn gwirionedd (**paragraffau 69 i 83**). |
| A gafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, ac a roddwyd cyfrif priodol am TAW? | Do, wedi gwirio a chanfod bod hynny'n gywir. | Do, cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn, ei gofnodi'n briodol a'i fancio. |

| Archwilydd Mewnol i gytuno/anghytuno â'r gosodiad | Casgliad Archwilydd Mewnol y Cyngor | Casgliad archwilwyr yn gweithio ar ran yr Archwilydd Mewnol |
|---|---|---|
| A gefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, a gymeradwywyd gwariant ac a roddwyd cyfrif priodol am TAW? | Do, wedi gwirio a chanfod bod hynny'n gywir. | Ddim yn berthnasol, ni wnaeth y Cyngor weithredu taliadau arian mân. |
| A dalwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau'r Cyngor, ac a gymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol? | Do, wedi'u cymhwyso'n briodol ac wedi gwirio'n briodol. | Naddo. Nid wyf wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cymeradwyo contractau cyflogaeth y Clerc a oedd yn cynnwys manylion ei horiau cytundebol a'i chydnabyddiaeth ariannol. Nid oedd y taliadau cyflog i'r Clerc yn unol â'i chontractau cyflogaeth. (**paragraffau 173 i 182**). Rwyf wedi fy argyhoeddi bod gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol wedi'u cymhwyso'n briodol. |
| A oedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol? | Oeddent, roedd cofnodion yn cael eu cynnal yn briodol gan y Cyngor. | Nac oeddent. Canfu fy archwilwyr fod y gwerth asedau a ddatgelwyd yng nghyfrifon y Cyngor yn anghyson â'r hyn a ddatgelwyd yn y gofrestr asedau a buddsoddiadau ac nad oedd tir a oedd yn eiddo i'r Cyngor a adwaenir fel y Maes Hamdden wedi cael ei gynnwys yn y gofrestr asedau. |

| Archwilydd Mewnol i gytuno/anghytuno â’r gosodiad | Casgliad Archwilydd Mewnol y Cyngor | Casgliad archwilwyr yn gweithio ar ran yr Archwilydd Mewnol |
|---|---|---|
| A gafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol? | Do, wedi gwirio a chanfod bod hyn yn gywir. | Naddo, er bod y Cyngor wedi cynhyrchu dogfen cysoni â’r banc roedd y llyfr arian wedi’i fantoli’n artiffisial â chyfriflenni banc y Cyngor ac nid oedd y cysoniad yn gyson â’r cyfrifon blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor, na’r cyfrifon blynyddol a gyflwynwyd i’w harchwilio. Roedd Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor, Ms West, Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Donald Jenkins, ac archwilydd mewnol y Cyngor, Mr Woosnam, wedi llofnodi’r ddogfen gysoni a rhoi dyddiad arni. Yn fy marn i, dylai Mr Woosnam fod wedi canfod bod y gwiriad allweddol hwn heb gael ei gyflawni’n iawn (**Arddangosyn 2**). |

| Archwilydd Mewnol i gytuno/anghytuno â'r gosodiad | Casgliad Archwilydd Mewnol y Cyngor | Casgliad archwilwyr yn gweithio ar ran yr Archwilydd Mewnol |
|---|---|---|
| A gafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail gyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), a oeddent yn gyson â'r llyfr arian, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion tanategol, a, lle y bo'n briodol, a gafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol? | Do, wedi gwirio a chanfod bod hyn yn gywir. | Yn rhannol. Roedd y datganiadau cyfrifyddu wedi'u paratoi'n gywir ar sail derbyniadau a thaliadau, ond roedd y datganiadau cyfrifyddu wedi'u camddatgan yn berthnasol ac nid oeddent yn gyson â llyfr arian y Cyngor. Ar ben hynny, nid oedd y llyfr arian wedi cael ei gysoni'n briodol â thrafodion y Cyngor yn y banc (**paragraff 60 i 65**). |
| A yw'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr (os yn berthnasol)? | Do, cyfrifoldebau wedi'u cyflawni fel sy'n ofynnol. | Ddim yn berthnasol gan nad oedd y Cyngor yn dal unrhyw arian ar ymddiriedolaeth. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.